Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil gymdeithasol

Rhif: 12/2015

# Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses

# Cymunedau yn Gyntaf: gwerthusiad o'r broses


## Ipsos MORI, Wavehill Consulting


Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rheini a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid, o anghenraid, safbwyntiau Llywodraeth Cymru


Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:
Dr Mike Harmer
Tîm Dadansoddi Llywodraeth Lleol a Chymunedau
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
E-bost: michael.harmer@cymru.gsi.gov.uk



OGL

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni nodir yn wahanol.

http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/



Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, Chwefror 26 2015
ISBN 978-1-4734-2904-8


© Hawlfraint y Goron, 2015

## Tabl cynnwys

Rhestr o acronymau.....2
1 Cyflwyniad.....3
2 Cyd-destun Strategol a Rhesymeg y Rhaglen.....14
3 Effeithiolrwydd y Prosesau Llywodraethu a Rheoli.....28
4 Perfformiad y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd yma.....50
5 Effeithiolrwydd y Broses Gyflawni.....65
6 Prosesau Monitro ac Adrodd.....82
7 Casgliadau ac Argymhellion.....92

## Atodiadau

ATODIAD 1 - Gwerthusiad Canlyniadau: Cwmpasu.....101

## Rhestr o acronymau

Menter sy'n Gweithredu ar Sail Ardal (MGSA)

Cynllun Cynnwys y Gymuned (CCG)

Cyrff Cyflawni Arweiniol (CCA)

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol (PAC)

Y Grant Amddifadedd Disgyblion (PDG)

Hap-dreialon wedi’u Rheoli (RCT)

Sgôr Coch, Ambr, Gwyrdd (CAG)

Timau Gweithredu Rhanbarthol (TGRh)

Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG)

Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (y Cynllun Gweithredu)

Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) (TUPE)

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)

Llywodraeth Cymru (LlC)

Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC)

# 1 Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ionawr 2014, cafodd Ipsos MORI a Wavehill eu comisiynu gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o broses cyfnod diweddaraf y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru. Mae'r adroddiad terfynol hwn ar y gwerthusiad yn rhoi asesiad trylwyr o'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf; mae'n dadansoddi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Rhaglen – sy'n cynnwys adolygiad o gynllun a phroses gyflawni'r Rhaglen yn ogystal â'i heffeithiolrwydd – ac yn cynnig argymhellion a gwelliannau i'r Rhaglen wrth symud ymlaen.

**Cefndir y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf**

1.2 Mae Trechu Tlodi yn un o flaenoriaethau sylfaenol Llywodraeth Cymru. Rhaglen gymunedol i drechu tlodi yw Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'n cefnogi Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Trechu Tlodi (y Cynllun Gweithredu)[1]. Mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio ar y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gyda phwyslais ar sicrhau bod yr unigolion, y teuluoedd a'r grwpiau mwyaf agored i niwed yn y cymunedau hynny yn cael cymorth.

Mae'r Rhaglen yn canolbwyntio ar greu Cymunedau sy'n Ffynnu, Cymunedau Iachach a Chymunedau sy'n Dysgu[2]. Bydd cyfnod diweddaraf y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (rhwng 2012 a 2015) yn cael cyfanswm cyllid o £75 miliwn.

1.3 Mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn dyddio'n ôl i 2001, pan gafodd ei chyflwyno'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru fel ymyriad hirdymor i geisio trechu tlodi. Nod y Rhaglen oedd darparu gwasanaethau drwy waith partneriaeth a gweithredu'n lleol.

1.4 Roedd adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) yn 2009[3] yn awgrymu bod y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi sicrhau

[1] Y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (2012): http://gov.wales/topics/people-and-communities/tacklingpoverty/taking-forward-tackling-poverty-action-plan/?lang=cy
[2] Cymunedau yn Gyntaf, Canllawiau Rhaglen (2013): http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidance13cy.pdf
[3] Cymunedau yn Gyntaf, Swyddfa Archwilio Cymru, gwybodaeth ar-lein 01/11/2014 http://www.wao.gov.uk/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau

buddiannau i'r ardal leol, ond bod y cynnydd a wnaed gan y Rhaglen i gyflawni ei hamcanion uchelgeisiol yn anneglur. Teimlwyd bod hynny'n deillio o'r ffaith bod gwahanol ganlyniadau wedi'u gosod i'r gwahanol bartneriaethau a oedd yn cyflwyno'r Rhaglen, ac asesiad o'r cynnydd a oedd yn "oddrychol i raddau helaeth"[4].

1.5 Roedd adroddiad a gyhoeddwyd yn 2010 gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol[5] hefyd yn mynegi pryder ynghylch mesur y canlyniadau a gwerth am arian y Rhaglen. Galwodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o gyfeiriad i'r Rhaglen, ac am roi system fonitro well ar waith er mwyn gallu mesur y cynnydd a wnaed o ran cyflawni amcanion y Rhaglen.

1.6 Cafodd buddiannau'r Rhaglen eu hystyried ymhellach mewn adroddiad annibynnol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Joseph Rowntree yn 2010[6]. Roedd y gwerthusiad hwn yn nodi llwyddiannau Cymunedau yn Gyntaf o ran hyrwyddo cynnwys y gymuned a grymuso pobl a oedd yn byw mewn ardaloedd o amddifadedd. Er hynny, roedd yr adroddiad yn argymell y dylai'r Rhaglen ddatblygu'r cyfleoedd cynyddol mae'n eu creu i gynnwys y gymuned a gweithio'n fwy effeithiol gyda mentrau adfywio eraill er mwyn cyflwyno ymyriadau adfywio ehangach ym meysydd tai, adfywio ffisegol a datblygu economaidd.

1.7 Dechreuodd cyfnod diweddaraf y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar 1af Ebrill 2012, a chafodd y Rhaglen ei diwygio ymhellach ym mis Ionawr 2013. Ar ôl derbyn argymhellion gwerthusiadau blaenodol, cafodd y Rhaglen ei hailstrwythuro fel rhaglen trechu tlodi a'i hailgynllunio i weithredu'n fwy penodol mewn nifer llai o ardaloedd mwy. Erbyn hyn, mae'r Rhaglen yn gweithredu drwy 52 Clwster[7] sy'n cynnwys 10% o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Mae'n cael ei rheoli gan 19 o Gyrff Cyflawni Arweiniol (CCA). Cafodd y CCA eu sefydlu yn ystod y cyfnod hwn, a'r cyrff hyn oedd yn

---

[4] Cymunedau yn Gyntaf, Swyddfa Archwilio Cymru, gwybodaeth ar-lein 01/11/2014 http://www.wao.gov.uk/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau


[5] *Cymunedau yn Gyntaf*, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol, 2010, gwybodaeth ar-lein ar 01/11/2014 yn <http://www.assembly.wales/Laid%20Documents/CR-LD7923%20-%20Public%20Accounts%20Committee%20Report%20on%20Communities%20First-22022010-168311/cr-ld7923-Cymraeg.pdf>.

[6] http://www.jrf.org.uk/publications/regenerating-communities-first-wales

[7] O'i gymharu â dros 150 o ardaloedd targed yng nghyfnod blaenorol y Rhaglen.

bennaf gyfrifol am gyflwyno Cynllun Cyflawni a Chynllun Cynnwys y Gymuned ar gyfer eu Clystyrau. Cafodd cyllid ei neilltuo i'r Clystyrau yn unol â'r cynlluniau hyn. Mae Ffigur 1.1 yn dangos map o'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru.

Ffigur 1.1: Map o'r ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yng Nghymru




*Ffynhonnell: Stats Cymru, https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First/Cluster-Maps , 24ain Tachwedd 2014*

1.8 Er mwyn ymateb i bryderon ynghylch monitro'r Rhaglen, cafodd Fframwaith Canlyniadau newydd ei gyflwyno ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, a oedd yn cyd-fynd â'r egwyddor Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG), er mwyn mesur effaith y Rhaglen. Prif bwrpas hyn oedd sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gallu deall yn well beth sy'n cael ei gyflwyni ym mhob Clwster, ac ar lefel y Rhaglen yn gyffredinol. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi hefyd yn cydnabod y gall Cymunedau yn Gyntaf helpu i ddod ag ymyriadau ar draws y Llywodraeth at ei gilydd, a'u helpu i weithio gyda'i gilydd i sicrhau canlyniadau gwell. Yn dilyn hynny, cafodd cysylltiadau gwell eu rhoi ar waith rhwng y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod mor effeithiol â phosib gyda'i gilydd. Mae rhagor o wybodaeth am y Rhaglen, ei model rhesymeg a'r theori newid ar gael ym Mhennod 2.

**Amcanion y Gwerthusiad**

1.7 Cafodd y gwerthusiad ei gomisiynu er mwyn dadansoddi pa mor effeithiol yw prosesau'r Rhaglen, a chynnig argymhellion ar gynllun y Rhaglen a'i phroses gyflawni. Cynhaliwyd y gwerthusiad rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2014. Mae nodau cyffredinol y gwerthusiad, fel y pennwyd gan Lywodraeth Cymru, wedi'u nodi isod.

- Amlinellu'r model rhesymeg sy'n sail i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf;
- Asesu'r perfformiad wrth weithredu cyfnod newydd Cymunedau yn Gyntaf, ac i ba raddau maen nhw'n cadw at fodel rhesymeg y Rhaglen;
- Canfod pa agweddau ar gynllun a phroses weithredu'r Rhaglen mae angen eu gwella a pham, a pha agweddau ar y Rhaglen sy'n gweithio'n dda a pham;
- Cynnig argymhellion ar ffyrdd posib o wella'r Rhaglen; a
- Chynnig cynllun ymchwil ar gyfer gwerthuso canlyniadau posib y Rhaglen yn y dyfodol.

1.8 Hefyd, penderfynodd Ipsos MORI a Wavehill ymestyn cwmpas y gwerthusiad i sicrhau y byddai modd gwerthuso cyfnod cynllunio'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf bresennol yn erbyn yr arferion gorau perthnasol a'r sefyllfa polisi ehangach:

- I asesu i ba raddau y mae'r dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio mewn ymyriadau ar sail ardal i drechu tlodi wedi cael ei chynnwys yng nghyfnod presennol Cymunedau yn Gyntaf; ac
- I ddeall cyd-destun y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac i ba raddau mae'n cyd-fynd â mentrau eraill yng Nghymru a'r DU.

**Dulliau'r Gwerthusiad**

1.9 Mae prif gyfnodau'r gwerthusiad hwn wedi'u nodi isod yn Ffigur 1.2.

Ffigur 1.2: Crynodeb o drefn y gwerthusiad




1.10 Mae'r adroddiad terfynol hwn ar y gwerthusiad yn defnyddio'r holl dystiolaeth sydd wedi cael ei chasglu a'i dadansoddi. Cafodd amrywiaeth o ddulliau eu defnyddio wrth werthuso'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys technegau sylfaenol, eilaidd, meintiol ac ansoddol. Mae manylion pwysig am holl gamau'r gwerthusiad wedi'u nodi isod.

- **Tasg 1 – Adolygiad o'r dystiolaeth:** Roedd hyn yn golygu edrych ar fentrau eraill sy'n gweithredu ar sail ardal sy'n cael eu gweithredu a'u gwerthuso yng Nghymru, yn Lloegr ac yn rhyngwladol. Cafodd 20 o raglenni eu hadolygu, gan gynnwys Teuluoedd yn Gyntaf (Cymru), Communities First (Lloegr) a Chyfraith Cymdogaeth (Sbaen). Roedd yr adolygiad o dystiolaeth yn rhoi darlun o'r hyn sy'n gweithio'n effeithiol mewn ymyriadau eraill ar sail ardal er mwyn trechu tlodi. Mae'r adolygiad o dystiolaeth cyfan wedi'i nodi yn Atodiad 1.
- **Tasg 2 – Theori Newid:** Datblygwyd y cam hwn yn dilyn adolygiad dogfennau o wybodaeth reoli Llywodraeth Cymru ynghylch Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys Cynlluniau Cyflawni Clystyrau a Chynlluniau Cynnwys y Gymuned. Bu tîm y gwerthusiad hefyd yn cynnal cyfweliadau manwl â rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r gwaith o ddatblygu a rheoli Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni eraill sy'n cyfrannu at yr agenda trechu tlodi. Pwrpas yr ymgynghoriadau hyn oedd deall y rhesymeg sydd wrth wraidd cynllun y Rhaglen, y model cyflawni a'r canlyniadau y rhagwelwyd y byddai'r Rhaglen yn eu sicrhau. Ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, cafodd fersiwn ddrafft o Theori Newid ei datblygu a chyflwyno i'w thrafod mewn gweithdy a gynhaliwyd yn Llywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014. Cafodd Theori Newid ei wella ymhellach ar sail yr adborth a roddwyd yn y gweithdy. Mae adroddiad llawn Theori Newid wedi'i nodi yn Atodiad 1.
- **Tasg 3 – Asesu Perfformiad y Rhaglen:**
    - **Arolwg ar-lein a lenwyd gan gynrychiolwyr y CCA a Rheolwyr Clwstwr:** Roedd yr arolwg yn rhoi syniad o beth yw barn y CCA a'r Rheolwyr Clystyrau am y Rhaglen (gan gynnwys rôl Llywodraeth Cymru, darparu hyfforddiant a chefnogaeth a chyflwyno ASG). Roedd hefyd yn casglu gwybodaeth am y prif broblemau roedd timau'r Clystyrau wedi'u hwynebu wrth gyflwyno'r Rhaglen. Cafwyd ymateb ar gyfer 38 o'r 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf posib, gyda 45 yn cymryd rhan o blith 75[8] o'r sampl a gafodd wahoddiad. Cynhaliwyd yr

[8] O blith y 45 a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd 34 ohonynt yn Rheolwyr Clwstwr ac 11 yn gynyrchiolwyr CCA. Gwnaed ymdrech sylweddol i annog ymateb gan gynifer â phosib o Reolwyr Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf a chynrychiolwyr CCA. Roedd hyn yn cynnwys negeseuon e-bost ymlaen llaw, negeseuon e-bost i'w hatgoffa ac estyniad ar ddyddiadau'r arolwg.

arolwg rhwng 5$^{ed}$ Mehefin ac 11$^{eg}$ Gorffennaf 2014. Mae'r holiadur a data llinell uchaf yr arolwg wedi'u nodi yn Atodiad 2.

- **Ymgynghoriadau manwl â chynrychiolwyr y CCA a Rheolwyr Clwstwr:** Yn dilyn yr arolwg ar-lein, cysylltwyd â 10 o'r ymatebwyr eto i gynnal ymgynghoriad manwl awr o hyd dros y ffôn ynghylch eu safbwyntiau ar y Rhaglen. Cafodd y 10 eu dewis ar sail eu hymateb i'r arolwg er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriadau manwl yn cynnwys amrywiaeth o safbwyntiau yn fanylach, gan gynnwys y rheini a fynegodd farn fwy cadarnhaol neu fwy negyddol yn yr arolwg ar-lein. Roedd hyn yn gyfle i ddeall yn well eu hymatebion i'r arolwg. Mae'r canllawiau a ddefnyddiwyd i lywio'r ymgynghoriadau hyn wedi'u nodi yn Atodiad 3.
- **Astudiaethau achos yr ardal leol:** Cafodd y gwaith o reoli, cyflawni a monitro'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei archwilio'n fanylach drwy saith astudiaeth achos mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf lleol (yn gyffredinol, cafodd yr astudiaethau eu cynnal ar lefel Clwstwr, ond mewn rhai llefydd cafodd ychydig o Glystyrau eu cynnwys o dan un CCA). Cafodd yr astudiaethau achos eu dewis er mwyn adlewyrchu amrywiaeth o wahanol fathau o glystyrau – er enghraifft, ystod o fodelau rheoli ar draws rhanbarthau Cymru (e.e., ardal lle mai awdurdod lleol yw'r CCA, yn ogystal ag ardal lle mai Mudiad Sector Gwirfoddol yw'r CCA). Roedd hyn yn cynnwys ardaloedd gyda lefelau amrywiol o danwariant a ragwelir, ac ardaloedd sy'n cynnwys nifer mwy, a nifer llai, o glystyrau. Cafodd ystod o safbwyntiau eu casglu ym mhob ardal drwy gynnal dros 40 o gyfweliadau manwl â'r CCA, Rheolwyr Clwstwr, staff timau'r Clystyrau, darparwyr gwasanaeth a defnyddwyr gwasanaeth.Cynhaliwyd yr astudiaethau achos hyn rhwng mis Medi a mis Hydref 2014.
- **Cyfweliadau â'r Prif Hysbyswyr:** Cynhaliwyd 15 cyfweliad manwl arall â chynrychiolwyr o amrywiaeth o fudiadau a rhaglenni sy'n gysylltiedig â Cymunedau yn Gyntaf (ar lefel genedlaethol neu lefel leol), gan gynnwys cynrychiolwyr o raglenni eraill sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Cafodd prif hysbyswyr eu dewis ar gyfer y cyfweliadau hyn lle'r oedd angen casglu rhagor o dystiolaeth i ateb rhai

o gwestiynau pwysig y gwerthusiad, gan gynnwys plygu rhaglenni a pha mor effeithiol roedd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cydlynu â phartneriaid. Cynhaliwyd y cyfweliadau hyn ym mis Hydref 2014.

  - **Dadansoddiad eilaidd o ddata'r cynllun:** Cynhaliwyd adolygiad o berfformiad ariannol y Rhaglen, ar lefel Clwstwr, ym mlwyddyn ariannol 2013/14. Roedd y cam hwn hefyd yn cynnwys adolygiad o gynlluniau cyflawni y Clystyrau a'u cynlluniau cynnwys y gymuned.

- **Tasg 4 – Cyfuno tystiolaeth y gwerthusiad:** Mae hyn yn dod â holl elfennau tystiolaeth y gwerthusiad at ei gilydd er mwyn rhoi asesiad cyffredinol o broses gweithredu'r Rhaglen.
- **Tasg 5 – Cynllunio gwerthusiad canlyniadau**: Mae cyfnod olaf y gwerthusiad hwn wedi cynnwys ystyried y strategaeth posib ar gyfer gwerthuso canlyniadau posib Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol. Roedd y dasg hon yn cynnwys mapio'r ffynonellau data sydd ar gael i'r mesurau perfformiad sydd o dan y chwyddwydr, ac asesu'r cyfle i fabwysiadu amrywiaeth o dechnegau gwerthuso. Mae hyn wedi'i nodi yn Atodiad 1.

**Cyfyngiadau Methodolegol**

1.11 Yn yr un modd ag unrhyw werthusiad o raglen tymor hir a chymhleth fel Cymunedau yn Gyntaf, mae'n bwysig tynnu sylw at y cyfyngiadau methodolegol sy'n gysylltiedig â'r asesiad o'r dystiolaeth a dehongli'r canfyddiadau.

- Roedd Cynlluniau Cyflawni a chynlluniau Cynnwys y Gymuned ar gael gan bob Clwstwr heblaw un. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r gwerthusiad gael darlun clir o'r holl ddulliau sy'n cael eu defnyddio i gyflwyno Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Er hynny, gan fod y cynlluniau i fod i ddatblygu a bod yn 'ddogfennau bywl', mae'n bosib bod y fersiynau a welwyd wedi cael eu diwygio a'u diweddaru ymhellach dros gyfnod y gwerthusiad.
- Cafodd tîm y gwerthusiad ddata monitro perfformiad gan y system Aspireview[9]. Nid oedd hyn yn cynnwys mynediad at y feddalwedd ei hun, felly mae casgliadau'r gwerthusiad ynghylch pa mor hawdd oedd defnyddio'r

[9] Cafodd tîm y gwerthusiad ddata o'r system ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2013/14. Roedd y data hwn yn rhoi dadansoddiad o'r prosiectau fesul elfen a Chlwstwr, y cyfanswm a fu'n cymryd rhan ym mhob gweithgaredd, a'r rhifau a gyrhaeddwyd ar gyfer pob elfen Mesur Perfformiad Cymunedau yn Gyntaf fesul gweithgaredd.

system a sut mae'n gweithio yn seiliedig ar asesiadau meintiol drwy drafod â'r CCA a thimau'r Clystyrau.

- Nid yw'r adroddiadau monitro bob chwe mis a blynyddol y mae'r CCA yn eu rhoi i Lywodraeth Cymru wedi cyfrannu at yr asesiad o'r Rhaglen, gan nad oedd y rhain yn rhan o'r corff o dystiolaeth a oedd ar gael ar gyfer y gwerthusiad.

1.12 Gan gofio am y cyfyngiadau hyn, mae'r dystiolaeth a gasglwyd wedi cael ei thriongli er mwyn cynnig asesiad mor gadarn â phosib o'r Rhaglen.

**Strwythur yr Adroddiad**

1.13 Dyma strwythur adroddiad terfynol y gwerthusiad:

- **Pennod 2 – Cyd-destun Strategol a Rhesymeg y Rhaglen:** mae'r bennod hon yn crynhoi rhesymau a chyd-destun y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac yn cyflwyno theori newid a model rhesymeg y Rhaglen. Mae hefyd yn ystyried i ba raddau roedd cynllun ar sail ardal y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn helpu'r Rhaglen i gyflawni ei hamcanion.
- **Pennod 3 – Effeithiolrwydd y Prosesau Llywodraethu a Rheoli:** mae'r bennod hon yn ystyried rôl Llywodraeth Cymru, y Cyrff Cyflawni Arweiniol a thimau Rheoli'r Clystyrau yn y broses o lywodraethu a rheoli'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i asesu pa mor effeithiol yw eu dylanwad ar y Rhaglen.
- **Pennod 4 – Cynnydd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd yma:** mae'r bennod hon yn asesu perfformiad y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd yma. Mae'n ystyried sut mae'r cyfraniadau at y Rhaglen yn cael eu defnyddio i gyflawni'r gweithgareddau perthnasol. Mae'r cynnydd yn cael ei asesu o ran gwariant ariannol a'r gweithgareddau a gynhaliwyd ac yn ystyried yr heriau sydd wedi effeithio ar y cynnydd hwn.
- **Pennod 5 – Cyflawni'n Effeithiol:** mae'r bennod hon yn asesu pa mor effeithiol fu'r prosesau wrth weithredu cynllun a chyflawni'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar lawr gwlad. Mae'n tynnu sylw at enghreifftiau o arferion gorau ac yn awgrymu meysydd i'w gwella lle bo'n briodol.
- **Pennod 6 – Prosesau Monitro ac Adrodd:** mae'r bennod hon yn edrych ar y dulliau a ddefnyddiwyd i gasglu a chofnodi gwybodaeth monitro, ac yn ystyried pa mor effeithiol fu'r prosesau o ran galluogi asesiad cadarn o lwyddiannau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn erbyn amcanion y Rhaglen.

- **Pennod 7 – Casgliadau ac Argymhellion:** mae'r bennod hon yn cyflwyno casgliadau cyffredinol y broses o werthuso'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac yn cynnig nifer o wersi i'w dysgu ar gyfer cynllunio a chyflawni'r Rhaglen yn y dyfodol.
- Mae **Atodiad 1** yn edrych ar y strategaethau posib ar gyfer gwerthuso canlyniadau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol, ac yn argymell y dull mwyaf priodol ar sail cynllun y Rhaglen a'r data sydd ar gael.

## 2 Cyd-destun Strategol a Rhesymeg y Rhaglen

2.1 Mae'r bennod hon yn ateb dau gwestiwn pwysig o ran Cymunedau yn Gyntaf. Yn gyntaf, a yw Cymunedau yn Gyntaf yn cyd-fynd â'r sefyllfa polisi a chyflawni ehangach yng Nghymru. Yn ail, beth yw'r prif ragdybiaethau damcaniaethol sy'n sail i gyflwyno Cymunedau yn Gyntaf yn llwyddiannus,

2.2 Hefyd, mae'n asesu i ba raddau mae polisi'r Rhaglen yn cyd-fynd â mentrau eraill Llywodraeth Cymru, ac yn egluro'r rhesymeg sydd wrth wraidd y broses o'i chyflawni.

### Y Cyd-destun Polisi Cenedlaethol

2.3 Mae Trechu Tlodi yn un o flaenoriaethau sylfaenol Llywodraeth Cymru. Yng Nghymru, dydy 22.9% o'r bobl ifanc sydd rhwng 19 a 24 oed ddim mewn Cyflogaeth, Addysg na Hyfforddiant, ac mae 23% o bobl yn byw gyda thlodi incwm cymharol[10]. Mae hynny'n fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol. Plant sydd fwyaf tebygol o fod yn byw gyda thlodi incwm cymharol: yn ystod cyfnod o dair blynedd a oedd yn dod i ben yn 2012/13, roedd 31% o blant Cymru yn byw mewn tlodi (a ddiffinir fel aelwydd sy'n byw ar lai na 60% o'r incwm canolig, ar ôl costau tai), gyda 21.5% o aelwydydd Cymru yn cael eu diffinio fel aelwydydd heb waith[11].

2.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi egluro ei hymrwymiad i drechu tlodi yn y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi (y Cynllun Gweithredu). Wrth wneud hynny, mae wedi nodi bod blaenoriaethu anghenion y bobl dlotaf ac amddiffyn y rheini sydd fwyaf mewn perygl o fod yn dlawd ac o gael eu hallgáu yn un o'i nodau. Mae hyn yn cydnabod bod tlodi yn arwain at ganlyniadau addysg, iechyd ac ymddygiad gwanach i unigolyn. Fel y dywedir yn y Cynllun Gweithredu, mae'r lefel is o sgiliau, yr iechyd gwael a'r diffyg uchelgais a ddaw yn sgil amddifadedd yn ffrwyno potensial economi Cymru, ac mae perygl y gallai hynny ddatblygu'n gylch tlodi peryglus[12]. Dyma brif

[10] Diffinir hynny fel pobl sy'n ennill 60% o incwm canolig y DU ar ôl costau tai.
[11] "Prif Fesurau Tlodi" Llywodraeth Cymru,http://gov.wales/about/programmeforgov/poverty/performance?code=OU064&lang=cy, ar 21/11/2014
[12] "Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi", Llywodraeth Cymru http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/120625tackpovplancy.pdf, ar 21/11/2014

amcanion camau gweithredu Llywodraeth Cymru ar drechu tlodi, fel y nodir yn y Cynllun Gweithredu:

- Atal tlodi;
- Helpu pobl i wella eu sgiliau a gwella perthnasedd eu cymwysterau; a
- Lliniaru effaith tlodi.

2.5 Mae'r Cynllun Gweithredu yn nodi targedau a cherrig milltir penodol ar gyfer trechu tlodi. Mae'n canolbwyntio llawer ar leihau'r achosion o dlodi plant, a gwella canlyniadau pobl ifanc. Y Cynllun Gweithredu hwn yw'r dull gweithredu ar gyfer sicrhau'r canlyniadau a nodwyd yn Strategaeth Tlodi Plant 2011 Llywodraeth Cymru[13]. Nod y Strategaeth Tlodi Plant yw egluro sut bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gyfrannu at leihau'r achosion o dlodi plant, yn ogystal â rhoi cyfeiriad i drefniadau cyflawni lleol effeithiol. Mae Strategaeth Tlodi Plant 2011 yn diffinio tri amcan strategol ar gyfer trechu tlodi plant, sef:

- Lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith;
- Gwella sgiliau rhieni/gofalwyr a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd incwm isel, er mwyn iddyn nhw sicrhau swyddi sy'n talu'n dda; a
- Lleihau anghydraddoldebau sy'n bodoli mewn canlyniadau iechyd, addysg ac economaidd plant a theuluoedd drwy wella canlyniadau'r tlotaf.

2.6 Darperir y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer trechu tlodi plant yng Nghymru gan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010. Roedd y Mesur hwn yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru, Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru i osod amcanion penodol ar gyfer trechu tlodi plant.

2.7 Cyhoeddwyd strategaeth tlodi plant gyntaf Llywodraeth Cymru yn 2005, ond cafodd ei diweddaru yn 2011. Roedd Strategaeth Tlodi Plant 2011 yn cwmpasu cyfnod 2011-2014, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Strategaeth Tlodi Plant Ddiwygiedig ar gyfer Cymru ar hyn o bryd. Mae'r Strategaeth Tlodi Plant yn rhan ganolog o'r broses o gydlynu gwaith Llywodraeth Cymru ac asiantaethau eraill i drechu tlodi ar lefel strategol.

2.8 Y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw prif raglen Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi. Mae'n cynnwys tri amcan strategol a'r bwriad yw y bydd y rhain, gyda'i gilydd, yn cyfrannu at nodau'r Cynllun Gweithredu. Dylent hefyd arwain

[13] "Strategaeth Tlodi Plant 2011" Llywodraeth Cymru, http://gov.wales/docs/dsjlg/policy/110203newchildpovstrategy2cy.pdf, ar 21/11/2014

at wella dangosyddion Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) ar gyfer pob Clwstwr:

- Cymunedau Ffyniannus – Lleihau anhydraddoldeb o ran incwm a chyfleoedd i'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru, gan sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i ddarparu ar gyfer eu hunain a'u teuluoedd ac i wella eu cyfleoedd mewn bywyd;
- Cymunedau Dysgu – Hyrwyddo diwyllant o ddysgu yng nghymunedau Cymru lle mae pawb, ni waeth beth yw eu hoedran na'u gallu, yn cael eu hannog i sylweddoli eu potensial eu hunain a'u helpu i gyflawni eu potensial;
- Cymunedau Iachach – Gwella iechyd a lles pawb, gyda'r gwella'n digwydd ar raddfa sy'n gymesur â lefel yr amddifadedd.

**Cyd-destun Cenedlaethol y Rhaglen**

2.9 Rhaglen gymunedol i drechu tlodi yw Cymunedau yn Gyntaf, a rhan o'i rhesymeg yw y bydd yn cynnal gweithgareddau ar ei phen ei hun yn ogystal â bod yn llwyfan i gyflawni rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar drechu tlodi, ac yn ddull gweithredu cydlynol mewn cymunedau difreintiedig. Mae Tabl 2.1 yn rhestru rhaglenni Llywodraeth sy'n cael eu cyflwyno ochr yn ochr â Cymunedau yn Gyntaf.

Nod Prosiect Integreiddio Rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf a Theuluoedd, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, yw hyrwyddo a chefnogi mwy o gysondeb rhwng Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg yn ogystal â gwasanaethau a chyrff eraill. Bydd y Fframwaith Canlyniadau Cyffredin sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer y gwahanol raglenni hyn hefyd yn ceisio gwella cysondeb eu hamcanion trechu tlodi. Mae sicrhau mwy o gysondeb rhwng y rhaglenni hyn yn flaenoriaeth i'r Gweinidogion, ac mae nifer o ddigwyddiadau rhanbarthol wedi cael eu cynnal ar gais y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi ar y pryd[14]. Roedd y rhain yn dod â staff perthnasol y tair rhaglen at ei gilydd, yn ogystal â staff o feysydd priodol mewn llywodraeth leol, y gwasanaeth iechyd a'r Trydydd Sector. Un o nodau'r digwyddiadau rhanbarthol ar gyfer trechu tlodi oedd hyrwyddo'r syniad o roi'r gorau i gydweithio ar hap a symud tuag at ddull gweithredu mwy cyson a chydlynol sy'n gydnaws â'r agenda trechu tlodi.

[14] "Bwletin RCT" Llywodraeth Cymruhttp://www.rctcbc.gov.uk/en/relateddocuments/publications/fis/21561bulletinwweb.pdf

Tabl 2.1 Cyd-destun Rhaglenni Cenedlaethol Cymunedau yn Gyntaf

| Y Rhaglen | Daearyddiaeth | Manylion pwysig | Canlyniadau | Ymgais i gysoni â Cymunedau yn Gyntaf |
|---|---|---|---|---|
| Teuluoedd yn Gyntaf | Ar lefel leol yn bennaf, gydag amrywiaeth o ddulliau ar draws y 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. | Rhaglen genedlaethol a roddwyd ar waith rhwng 2012 a 2015. Ymateb pwysig i't Strategaeth Tlodi Plant ac mae'n ceisio ysgogi gwelliannau o ran canfod anghenion ac ymyriadau ataliol a chynnar er mwyn helpu'r teulu cyfan. | 1. Pobl o oedran gweithio mewn teuluoedd ar incwm isel yn cael swydd, ac yn symud ymlaen ym myd gwwaith;<br>2. Plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, sydd mewn tlodi neu mewn perygl o hynny, yn cyflawni eu potensial;<br>3. Plant, pobl ifanc a'u teuluoedd yn iach ac yn ffynnu;<br>4. Teuluoedd yn hyderus, yn gariadus, yn gryf ac yn ddiogel. | Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn gweithio ar draws ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac yn cydweithio â'r Rhaglen i gefnogi'r Strategaeth Tlodi Plant. Bydd y Fframwaith Canlyniadau Cyffredin yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng nodau. |
| Dechrau'n Deg | Ar lefel ardal, a'r ardaloedd yn cael eu dewis ar sail Data Aelwydydd sy'n cael Budd-daliadau Incwm ar gyfer plant 0-3 mlwydd oed. | Rhaglen Blynyddoedd Cynnar wedi'i thargedu i deuluoedd sydd â phlant iau na 4 oed mewn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar bedair elfen graidd: gofal plant o safon am ddim; cymorth ar gyfer magu plant; cefnogaeth ddwys gan ymwelydd iechyd; a chefnogaeth ae gyfer llythrennedd cynnar. | Y prif amcan yw lleihau nifer y bobl sydd â sgiliau gwan iawn drwy sicrhau gwell canlyniadau i blant mewn ardaloedd Dechrau'n Deg o ran sgiliau iaith, gwybyddol, cymdeithasol, datblygu economaidd ac iechyd. | Mae gan Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf themâu cyffredin a ddylai eu galluogi i gydweithio. Mae'n gweithio ochr yn ochr â Cymunedau yn Gyntaf i gefnogi'r Strategaeth Tlodi Plant. Bydd y Fframwaith Canlyniadau Cyffredin yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau mwy o gysondeb rhwng nodau. |
| Grant Amddifadedd Disgyblion | Cymorthdal mewn ysgolion, ledled Cymru, a nodir ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim. | Mae'n cael ei ddyrannu fesul disgybl, a'r bwriad yw y bydd yn goresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n wynebu dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig ac yn eu hatal rhag llwyddo i'r un graddau â'u cyfoedion, beth bynnag fo'u gallu. | Y prif ganlyniad yw lleihau'r bwlch presennol rhwng disgyblion sy'n deillio o effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. | Bydd cysondeb pendant rhwng y ddau drwy'r gronfa arian cyfatebol CF-PDG, lle bydd £1 miliwn ar gael bob blwyddyn ar gyfer y ddwy flynedd 2013/14 a 2014/15 i Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i gyfateb cyllid ar gyfer y Grant Amddifadedd Disgyblion. Nod y gronfa arian cyfatebol yw cefnogi cynigion sy'n dod â chymunedau ac ysgolion at ei gilydd i wella canlyniadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | addysgol a threchu tlodi[15].Bydd y gronfa hon yn cefnogi cydweithio rhwng ysgolion a chymunedau lleol, gan adeiladu ar yr arferion gorau sy'n dangos bod ysgolion mewn ardaloedd heriol yn cael canlyniadau gwell wrth fynd â dysgwyr i'r gymuned a gwahodd y trigolion, pobl fusnes ac arweinwyr y gymuned i'r ysgol.. |
| Twf Swyddi Cymru | Lefel yr unigolyn a lefel busnes. | Mae'n rhoi cymorth ariannol uniongyrchol i fusnesau bach a chanolig a chyrff eraill i'w helpu i dalu'r gost o greu cyfleoedd gwaith 6 mis i bobl ifanc (rhwng 16 a 24 oed) er mwyn rhoi cyfle iddynt gael profiad gwaith, dysgu sgiliau newydd a gwella eu rhagolygon gwaith yn y tymor hir. Mae'r cynllun hwn yn cynnig pedwar llwybr i bobl ifanc gael cyfleoedd cyflogaeth a ariennir, gan gynnwys cyfleoedd yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol, cynllun i raddedigion a rhaglen hunangyflogaeth. | Y prif amcan yw sicrhau bod pobl ifanc yn cael profiad gwaith gwerthfawr neu'n cael swydd amser llawn yn eu lleoliad Twf Swyddi Cymru. | Wedi'i gysoni drwy ariannu 750 o swyddi mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Hefyd, bydd Cymunedau yn Gyntaf yn treialu "Mentoriaid Cyflogaeth i'r Ifanc" er mwyn rhoi help ychwanegol i bobl ifanc o deuluoedd sy'n byw mewn tlodi gael cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth. Bydd y cynllun hwn ar waith mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid. |

[15] "Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion 2013–2015" Llywodraeth Cymru,http://gov.wales/docs/dcells/publications/130426-school-effectiveness-grant-2013-2015-cy.pdf, ar 21/11/2014

Tabl 2.1 Cyd-destun Rhaglenni Cenedlaethol Cymunedau yn Gyntaf

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid | Ar lefel ardal. | Lansiwyd fframwaith adfywio yn 2012 i geisio gwella'r economi leol ac ansawdd bywyd yng nghanol trefi, mewn cymunedau ar yr arfordir ac mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen yn blaenoriaethu cyllid buddsoddi â dargedir sy'n arwain at fwy o fuddsoddiad mewn llai o leoedd er mwyn cael cymaint o effaith â phosib. Mae egwyddorion y rhaglen yn canolbwyntio ar ddull gweithredu cydlynol, gan gynnwys cysylltiadau cryf a threchu tlodi a chreu swyddi newydd a thwf. | Mae gan y Rhaglen yr un dangosyddion canlyniad â Cymunedau yn Gyntaf, ceisio creu Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iachach a Chymunedau Dysgu. | Yn gyson gan eu bod yn rhannu dangosyddion canlyniad, ac mae ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf wedi'u nodi fel un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr ymyriad hwn. |

Ffynhonnell: Ipsos MORI

2.10 Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi hefyd yn disgwyl y bydd y Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid i sicrhau ffocws ar ganlyniadau cyffredin. Mae'r partneriaid hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol, Byrddau Gwasanaethau Lleol, Byrddau Iechyd Lleol a'r Heddlu. Hefyd, mae'n cynnwys ymrwymiad i roi mwy o adnoddau ychwanegol i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, gyda thimau'r Clystyrau, y cymunedau eu hunain ac adrannau Llywodraeth Cymru yn cyfrannu'n frwd at hynny. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod ei holl raglenni'n gweithio i gefnogi Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn cydnabod bod y broses o 'blygu rhaglenni' eisoes yn mynd rhagddi, ac mae rhai mentrau pwysig ar waith yn barod, gan gynnwys:

- **Canolfan Byd Gwaith:** Mae Cynghorwyr Cyflogaeth i Rieni y Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio yn ardaloedd Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf i helpu rhieni i ymuno â byd gwaith. Maent yn gweithio gyda rhieni sy'n byw mewn ardaloedd lleol Cymunedau yn Gyntaf, ac mae rhai ohonynt yn gweithio mewn canolfannau Cymunedau yn Gyntaf yn benodol.

- **Gwasanaethau Cynghori:** Mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gydag ystod o ddarparwyr cyngor i sicrhau bod pob cyngor a chymorth pwrpasol ar gael ym mhob clwstwr yng Nghymru. Mae hyn yn rhan allweddol o ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad o Wasanaethau Cynghori – ac mae'n helpu cymunedau gyda'r heriau sy'n eu hwynebu yn sgil diwygio lles.

- **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru:** Un o ddyheadau'r Cyngor Cyllido yw gweld mwy o ddisgyblion o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i Addysg Uwch. Mae gan y Cyngor Cyllido nod benodol i gynyddu nifer i disgyblion sy'n cyrraedd y nod hon. Bydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn parhau i weithio gyda'r Cyngor Cyllido ynghyd â Phrifysgolion lleol a cholegau Addysg Bellach er mwyn helpu mwy o bobl ifanc i fynd i Addysg Uwch ac Addysg Bellach a dileu'r rhwystau sy'n bodoli.

- **Cynhwysiant Digidol:** Mae Cymunedau 2.0 yn rhoi blaenoriaethu ei gefnogaeth mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac yn cydweithio'n agos â chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf i fynd i'r afael ag allgáu digidol ynghyd â blaenoriaethau eraill, fel cynhwysiant ariannol. Yng Nghaerffili, mae staff a gyflogir gan Cymunedau 2.0 sy'n gweithio ar y fenter 'Dewch Ar-lein Caerffili' yn cydweithio â swyddogion Cymunedau yn Gyntaf i gynnal sesiynau a digwyddiadau cymunedol ar y cyd. Mae Dyddiau Gwener Digidol, a gynhelir mewn partneriaeth â llyfrgelloedd Caerffili, wedi bod yn boblogaidd dros ben wrth gael pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol i fynd ar-lein am y tro cyntaf.

- **Modd i Fyw:** Archwiliad iechyd a lles Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl dros 50 oed: Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod pobl dros 50 oed ac sy'n byw mewn tlodi yn elwa o'r rhaglen hon. O fewn Llywodraeth Cymru, mae Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio'n agos gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod cefnogaeth a chysylltiad cadarn ar gael i gyflwyno'r Archwilidau Iechyd i Bobl dros 50 oed mewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf.

- **Deddf Gofal Wrthgyfartal:** Mae'r gwaith hwn i'w weld yn bennaf yn ardaloedd Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf ac Aneurin Bevan. Nod y gwaith yw mynd i'r afael â'r broblem mai cymunedau difreintiedig sydd fwyaf ag angen gwasanaethau, ac nad ydynt bob amser ar gael neu'n hwylus – mae disgrifiad manylach o'r gwaith yn yr adran ar leihau effaith tlodi. Mae'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gweithio gyda'r Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod darpariaeth y rhaglen gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd yn cael ei chysoni a'i hintegreiddio'n well.

- **Gemau Stryd:** Dechreuwyd ar y prosiect hwn yn ystod y rhaglen flaenorol, ac mae'n annog pobl i ymwneud mwy â chwaraeon fel ffordd o wella iechyd a sgiliau. Mae'r prosiect yn rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan mewn chwaraeon o'u dewis yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r prosiect, a ariennir ar y cyd gan Chwaraeon Cymru, yn rhan o Waddol y Gemau Olympaidd. Yn sgil ei boblogrwydd eithriadol, mae bellach ar gael i bob Clwstwr yng Nghymru.

- **Nyth:** Un o gynlluniau Llywodraeth Cymru sy'n gwneud gwaith i helpu i leihau nifer yr aelwydydd sy'n byw gyda thlodi tanwydd. Mae cysylltiadau cryf rhwng Nyth a Cymunedau yn Gyntaf mewn nifer o ardaloedd.

**Rhesymeg y Rhaglen**

2.11 Mae'r adran hon yn cyflwyno Theori Newid Cymunedau yn Gyntaf. Pwrpas Theori Newyd yw gosod fframwaith dadansoddi pendant ar gyfer y gwerthusiad, diffinio'r rhesymeg ymyrryd sydd wrth wraidd y broses o gyflwyno'r Rhaglen, a dangos y data mae angen ei gasglu mewn unrhyw werthusiad a'r materion mae angen eu hystyried wrth werthuso'r Rhaglen.


2.12 Mae Theori Newid wedi'i nodi yn Ffigur 2.1. Mae dwy brif ran iddo: mae'r cyntaf yn egluro cyd-destun a rhesymeg Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n enwi'r unigolion a'r cyrff hynny a fydd yn cael dylanwad pwysig ar y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wrth iddo geisio cyflawni ei nodau. Yna mae'n cyflwyno prif gyfleoedd a heriau'r Rhaglen, yn egluro'r rhesymeg ac yn ystyried y rhagdybiaethau sy'n sail i'r rhesymeg.

2.13 Mae ail adran Theori Newid yn egluro fframwaith rhesymeg y Rhaglen. Mae hyn yn dangos sut bwriedir i'r gweithgareddau arwain at yr allbynnau ac, yn y pen draw, at y canlyniadau a'r effeithiau yr anelir atynt. Mae'r rhagdybiaethau ynghylch sut mae'r agweddau hyn yn cydblethu wedi cael eu hegluro ar gyfer pob cam.

2.14 Mae adroddiad llawn ar Theori Newid Cymunedau yn Gyntaf wedi'i nodi yn Atodiad 1. Dros gyfnod yr adroddiad hwn, mae tystiolaeth y gwerthusiad yn cael ei chymharu â'r model cyflawni a fwriadwyd er mwyn asesu i ba raddau mae'r dull gweithredu ar lawr gwlad wedi dilyn y dull a fwriadwyd, a pha mor effeithiol fu hynny o ran nodau ac amcanion y Rhaglen.

2.15 Nid oedd cylch gwaith y gwerthusiad hwn yn ymestyn i gynnwys asesu effaith y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac a yw'r effeithiau sydd wedi'u rhestru yn Theori Newid wedi cael eu gwireddu. Mae Atodiad 1 yn ystyried y dulliau y byddai modd eu dilyn ar gyfer gwerthuso canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn y dyfodol, a'r strategaethau y gellir eu defnyddio i helpu i briodoli'r effeithiau i'r Rhaglen.

Ffigur 2.1: Theori Newid Cymunedau yn Gyntaf




*Ffynhonnell: Ipsos MORI a Wavehill*

**Rhagdybiaeth allweddol seilio Cymunedau yn Gyntaf ar gynllun sy'n seiliedig ar ardaloedd**

2.16 Wrth asesu Cymunedau yn Gyntaf, mae'n bwysig ystyried i ba raddau roedd dull gweithredu ar sail ardal yn gynllun addas o ran nodau ac amcanion Cymunedau yn Gyntaf, a beth y gellir disgwyl i fentrau sy'n gweithredu ar sail ardal (MGSA) a beth na ellir disgwyl iddynt ei gyflawni. Er enghraifft, un o ragdybiaethau allweddol pob MGSA yw bod problemau ar lefel ardal yn effeithio ar ganlyniad unigol, ac felly y bydd datrys problemau ar lefel y gymuned yn gwella canlyniadau unigol.

2.17 Yn gyffredinol, mae MGSA wedi bod yn fwy llwyddiannus wrth fynd i'r afael â mathau o 'dlodi heb fod yn faterol' (e.e., iechyd gwael neu'r profiadau negyddol sy'n gysylltiedig â byw mewn ardaloedd tlawd) nag wrth leihau mathau o 'dlodi materol' (prinder incwm neu amddifadedd materol)[16]. Mae gwahaniaeth pwysig i'w wneud o ran y mathau o ganlyniadau yr anelir atynt ar gyfer MGSA; canlyniadau sy'n ymwneud â phobl, a chanlyniadau sy'n ymwneud â lleoliad. Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â lleoliad yn cyfeirio at lefelau boddhad trigolion ag ardal, er enghraifft o ran tai, troseddu a'r amgylchedd ffisegol. Mae MALlC, a'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn ei thro, yn cynnwys nifer o ddangosyddion 'pobl' sy'n ymwneud ag iechyd, addysg a chyfraniad y gymuned[17]. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil yn awgrymu bod ymyriadau ar sail lleoliad yn cyfrannu llawer mwy at wella'r elfennau heb fod yn faterol sy'n gysylltiedig â thlodi nag ymyriadau ar sail pobl.[18] Mae'r Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Ranbarthol (CRESR) yn awgrymu bod sawl rheswm yn gyfrifol am hynny,fel y ffaith bod ymyriadau ar sail pobl, yn gyffredinol, yn rhy fyr i greu gwelliannau cymhleth, yr anhawster o ddylanwadu ar wariant a phrosesau cyflawni gwasanaethau prif ffrwd, neu bod llai'n cael ei wario ar yr ymriadau hyn ar gyfartaledd nag ar ymyriadau ar sail lleoliad.[19]

---

[16] Y Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Ranbarthol (CRESR) (2014) "Regeneration and poverty: evidence and policy review, Prifysgol Sheffield Hallam, http://www.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/jrf-regeneration-poverty-final-report.pdf

[17] Ond dylid nodi nad dangosyddion 'pobl' yw unig ffactor MALlC, a'i fod yn cynnwys dangosyddion ar gyfer yr Amgylchedd Ffisegol hefyd.

[18] Y Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Ranbarthol (CRESR) (2014) "Regeneration and poverty: evidence and policy review, Prifysgol Sheffield Hallam, http://www.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/jrf-regeneration-poverty-final-report.pdf

[19] Ibid

2.18 I gymhlethu'r darlun ymhellach, mae'n gallu bod yn anoddach adnabod newidiadau sy'n gysylltiedig â phobl, a phriodoli'r newidiadau hyn i raglen neu ymyriad penodol. Yn aml iawn, mae'n anoddach mesur newidiadau sy'n gysylltiedig â phobl drwy arolygon o'r brig i lawr, er enghraifft. Mae'n bosib bod graddfa newidiadau sy'n deillio o gynlluniau adfywio lleol yn cael eu celu gan brosesau sy'n gweithredu ar draws ardaloedd daearyddol ehangach. Hefyd, mae'n bosib y byddai unigolion sy'n gweld newidiadau cadarnhaol sy'n gysylltiedig â phobl yn gadael yr ardal lle'r oedd yr MGSA yn gweithredu. Mae'r rhain yn faterion i'w hystyried mewn unrhyw werthusiad yn y dyfodol o ganlyniadau Cymunedau yn Gyntaf. Yn wir, mae archwiliad cychwynnol ohonynt, yng nghyd-destun mesur effeithiau'r Rhaglen, wedi'i nodi yn Atodiad 1.

2.19 Un elfen sydd o blaid yr MGSA yw'r dull gweithredu cynhwysfawr maent yn ei gynnig i adfywio cymunedau. Mae gwaith ymchwil yn dangos bod sicrhau gwelliannau mewn un canlyniad yn gallu bod yn gysylltiedig â newid mewn canlyniad arall, fel cysylltiadau rhwng diweithdra a chanlyniadau iechyd.[20] Felly, mae MGSA yn cynnig ymagwedd gyfannol at wella nifer o ganlyniadau sy'n gysylltiedig â phobl, a allai fod yn atgyfnerthu'r naill a'r llall. Mae rhaglenni mwy hefyd yn gallu cynnig cyfle i nifer mwy o bobl gyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith, gan gynnwys siapio'r rhaglen ddelfrydol y byddent yn hoffi ei gweld ar lawr gwlad. Mae'r cysylltiad agos hwn yn gallu helpu unigolion i gael canlyniadau gwell.

2.20 Mae Lawless, Overman a Tyler (2011) yn cynnig ffactor arall i gefnogi MGSA dros raglenni sy'n canolbwyntio ar unigolion. Maent yn awgrymu bod y gwaith partneriaeth a roddwyd ar waith i gyflwyno MGSA, gan sôn yn benodol am y Fargen Newidd i Gymunedau fel enghraifft, yn gwella'r broses ar gyfer cyflwyno'r mentrau i grwpiau mwy o bobl. Maent yn dadlau bod targedu poblogaethau mwy hefyd yn golygu bod mwy o gwmpas i ddod o hyd i newidiadau i ganlyniadau unigolion sy'n gysylltiedig â diweithdra, addysg ac iechyd.

[20] Lawless, Overman a Tyler (2011) “Strategies for Underperforming Places”, Papurau Polisi SERC 006, Y Ganolfan Ymchwil Economaidd Ofodol, LSE

2.21 Mae'r llenyddiaeth sy'n sôn am y pwnc hwn yn cyfeirio at MGSA "lled-gysylltiedig". Y diffiniad o hynny yw MGSA lle mae eu harweinyddiaeth ganolog wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o greu fframwaith y rhaglen ond bod ganddynt ganolfan cymunedol sy'n ymwneud â'r gwaith rheoli a chyflawni.[21] Mae'r model hwn yn gadael iddynt ddatblygu eu harbenigedd lleol ac yn cynnig dilyniant o ran staff. Mae hyn yn ffactor bwysig wrth feithrin cysylltiadau da â chymunedau lleol ac asiantaethau cyflawni eraill. Hefyd, mae dilyniant o ran arweinyddiaeth yn help wrth sefydlu cyfeiriad pendant y rhaglen, a chynnal y ffocws ar ganlyniadau.[22] Mae cyfnod diweddaraf Cymunedau yn Gyntaf wedi ceisio mabwysiadu model o'r fath. Mae Pennod 4 yn edrych i ba raddau mae wedi llwyddo i gyfuno arweinyddiaeth ganolog gadarn (yn dechrau gyda Llywodraeth Cymru ac yn treiddio i lawr drwy'r Cyrff Cyflawni Arweiniol) ag hyblygrwydd â phenderfyniadau lleol. Mae gwaith ymchwil gan CRESR yn awgrymu y gallai hyd rhaglenni gael effaith ar yr eu heffeithiau. Mae'r ymchwil yn cyfeirio at y rhaglen Ardaloedd Gweithredu ar Iechyd (HAZs), a gyflwynwyd yn 1997, gan awgrymu y gallai oes byr yr Ardaloedd hyn egluro'r canlyniadau iechyd cyfyngedig a nodwyd yn y gwerthusiad cenedlaethol.[23] Fodd bynnag, mae angen rhagor o waith ymchwil yn y maes hwn er mwyn gallu dod i gasgliad.

**Crynodeb o gyd-destun strategol Cymunedau yn Gyntaf a rhesymeg y Rhaglen**

2.22 Mae’r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn rhan o gyd-destun polisi cadarn, ac mae ei nodau'n amlwg yn cyd-fynd ag agenda ehangach Llywodraeth Cymru ar gyfer trechu tlodi.

2.23 Mae'r sefyllfa polisi ehangach yn cynnwys amrywiaeth o raglenni ategol sydd hefyd yn gweithio at y nod gyffredinol i drechu tlodi, er enghraifft Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, y Grant Amddifadedd Disgyblion a Twf Swyddi Cymru. Mae proffil gofodol a chanlyniadau bwriedig y rhaglenni eraill hyn yn cynnig y posibilrwydd o gysondeb cadarn ag amcanion Cymunedau yn Gyntaf, er y bydd llwyddiant y broses integreiddio hefyd yn dibynnu ar atebolrwydd y rhaglenni,

---

[21] Lawless, Overman a Tyler (2011) “Strategies for Underperforming Places”, Papurau Polisi SERC 006, Y Ganolfan Ymchwil Economaidd Ofodol, LSE SERC Papur Polisi 6: t6
[22] Ibid
[23] Y Ganolfan Ymchwil Gymdeithasol ac Economaidd Ranbarthol (CRESR) (2014) “Regeneration and poverty: evidence and policy review, Prifysgol Sheffield Hallam, http://www.shu.ac.uk/research/cresr/sites/shu.ac.uk/files/jrf-regeneration-poverty-final-report.pdf

perchnogaeth dros ganlyniadau a sut mae eu trefniadau cyllido a rheoli yn cyd-fynd â'i gilydd.

2.24 Gwnaed nifer o ragdybiaethau wrth gynllunio'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn yn cynnwys y modd mae eu hymyriadau yn gweithredu ar sail ardal, a'r gwerth a roddir i hyblygrwydd lleol a chynnwys y gymuned leol yng nghynllun a phroses gyflawni'r Rhaglen yn erbyn cyfres o fesurau canlyniadau cenedlaethol. Mae gweddill yr adroddiad cyfan yn ystyried i ba raddau mae'r priodoleddau cynllunio hyn yn mynd o blaid y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wrth iddi weithio tuag at ei nodau a'i hamcanion.

# 3 Effeithiolrwydd y Prosesau Llywodraethu a Rheoli

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi asesiad o'r treniadau rheoli a llywodraethu sydd ar waith ar draws y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Daw'r dystiolaeth o ymgynghoriadau â swyddogion Llywodraeth Cymru, y Cyrff Cyflawni Arweiniol, Rheolwyr Clwstwr a staff timau'r Clystyrau, ynghyd â adolygiadau dogfennau o lenyddiaeth bwysig y Rhaglen, gan gynnwys dogfennau canllaw, Cynlluniau Cyflawni a Chynlluniau Cynnwys y Gymuned.

### Bwrw golwg dros y strwythur rheoli a llywodraethu

3.2 Daw arweiniad a chyfeiriad cyffredinol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru. Yn Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi sy'n gyfrifol am y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.[24] Gweision sifil yn Is-Adran Gymunedau Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldebau gweinyddu canolog. Dyma mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdano:

- Ariannu'r Rhaglen;
- Rhoi cyfeiriad strategol;
- Rheoli perfformiad cyffredinol y Rhaglen;
- Arwain y gwaith o sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf a rhaglenni perthnasol eraill yn cyd-fynd yn dda â'i gilydd; a
- Sicrhau bod gwerthusiadau wedi'u hariannu o gyfnodau blaenorol Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Rhaglen.


3.3 Mae tîm polisi canolog Llywodraeth Cymru yn cael gohebiaeth am y Rhaglen gan Dimau Gweithredu Rhanbarthol (TGRh), sy'n cynnwys staff Llywodraeth Cymru. Mae'r gwaith o lywodraethu a rheoli Cymunedau yn Gyntaf ar lefel leol yn cael ei arwain gan 19 o Gyrff Cyflawni Arweiniol (CCA). Mae pob CCA yn goruchwylio nifer o o dimau Clwstwr. Mae'r gwaith o gyflwyno'r Rhaglen ym mhob un o'r 52 o Glystyrau yn cael ei arwain gan Reolwr y Clwstwr, gyda chefnogaeth tîm cyflawni'r Clwster sy'n rhan fewnol o gorff Rheolwr y Clwstwr, ac yn allanol gan lawer o bartneriaid cyflawni o fudiadau gwirfoddol a chymunedol. Mae Llywodraeth Cymru yn cael help gan Gyngor Gweithredu

[24] Cymunedau yn Gyntaf, Canllawiau Rhaglen, Llywodraeth Cymru

Gwrifoddol Cymru (WCVA) – a arweiniodd gyfres o gyrsiau hyfforddi – wrth roi cymorth a chanllawiau i'r CCA a thimau'r Clystyrau.

3.4 Mae Ffigur 1.3 yn dangos y strwythur rheoli a llywodraethu sydd ar waith ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Mae swyddogaethau'r cyrff sydd mewn lleoliad allweddol yn y strwythur hwn yn cael eu disgrifio'n fanylach yn y paragraffau dilynol.

Ffigur 3.1: Strwythur Llywodraethu a Rheoli Cymunedau yn Gyntaf




*Ffynhonnell: Ipsos MORI/Wavehill*

3.5 Roedd yr ymgynghoriad ar gynllun y Rhaglen yn 2011 yn cynnwys cynlluniau i sefydlu Byrddau Rhanbarthol, a fyddai'n gymysgedd o staff Llywodraeth Cymru, staff rheoli a benodir a chynrychiolwyr trigolion lleol. Nod y Byrddau hyn oedd gwneud fframwaith i oruchwylio Cymunedau yn Gyntaf ar lefel rhanbarthol. Ar ôl ystyried y strwythur rheoli posib ymhellach, cafodd y trefniadau llywodraethu rhanbarthol eu lleihau ac ni chafodd unrhyw strwythurau Bwrdd eu sefydlu. Yn hytrach na hynny, rhoddwyd mwy o sylw i

rôl reoli a llywodraethu'r Cyrff Cyflawni Arweiniol a rôl gyflawni timau'r Clystyrau. Cafodd **Timau Gweithredu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru** eu cadw, yn fodd i'r Llywodraeth gynnig cymorth yn uniongyrchol i'r CCA.

3.6 Mae gan y **Cyrff Cyflawni Arweiniol** (CCA) gyfrifoldeb cyffredinol dros lywodraethu a rheoli'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardaleodd dynodedig. Cafodd y CCA eu dynodi ar ôl cyfnod o drafod (tua chwe mis) â rhanddeiliaid lleol a Llywodraeth Cymru. Yn y mwyafrif o achosion, cafwyd consensws ar y CCA dynodedig yn sgil y trafodaethau hyn. Yn yr achosion lle nad oedd consensws, Llywodraeth Cymru wneud y pebderfyniad ynghylch y CCA a hynny ar sail maint y corff, ei allu i reoli cyllid, ei allu i weithio yn yr holl Glystyrau yn ardal y CCA, a faint o gefogaeth mae'r CCA yn ei gael gan bartneriaid eraill. Yn y pen draw, cafodd 19 o gyrff CCA eu penodi. Mae 16 o'r rhain yn awdurdodau lleol, dau yn fudiad Trydydd Sector ac un yn rhan o'r Grŵp Cydweithredol. Rhoddwyd y cyfrifoldebau canlynol i'r CCA o ran y Clystyrau yn eu hardal:

- Yn atebol i Lywodraeth Cymru;
- Yn bennaf gyfrifol am ansawdd a pherfformiad yn unol â'r Cynlluniau Cyflawni a'r Cynlluniau Cynnwys y Gymuned;
- Yn gyfrifol am reoli perfformiad;
- Yn helpu'r Clystyrau i gydweithio; a
- Hwyluso prosesau gweithredu sy'n gyson â rhaglenni eraill.

3.7 Dylai Rheolwyr Clwstwr arwain a rheoli gwaith cyffredinol y Clwstwr a chymunedau'r Clwstwr. Mae **Rheolwr y Clwstwr a'r tîm cefnogi** yn gyfrifol am y canlynol:


- Rheoli'r gwaith o gynnal gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf, gan gynnwys targedu grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd;
- Ymgysylltu â thrigolion lleol yn effeithiol i sicrhau eu bod yn cyrraedd safonau Cynlluniau Cynnwys y Gymuned;
- Monitro'r broses gyflawni a chynnwys y gymuned yn unol â'r dangosyddion perfformiad;
- Cofnodi gwybodaeth monitro a'i rhoi i'r CCA: a
- Gweithio mewn partneriaeth â mudiadau cyflawni eraill.

3.8 Mae gweddill y bennod hon yn asesu i ba raddau mae pob mudiad sy'n ymwneud â llywodraethu a rheoli Cymunedau yn Gyntaf wedi llwyddo i fodloni disgwyliadau eu rôl fel y nodir yma.

**Timau Gweithredu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru**

3.9 Fel mae Ffigur 3.2 yn dangos, roedd gan gynrychiolwyr y CCA a'r Rheolwyr Clwstwr farn gadarnhaol ar y cyfan am arweinyddiaeth **Llywodraeth Cymru** o ran Cymunedau yn Gyntaf. Roedd y rheini a oedd yn gadarnhaol am arweinyddiaeth gyffredinol Llywodraeth Cymru hefyd yn tueddu i fod yn gadarnhaol ynghylch a fu Llywodraeth Cymru yn ddigon clir ynghylch y canlyniadau mae'n ceisio eu cyflawni, a monitro'r cynnydd a wneir i gyflawni'r canlyniadau hyn ar lefel Clwstwr.

Ffigur 3.2: Safbwyntiau'r CCA a'r Rheolwyr Clystyrau am arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf




3.10 Cafwyd safbwyntiau amrywiol am y **cyngor a'r gefnogaeth barhaus mae Llywodraeth Cymru** yn eu rhoi i CCA a thimau'r Clystyrau. Datgelodd yr astudiaethau achos bod y safbwyntiau hyn yn aml yn dibynnu ar pa mor dda yw'r berthynas unigol rhwng y CCA a thimau'r Clystyrau ac unigolion yn nhimau canolog neu ranbarthol Llywodraeth Cymru. Er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn aml yn gallu rhoi cyngor defnyddiol, yn gyfeillgar a'i bod yn hawdd troi atynt, mynegwyd pryderon ynghylch cysondeb y

negeseuon a pha mor gyflym roedd modd cael ateb i gwestiynau. Teimlwyd hefyd nad oedd digon o gyfathrebu rhwng y ddwy ochr, gyda'r wybodaeth yn llifo gan Lywodraeth Cymru, ond teimlai'r CCA a thimau'r Clystyrau nad oeddent yn cael llawer o gyfle – hyd yn oed yn ystod cyfarfodydd â Rheolwyr Clwstwr Rhanbarthol – i gynnig argymhellion ac awgrymiadau ar sail eu profiadau o gyflwyno'r Rhaglen.

*Y broblem gyda Cymunedau yn Gyntaf yw bod cymaint o bethau'n dod i lawr, a dim llawer yn mynd i fyny.* **Aelod o dîm Clwstwr**

3.11 Ar ôl cael eu penodi, cafodd y CCA y dasg o ddatblygu Cynllun Cyflawni i nodi'r ystod o weithgareddau y byddai modd eu cynnal ym mhob Clwstwr i fodloni nodau'r Rhaglen. Aethpwyd ati i sefydlu Cynlluniau Cyflawni er mwyn sicrhau bod prosesau gweithredu lleol y Rhaglen yn dal yn hyblyg er ei bod yn gweithio tuag at set bendant o ganlyniadau sy'n gyson yn genedlaethol, fel bod modd addasu union natur y broses gyflawni yn unol â dymuniadau ac anghenion y gymuned leol. Gan mai dyma'r tro cyntaf i broses fel hyn gael ei rhoi ar waith o dan Cymunedau yn Gyntaf, lluniodd **Llywodraeth Cymru dempled a dogfennau canllaw ar gyfer y Cynllun Cyflawni**[25] er mwyn helpu'r CCA i ddatblygu ei cynlluniau. Yn ogystal â'r dogfennau canllaw hyn, rhoddodd Llywodraeth Cymru (gyda help gan WCVA drwy gontract) ragor o gefnogaeth drwy weithdai a sesiynau un i un.

3.12 Er bod Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau sylweddol i helpu'r CCA i ddatblygu eu cynlluniau drwy gynnig yr arweiniad a'r hyfforddiant hwn, mae hwn yn faes cymorth y byddai modd ei gryfhau ymhellach. Mae hynny i'w weld yn glir yn sgil safon y Cynlluniau Cyflawni a gafodd eu cyflwyno'n wreiddiol – nid oeddent yn cyrraedd ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru – ac yng nghanfyddiadau'r arolwg a oedd yn awgrymu nad oedd y gefnogaeth a roddwyd yn bodloni anghenion y CCA wrth iddynt baratoi eu Cynlluniau. Yn ôl saith o'r 11 o gynrychiolwyr y CCA a holwyd, doedd y gefnogaeth barhaus

[25] Roedd templed Cynllun Cyflawni Llywodraeth Cymru yn cynnwys templed canlyniadau ar gyfer pob un o'r tri phrif faes canlyniadau, gan gynnwys gofynion am ddangosyddion a data llinell isaf yn ogystal â'r partneriaid a fyddai'n gweithio gyda'r Clwstwr i sicrhau'r canlyniad hwnnw. Cafodd templedi perfformiad ychwanegol eu sefydlu ym mhob un o'r meysydd canlyniadau, lle byddai manylion ynghylch y perfformiad a ragwelid ar dros y 12 mis canlynol yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob gweithgaredd penodol a oedd wedi'i nodi yn y Cynllun Cyflawni.


gan y Timau Gweithredu Rhanbarthol (TGRh) "ddim yn dda iawn" neu "ddim yn dda o gwbl". Teimlai nifer tebyg nad oedd y canllawiau ar gyfer Cynlluniau Cyflawni, a thempled y Cynllun Cyflawni, yn ddigon cynhwysfawr. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu a gwella'r dogfennau canllaw hyn ymhellach yn ystod cyfnod y gwerthusiad. Yn wir, roedd y CCA a thimau'r Clystyrau y cysylltwyd â hwy yn ddiweddarach yn y gwerthusiad drwy'r ymgynghoriadau manwl yn gadarnhaol am y templedi a'r canllawiau yn ystod y cyfnodau dilynol o ddrafftio'r Cynllun Cyflawni, gan ddweud bod eu hansawdd wedi gwella a'u bod yn haws eu defnyddio. Hefyd, dywedodd Llywodraeth Cymru nad oes unrhyw Gynlluniau Cyflawni a gyflwynwyd ar gyfer 2015/16 wedi cael eu dychwelyd yn eu cyfanrwydd i'r CCA, sy'n dangos bod cam drafft cyntaf y Cynlluniau Cyflawni wedi gwella.

3.13 Er bod gallu'r gwerthusiad hwn i ran rhoi barn ar ansawdd yr holl gefnogaeth a gynigir wedi'i gyfyngu (er enghraifft, y gweithdai a'r hyfforddiant un i un), mae'r canllawiau ar gyfer y Cynlluniau Cyflawni yn gryno iawn ac mae'n ymddangos (wrth adolygu'r ddogfen ar ei phen ei hun heb yr elfennau cefnogaeth eraill) eu bod wedi tybio bod gan y CCA rywfaint o wybodaeth yn barod. Mae'n bosib bod hyn yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi goramcangyfrif pa mor gyflym y byddai cynrychiolwyr y CCA a'r Clystyrau yn deall nodau a ffocws y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar ei newydd wedd, ac wedi tanamcangyfrif faint o newid roedd hyn yn ei olygu o ran y diwylliant ac ymddygiad. Roedd effaith hynny'n golygu bod Llywodraeth Cymru a'r Clystyrau wedi treulio llawer iawn o amser yn diwygo ac yn adolygu'r cynlluniau yn hytrach na chanolbwyntio ar y gwaith o gyflwyno'r Rhaglen

3.14 Fel mae Ffigur 3.3. yn dangos, cafwyd adborth cymysg ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd adborth Llywodraeth Cymru ar y Cynlluniau Cyflawni, a pha mor gyflym y cafwyd yr adborth hwnnw.

Ffigur 3.3: Safbwyntiau ar adborth Llywodraeth Cymru ar y Cynlluniau Cyflawni drafft

***Pa mor fodlon oeddech chi gyda phroses Llywodraeth Cymru o roi adborth ar eich Cynllun Cyflawni drafft ar gyfer 2013/14 o ran:***




Ffynhonnell: Yr holl ymatebion i'r holiadur ar-lein ar gyfer cynrychiolwyr CCA a Rheolwyr Clystyrau (45), Dyddiadau gwaith maes: 5ed Mehefin – 11eg Gorffennaf 2014.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

3.15 Ar ôl i'r Cynllun Cyflawni gael ei gwblhau'n derfynol, cafwyd cymeradwyaeth y Gweinidog a oedd wedyn yn arwain at ddyfarnu cyllid ar ffurf llythyr cynnig. Mewn nifer o achosion, roedd y broses o wella a chwblhau'r Cynllun Cyflawni'n derfynol cyn cael llythyr cynnig terfynol wedi para misoedd lawer. Yn aml iawn, ceisiadau Llywodraeth Cymru i'r CCA a thimau'r Clystyrau wneud newidiadau pellach i'w Cynlluniau oedd yn gyfrifol am hynny, er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau arfaethedig yn bodloni nodau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Byddai'r amser a gymerodd y CCA a thimau'r Clystyrau i lunio Cynlluniau Cyflawni yr oedd modd eu cymeradwyo wedi gallu, mewn theori, achosi oedi cyn penodi staff a dechrau ar y gwaith cyflawni. Fodd bynnag, roedd yr arian pontio a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru a'r ffaith mai awdurdodau lleol oedd y CCA (yn y rhan fwyaf o achosion) yn golygu bod y Rhaglen wedi cael ei gwarchod rhag yr effeithiau gwaethaf.

3.16 Yn yr un modd â'r broses ar gyfer Cynlluniau Cyflawni, cafodd y CCA a thimau'r Clystyrau **gefnogaeth ar gyfer cynnwys y gymuned** gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys dogfen ganllaw ar gyfer Cynllun Cynnwys y Gymuned yn ogystal â chyrsiau hyfforddi gan WCVA.

3.17 Yng nghyfnod blaenorol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, cafodd Byrddau Partneriaeth eu sefydlu er mwyn cynnig haen lywodraethu ychwanegol ar lefel

lleol a helpu i hwyluso'r gwaith o ymgysylltu â'r gymuned. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi mynnu bod rhaid defnyddio Byrddau Clwstwr yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hon, yn rhannol er mwyn cydnabod y gallai'r Bwrdd fod yn cynrychioli nifer o gymunedau ar wahân a hefyd er mwyn gallu mynd ar ôl ffyrdd mwy hyblyg o hybu ymgysylltu â'r gymuned ym mhroses lywodraethu a gweithredu'r Clwstwr (er enghraifft, drwy sefydlu gweithgorau penodol). Cafwyd cais i bob Clwstwr amlinellu ei ddulliau ar gyfer ymgysylltu â'r cymunedau mewn Cynllun Cynnwys y Gymuned. Drwy ofyn am wybodaeth am gynnwys y gymuned mewn dogfen ar wahân, y gobaith oedd y byddai hynny'n atgyfnerthu ei bod yn dal yn bwysig ymgysylltu â'r gymuned drwy'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.


3.18 Prif nod Cynllun Cynnwys y Gymuned yw dangos sut bydd y Clystyrau yn mynd ati i roi mwy o sylw i ymgysylltu â'r bobl fwyaf ddifreintiedig. Roedd disgwyliad y byddai'r holl Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn datblygu:

- Cynllun cynnwys y gymuned cryno, ymarferol, effeithiol a pharhaus;
- Ffyrdd creadigol o gynnwys y gymuned;
- Ffyrdd arloesol o gynnwys grwpiau sydd ar gyrion cymdeithas;
- Dulliau priodol o fonitro a gwerthuso'r gwaith o gynnwys y gymubed.[26]

3.19 Fel mae Ffigur 3.4 yn dangos, pan ofynnwyd pa mor glir oedd canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cynnwys Cynllun Cynnwys y Gymuned, dywedodd ychydig dros hanner bod y canllawiau yn "glir iawn" neu'n "eithaf clir", a dywedodd lleiafrif sylweddol (44%) eu bod "ddim yn glir iawn" neu "ddim yn glir o gwbl".

[26] Canllawiau ar gyfer Cynllun Cynnwys y Gymuned, Llywodraeth Cymru

Ffigur 3.4: Safbwyntiau ar ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllluniau Cynnwys y Gymuned




## Cyrff Cyflawni Arweiniol

*Asesu pa mor addas yw awdurdodau lleol fel CCA*

3.20 Er y rhoddwyd proses ffurfiol ar waith i gyrff ymgeisio a chael eu dewis i fod yn CCA, mae'n ymddangos mewn nifer o achosion bod y rheini a oedd yn ymwneud â'r broses yn disgwyl i'r awdurdodau lleol gael eu dewis mewn realiti.  Roedd llawer o randdeiliaid (gan gynnwys rhai o gyrff preifat a chyrff o'r Trydydd Sector) o'r farn mai awdurdodau lleol yw'r cyrff mwyaf priodol i fod yn CCA – roedd hyn yn deillio o'r amodau blaenorol y soniwyd amdanynt ynghylch bod yn gymwys i fod yn Gorff Cyflawni Arweiniol. Er enghraifft, roedd y cadernid ariannol, y polisïau a'r yswiriant yr oedd angen i CCA posibl eu dangos wedi rhwystro nifer o gyrff yn y sector gwirfoddol, y trydydd sector a'r sector cymunedol rhag ymgeisio. Yn wir, dywedodd 7 o'r 11 o CCA a holwyd ei bod yn "hawdd iawn" neu'n "eithaf hawdd" cael cymorth gan bartneriaid lleol yn ystod y broses o ddod yn Gorff Cyflawni Arweiniol.

3.21 Roedd rhoi statws Corff Cyflawni Arweiniol i awdurdodau lleol hefyd wedi goresgyn y rhwystrau posibl sy'n gysylltiedig â recriwtio staff i raddau helaeth. Llwyddodd rhai awdurdodau lleol i drosglwyddo staff ar unwaith i dimau Cymunedau yn Gyntaf, drwy drefniadau TUPE. Fodd bynnag, roedd yr awdurdodau lleol hefyd yn wynebu heriau o ran staff, yn enwedig mewn

ardaloedd lle cafodd clystyrau Cymunedau yn Gyntaf eu cyfuno o dan gyfnod diweddaraf y Rhaglen, a arweiniodd at ddileu swyddi er mwyn osgoi rolau dyblyg. Pan gafodd staff eu trosglwyddo'n fewnol, bu'n rhaid iddynt ailymgeisio am eu swyddi ar brydiau, neu ymgeisio o dan ddisgrifiad swydd newydd.

3.22 Mae cryfderau awdurdodau lleol o ran gallu rheoli'r Rhaglen mewn modd atebol ac effeithiol (lle mai'r awdurdod lleol yw'r Corff Cyflawni Arweiniol) hefyd yn nodweddion a allai gyfyngu ei hyblygrwydd wrth ymateb i anghenion lleol. Mae prosesau ariannol a threfniadau cymeradwyo haearnaidd yn golygu ei bod yn anodd symud ymlaen yn gyflym â gweithgareddau newydd neu fabwysiadu gwasanaethau sy'n bodoli'n barod – her sy'n cael ei chydnabod gan gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol eu hunain.

*Yn fy marn i, ein her yw gwario arian. Fel Corff Cyflawni Arweiniol, mae gennym bob math o reoliadau ariannol a rheolau caffael sydd wir yn llethu ein gallu i ymateb i anghenion cymunedau. Dydyn ni ddim yn gallu gwneud rhai o'r prosiectau mae Llywodraeth Cymru eisiau i ni eu gwneud ac wedi'u cymeradwyo i ni eu gwneud oherwydd bod rheoliadau ariannol y cyngor mor gaeth.*
**Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol (Awdurdod Lleol)**

*Pan fydd awdurdod lleol yn arwain y gwaith, mae'n teimlo fel bod rhaid i bethau gyd-fynd â blaenoriaethau'r cyngor yn hytrach nag anghenion a blaenoriaethau penodol y Clwstwr dan sylw.*
**Cyfweliad ag un o'r Prif Hysbyswyr**

3.23 Mae hyn yn her allweddol i'r Rhaglen, sy'n ceisio bod yn agored ac yn atebol yn ogystal â bod yn hyblyg ac ymatebol, ynghyd â chanolbwyntio ar y gymuned. Mewn rhai achosion mae'r Corff Cyflawni Arweiniol wedi gwneud cais am gyllid trydydd parti, sy'n dangos bod Cytundeb Lefel Gwasanaeth â mudiadau cymunedol yn cael eu defnyddio i gyflawni rhan o Raglen Gyflawni'r Clwstwr, ac felly bod CCA yn defnyddio cyrff eraill sydd mewn gwell sefyllfa i ymateb i anghenion penodol y gymuned.

*Ystyried profiadau CCA nad ydynt yn awdurdodau lleol*

3.24 Os nad yr awdurdod lleol yw'r Corff Cyflawni Arweiniol yn ei ardal weinyddu, mae'r awdurdod lleol yn cael ei annog i weithio gyda'r Corff Cyflawni Arweiniol. Mae'n bwysig bod gan y Corff Cyflawni Arweiniol berthynas

gadarnhaol â'r awdurdod lleol, gan mai'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am lawer o'r gwasanaethau allweddol y mae angen i dimau'r Clwstwr gydweithio â hwy wrth weithredu'r Cynllun Cyflawni. Mae'n ymddangos (o safbwynt Corff Cyflawni Arweiniol nad yw'n awdurdod lleol) bod y gwaith partneriaeth yn gweithio yn yr achosion hyn, gyda'r Rheolwyr Clwstwr yn cydweithio ag adrannau allweddol yr Awdurdodau Lleol.


*Mae'r berthynas [â'r awdurdod lleol] yn well nag erioed. Mae hynny'n deillio o'r ffaith bod yr awdurdod lleol wedi sylweddoli beth yw gwerth rhaglenni fel Cymunedau yn Gyntaf a datblygu cymunedol yn gyffredinol, a'r ffaith ein bod yn cydweithio ers blynyddoedd bellach.*

**Rheolwr y Clwstwr mewn ardal**
**nad yw o dan arweiniad yr Awdurdod Lleol**

*Ystyried perfformiad y CCA*

3.25 Roedd y Rheolwyr Clwstwr yn gadarnhaol iawn am rôl y CCA. Fel mae Ffigur 3.5 yn dangos, roedd y rhan fwyaf o'r Rheolwyr Clwstwr a holwyd yn teimlo bod y CCA yn perfformio'n “dda iawn” o ran rheoli ariannol (71%, a 98% i gyd yn dweud eu bod yn “dda iawn” neu'n “eithaf da”), monitro cynnydd y Clystyrau (62% a 100% yn dweud eu bod yn “dda iawn” neu'n “eithaf da”) ac fel pwynt cyswllt i'r Clystyrau ar gyfer Llywodraeth Cymru (65% a 91% yn dweud eu bod yn “dda iawn” neu'n “eithaf da”).

Ffigur 3.5: Safbwyntiau ar rôl y CCA o ran rheoli





Ffynhonnell: Ymatebion yr holl Reolwyr Clwstwr i'r holiadur ar-lein ar gyfer cynrychiolwyr CCA a Rheolwyr Clystyrau (34), Dyddiadau gwaith maes: 5ed Mehefin – 11eg Gorffennaf 2014.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

3.26 Fel mae Ffigur 3.6 yn dangos, roedd y Rheolwyr Clwstwr hefyd yn gadarnhaol am rôl y CCA wrth sefydlu cysylltiadau, sydd wedi bod yn help gyda phrosesau cyfathrebu a chyflawni'r Rhaglen. Roedd y Rheolwyr Clwstwr ychydig yn llai cadarnhaol am berfformiad y CCA o ran datblygu cysylltiadau â phreswylwyr lleol. Wrth ailedrych ar y rolau a osodwyd ar gyfer pob lefel llywodraethu yn adran 3.6 a 3.7, timau'r Clystyrau eu hunain sy'n gyfrifol am hyn i raddau helaeth. Nid oes disgwyl i'r CCA gael perthynas mor agos â defnyddwyr gwasanaeth yn y Clystyrau maent yn eu goruchwylio.

Ffigur 3.6: Safbwyntiau ar rôl y CCA wrth sefydlu cysylltiadau effeithiol




3.27 Er bod y Cynlluniau Cyflawni wedi cael eu llunio gan y Clystyrau, y CCA oedd yn gyfrifol am oruchwylio'r broses hon ac sydd, yn y pen draw, yn atebol am safonau'r cynlluniau a gafodd eu creu a'u cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Yn dilyn adborth Llywodraeth Cymru ar y Cynlluniau Cyflawni gwreiddiol a gafodd eu cyflwyno, roedd rhaid i'r CCA oruchwylio cyfres o ddiwygiadau i gynlluniau'r Clystyrau. Mewn nifer o achosion, gofynnwyd iddynt wneud diwygiadau gan fod Llywodraeth Cymru yn teimlo bod y cynlluniau'n cynnwys gormod o weithgareddau gwahanol ar gyfer yr un canlyniadau neu'r un gynulleidfa darged. Roedd rhai o'r problemau eraill a nodwyd yn cynnwys diffyg manylion am ganlyniadau a diffyg tystiolaeth a gwybodaeth am sefyllfa sylfaenol pob Clwstwr.

3.28 Canfu adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Cynlluniau Cynnwys y Gymuned hefyd fod safon y cynlluniau hyn yn amrywio, a bod rhaid ailddrafftio rhai ohonynt. Mae Ffigur 3.7 yn dangos yr elfennau mae Llywodraeth Cymru yn teimlo sy'n bwysig er mwyn cael Cynllun Cynnwys y Gymuned effeithiol, ond nad oedd pob Corff Cyflawni Arweiniol a thîm Clwstwr wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau gwreiddiol yn ôl Llywodraeth Cymru:

Ffigur 3.7: Elfennau pwysig er mwyn cael Cynlluniau Cynnwys y Gymuned effeithiol

***Elfennau pwysig er mwyn cael Cynlluniau Cynnwys y Gymuned effeithiol:***

- *Cysylltiadau pendant â nodau Trechu Tlodi a'r Cynlluniau Cyflawni*
- *Cynlluniau sy'n benodol i'r ardal sy'n dangos eu bod yn deall yn iawn sut mae elfennau daearyddol a nodweddion y gymuned yn effeithio ar Gynllun Cynnwys y Gymuned*
- *Gwybodaeth glir ynghylch pwy fydd yn cael ei dargedu, a sut mae'r gynulleidfa hon wedi cael ei nodi*
- *Cynllun pendant i ymgysylltu ag ardaloedd newydd yn y gymuned, e.e. os yw ffiniau'r Clwstwr wedi cael eu hailddiffinio*
- *Rhoi sylw i wahanol lefelau o gynnwys y gymuned, a chynllun pendant ynghylch pryd mae'n briodol defnyddio'r gwahanol lefelau*
- *Tystiolaeth o'r safonau sy'n rhan o'r arferion gwaith bob dydd*
- *Gwybodaeth am sut mae cynrychiolwyr yn cael eu dewis i Fwrdd y Clwstwr*
- *Sut bydd cysylltiadau â chyrff eraill yn cael eu defnyddio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd i gynnwys y gymuned*
- *Targedau a cherrig milltir sydd wedi'u diffinio'n glir*
- *Cynlluniau pendant ar gyfer monitro a gwerthuso gwaith cynnwys y gymuned*
- *Dadansoddiad pendant o'r gyllideb ar gyfer y gweithgareddau sydd ar y gweill ar gyfer Cynllun Cynnwys y Gymuned*

*Ffynhonnell: Ipsos MORI*

**Timau Rheoli Clystyrau**

3.29 Mae timau'r Clystyrau yn cael eu harwain gan Reolwr y Clwstwr, ond mae strwythur a maint y tîm cefnogi yn amrywio'n fawr o Glwstwr i Glwstwr. Mae Llywodraeth Cymru wedi caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd yn y modelau a ddefnyddir, ac mae'r rheini sydd wedi'u llunio i ymateb i broffil y Clwstwr yn amlwg yn fuddiol. Fodd bynnag, mae perygl bod rhai o'r strwythurau hyn wedi'u creu yn dilyn trosglwyddo staff o'r strwythurau blaenorol. Hefyd, mae maint y tîm yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o'r gyllideb gafodd ei neilltuo yn y Cynllun Cyflawni (roedd cyllidebau cyffredinol y Clystyrau'n amrywio o £350,000 i £850,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2013-14). Mae maint a phoblogaeth y Clwstwr, ynghyd â graddfa a chwmpas y gweithgareddau sydd i'w cynnal, wedi dylanwadu ar hynny. Gan fod maint timau'r Clystyrau yn wahanol, mae amrywiaeth o strwythurau tîm wedi cael eu mabwysiadu. Mae rhai yn cynnwys arweinwyr unigol ar gyfer y tair prif elfen neu rolau penodol ar

gyfer monitro neu ymgysylltu â'r gymuned, ac mae eraill yn fwy hyblyg wrth i'r cyfrifoldebau gael eu rhannu rhwng y staff.

3.30 Mae timau'r Clystyrau wedi wynebu heriau a rhwystredigaeth o ran faint o adnoddau staff sydd ar gael ar gyfer swyddi cyflawni. Roedd hyn yn amlwg iawn yn y Clystyrau a fu'n llwyddiannus gyda'u cais am gyllideb lai (ac a oedd felly'n gweithredu gyda chwota llai o staff fel arfer). Dywedodd rhai ohonynt nad oedd modd iddynt gyflwyno'r Rhaglen i bob rhan o'r Clwstwr, na gwneud cynnydd o ran ymgysylltu â'r bobl anoddaf eu cyrraedd. Dywedodd rhai o'r Clystyrau eraill eu bod yn teimlo'n rhwystredig oherwydd elfennau daearyddol ardal y Clwstwr. Er bod ardaloedd y Clystyrau wedi cael eu pennu'n lleol i raddau helaeth, roedd nodweddion economaidd-gymdeithasol yr ardal wedi effeithio ar eu ffiniau, sy'n pennu cymhwysedd ar gyfer y Rhaglen. Roedd yn anoddach cyflwyno'r Rhaglen yn y Clystyrau sy'n gweithredu ar draws ardaloedd daearyddol mawr, ac sy'n aml yn cynnwys cyfres o gymdogaethau ar wahân heb lawer o gysylltiad hanesyddol â'i gilydd. Mae'r materion hyn yn cael eu trafod yn fanylach ym Mhennod 4.

3.31 Canfu'r arolwg ar-lein fod 26% o'r Clystyrau a atebodd wedi recriwtio Rheolwr y Clwstwr erbyn mis Ionawr 2013, gyda'r ffigur hwn yn codi i 87% erbyn mis Mehefin 2013. Erbyn hynny, 34% oedd wedi recriwtio eu holl staff, ac roedd 16% yn dal heb recriwtio eu holl staff adeg yr arolwg.

3.32 Er bod canfyddiadau'r arolwg ar-lein yn awgrymu bod y Clystyrau wedi wynebu oedi cyn recriwtio eu holl staff, roedd trafodaethau manwl pellach â chynrychiolwyr y CCA a'r Rheolwyr Clwstwr yn awgrymu nad pryd roedd staff yn cael eu penodi oedd y brif broblem staffio, ond sicrhau bod gan y tîm y gymysgedd briodol o sgiliau a bod ganddynt ddigon o adnoddau.

3.33 Mewn nifer o ardaloedd lle mai'r awdurdod lleol oedd y Corff Cyflawni Arweiniol, roedd timau staff y Clystyrau yn llawn staff presennol yr awdurdod lleol fwy neu lai. Roedd trosglwyddo staff fel hyn yn cynnig cyfleoedd yn ogystal â heriau i'r Rhaglen. Un fantais sylweddol o gael corff sy'n cynnwys staff presennol yr awdurdod lleol oedd ei bod yn hawdd i'r Clystyrau osgoi effeithiau'r oedi wrth aros i'r cyllid gael ei gadarnhau (gan nad oedd angen llythyrau cynnig terfynol i gadarnhau'r broses o benodi staff newydd). Roedd hefyd yn golygu bod gan y staff lawer iawn o brofiad o gyflwyno'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac o gydweithio. Gwelwyd bod gan y CCA a thimau'r

Clystyrau berthynas waith agos yn aml, ac roedd hyn yn aml yn deillio o berthynas bersonol gadarn a oedd eisoes yn bodoli rhwng aelodau'r tîm. Fodd bynnag, gan fod rhai awdurdodau lleol wedi'u cyfyngu o ran hysbysebu'r swyddi yn allanol[27], codwyd rhai cwestiynau ynghylch a oedd timau'r Clystyrau yn cynnwys y bobl â'r sgiliau mwyaf addas ar gyfer y rôl.

3.34 Yn y Clystyrau lle cafodd y staff eu recriwtio'n allanol, nid oedd prinder ymgeiswyr fel arfer. Fodd bynnag, dywedodd rhai ohonynt ei bod yn anodd cael y set iawn o sgiliau, gan fod nifer o'r ymgeiswyr yn credu mai rolau datblygu cymunedol traddodiadol oedd y rhain. Mae'n siŵr bod hynny'n deillio o'u dealltwriaeth o'r Rhaglen flaenorol.

3.35 Mae nifer o gynrychiolwyr rhanddeiliaid yn credu bod Rheolwr y Clwstwr yn rôl allweddol er mwyn i ardal Clwstwr lwyddo, ac yn rôl sy'n gofyn am amrywiaeth eang o sgiliau y mae llawer wedi'i chael yn anodd eu cyflawni. Yn wir, roedd 13% o'r Clystyrau a atebodd yn dal heb benodi Rheolwr y Clwstwr ym mis Mehefin 2013). Mae'r sgiliau sydd eu hangen ar aelodau o dimau rheoli'r Clwstwr wedi newid ers i'r Rhaglen gael ei hailgynllunio – o'r pwyslais blaenorol ar arbenigedd ym maes datblygu cymunedol, i'r angen am sgiliau cadarn ar gyfer rheoli prosiect, rheoli pobl a rheoli ariannol.

*Petaem yn cyflogi pobl heddiw i wneud y gwaith rydym nawr yn gwybod mae'r Rhaglen yn ceisio ei gyflawni, mae'n bosibl na fyddem yn cyflogi'r un bobl a gyflogwyd ddwy flynedd a hanner yn ôl.*

**Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol**

3.36 Mae hyn yn gallu achosi tensiwn ymysg y staff presennol (yn ogystal â'r ymgeiswyr allanol) sydd â hanes hir o weithio ym maes datblygu cymunedol a chyda'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ond nad ydynt o reidrwydd yn gwbl addas i wneud gwaith manwl ar ddata monitro a'r fframwaith canlyniadau, nac yn dymuno gwneud hynny o bosibl. Mae natur dechnegol rhai o ganlyniadau bwriedig y Rhaglen (er enghraifft, gydag iechyd meddwl) hefyd wedi creu heriau o ran dod o hyd i'r aelodau staff mwyaf priodol a'u penodi.

[27] Weithiau roedd y swyddi wedi'u diogelu o dan y rheolau 'Trosglwyddo Ymgymeriadau: Diogelu Cyflogaeth (TUPE)', ac roedd Awdurdodau Lleol eraill wedi hybysebu'r swyddi'n fewnol er mwyn ceisio cadw staff mewnol a oedd yn wynebu'r perygl o golli eu swyddi yn sgil mesurau cyni cyhoeddus.

**Heriau wrth gyfateb sgiliau'r staff i'r anghenion – enghraifft**

Mae cynllun peilot 'Modd i Fyw' wedi cael ei gyflwyno mewn rhai ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Canolbwynt yr ymyriad yw adnodd archwiliad iechyd, sydd wedi cael ei gyflwyno i gyflawni'r gofyniad i alluogi pobl i reoli eu lles yn well. Mae'r adnodd yn gofyn cwestiynau sylfaenol am iechyd a ffordd o fyw y defnyddiwr. Mae hefyd yn rhoi cyngor ar fanteision dewis ffordd iach o fyw, yn dweud pa symptomau i gadw llygad amdanynt, ac yn sôn am ffyrdd o reoli cyflyrau sydd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth yn barod.

Er bod yr adnodd 'Modd i Fyw' yn cynnig nifer o fuddiannau i ddefnyddwyr a bod y staff wedi cael hyfforddiant i'w helpu i'w gyflwyno, mae hefyd wedi creu ambell her. Mae'n un enghraifft lle nad yw rôl staff Cymunedau yn Gyntaf – yng ngolwg y staff eu hunain yn sgil eu dehongliad o'r Rhaglen, ac yng ngolwg defnyddwyr lleol y gwasanaeth – yn cyfateb i sgiliau'r tîm. Er enghraifft, gall yr adnodd archwiliad iechyd arwain at y sefyllfaoedd canlynol:

- Efallai y bydd defnyddwyr y gwasanaeth yn gofyn i weithwyr Cymunedau yn Gyntaf am gyngor clinigol, er nad ydynt yn gymwys i roi cyngor o'r fath; Er na fwriedir i staff Cymunedau yn Gyntaf gyflawni'r rôl honno mae'n bosibl bod temtasiwn ymysg y staff, yn dilyn disgwyliad defnyddwyr y gwasanaeth hefyd, i gynnig cyngor yn y fan a'r lle yn hytrach na'u cyfeirio at weithiwr iechyd proffesiynol. Er bod hynny'n risg, dylid nodi hefyd y gwelwyd enghreifftiau o'r adnodd yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus yn ystod y cynllun peilot, i ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol ac i wella cysylltiadau â'r partneriaid hyn yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.
- Mae defnyddwyr y gwasanaeth weithiau'n meddwl bod gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf, yn hytrach na meddygon teulu, yn ffynhonnell i gael cyngor ar iechyd. Er y gallai hyn fod yn addas ar brydiau, mae hefyd yn golygu nad yw rhai defnyddwyr y gwasanaeth yn defnyddio gwasanaethau meddyg teulu pan mae angen;
- Nid oes gan weithwyr Cymunedau yn Gyntaf yr wybodaeth wrth law bob amser ynghylch pa wasanaethau iechyd y gellir cyfeirio defnyddwyr y gwasanaeth atynt ar sail eu symptomau/hatebion i'r archwiliad iechyd.

3.37 Wedi dweud hynny, gwelwyd bod y disgrifiadau swydd a roddwyd gan Lywodraeth Cymru yn aml yn ddefnyddiol er mwyn egluro cylch gwaith y rolau gofynnol (hyd yn oed os mai dim ond ambell dro y cafodd y templedi eu defnyddio fel disgrifiadau swydd). Mae hefyd wedi bod yn bosibl datblygu

sgiliau'r staff gyda'r amrywiaeth o gyrsiau hyfforddi sydd ar gael (a fu'n boblogaidd ac yn llwyddiannus iawn, fel y trafodir ymhellach yn yr adran isod).

> *Mae gennym lawer o weithwyr cymunedol sy'n dda am ysgogi pobl, eu cynorthwyo a'u galluogi i ddechrau ar eu taith, ond rydym nawr yn gofyn iddynt orffen y daith honno wedi cyflawni llawer o bethau. Rydym naill ai'n weithwyr iechyd proffesiynol, neu'n weithwyr cymunedol.*
>
> **Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol**

**Darparu Hyfforddiant a Chefnogaeth**

3.38 Mae contract cefnogaeth Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei gyflawni gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), gyda help gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Drwy'r contract hwn mae WCVA yn arwain y gwaith o ddarparu pecyn cefnogaeth, gan gynnwys dysgu a chyfnewid gwybodaeth ar y cyd, cefnogaeth benodol (sy'n cynnwys cymhorthfa galw heibio neu gynnal digwyddiad pwrpasol) a hyfforddiant penodol i'r pwnc. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymwneud llawer â'r hyfforddiant hwn, gan gynnwys mynychu'r sesiynau hyfforddi ac arwain elfennau ohonynt.


3.39 Mae Datblygu Cymunedol Cymru hefyd yn gallu canfod beth yw natur yr hyfforddiant sydd ei angen, ac wedyn yn cyfeirio at WCVA a fydd yn darparu'r hyfforddiant hwnnw. Mae Datblygu Cymunedol Cymru yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth i fynd i'r afael â'r anghenion hyfforddi a nodir (pan fo hynny'n bosibl/priodol) yn cael ei safoni yn unol â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Datblygu Cymunedol.

3.40 Rhwng mis Chwefror 2013 a mis Hydref 2014, cafodd WCVA 184 o ymholiadau i roi cefnogaeth ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf. Pan mae WCVA yn darparu hyfforddiant, mae'n aml yn cael ei gyflwyno yng nghyd-destun canllawiau ehangach Cymunedau yn Gyntaf. Drwy ddarparu'r hyfforddiant yn ei gyd-destun mae modd sicrhau ei fod yn cyd-fynd yn agos â'r Rhaglen, ac mae hefyd yn annog pobl i herio'r canllawiau. Mae WCVA wedyn yn gallu profi syniadau ymlaen llaw er mwyn helpu'r gwaith o ddatblygu cynlluniau a dehongli'r canllawiau.

3.41 Mae Ffigur 3.8 isod yn dangos y niferoedd uchel sydd wedi manteisio ar ystod o gyrsiau hyfforddi, a dim ond 2% o gynrychiolwyr y CCA a'r Rheolwyr

Clwstwr a holwyd ddywedodd nad oedden nhw'n bersonol, nac aelod o'r tîm, wedi bod ar unrhyw un o'r cyrsiau hyn.

Ffigur 3.8: Mynychu cyrsiau hyfforddi




3.42 Pan roedd angen ailddrafftio Cynllun Cynnwys y Gymuned, neu pan deimlwyd nad oedd cynnwys Cynlluniau Cynnwys y Gymuned yn cyfateb i'r hyn a oedd yn cael ei gyflawni go iawn o ran gwaith cynnwys y gymuned mewn Clystyrau, byddai'r Clystyrau'n cael hyfforddiant.

3.43 Cafwyd safbwyntiau cadarnhaol iawn am yr hyfforddiant a'r gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru a WCVA yn ystod y gwaith o ddatblygu Cynlluniau Cynnwys y Gymuned (dywedodd 8 o'r 11 o CCA a holwyd bod hynny wedi bod yn "dda iawn" neu'n "eithaf da"), yn enwedig o ran yr ymgynghorwyr a oedd ar gael i gynnig lefel sylweddol o gefnogaeth.

3.44 Mae'n debygol bod yr adborth cadarnhaol yn adlewyrchu'r model cefnogaeth integredig a ddisgrifiwyd, gan gyfuno'r canllawiau ysgrifenedig â'r digwyddiadau gweithdy a'r sesiynau un i un. Sylwir hefyd na ddywedwyd bod unrhyw fylchau yn yr hyfforddiant sydd ei angen, sydd felly'n awgrymu bod ystod yr hyfforddiant a ddarperir yn gynhwysfawr ac yn bodloni anghenion timau'r Clystyrau.

**Crynodeb o brosesau llywodraethu a rheoli Cymunedau yn Gyntaf**

3.45 Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyfeiriad strategol pendant i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac mae'r Fframwaith Canlyniadau a sefydlwyd yn sicr yn helpu hynny. Mae hynny'n amlwg gan fod y CCA a'r Rheolwyr Clwstwr yn dweud eu bod yn deall beth yw'r canlyniadau mae'r Rhaglen yn ceisio eu cyflawni. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn wynebu heriau wrth geisio bodloni amcanion deuol y Rhaglen, sef sicrhau bod y Clystyrau yn gweithio tuag at set o ganlyniadau sy'n gyson yn genedlaethol, ac yn dehongli'r canlyniadau hyn yn hyblyg er mwyn bodloni anghenion lleol o ran cefnogaeth ac ymyriadau penodol. Yn naturiol ddigon, mae hynny'n creu anawsterau wrth ddarparu canllawiau a chefnogaeth i sicrhau'r cydbwysedd hwn drwy Gynlluniau Cyflawni'r Clystyrau. Nid dim ond Cymunedau yn Gyntaf sy'n wynebu anawsterau fel hyn. Er enghraifft, canfu'r gwerthusiad o Teuluoedd yn Gyntaf[28] fod y gwahaniaethau lleol rhwng y ddau fodel cyflawni, a'r amrywiaeth rhwng y prosiectau a gomisiynwyd yn strategol (a oedd yn cyd-fynd ag asesiadau o'r anghenion lleol), wedi'i gwneud yn anoddach dangos beth sy'n gweithio o ran cyflawni, ac yn anoddach dangos cynnydd yn erbyn y canlyniadau.

3.46 Mae cyflwyno CCA yn strwythur llywodraethu'r Rhaglen yn creu pwynt cyswllt a chydlynu canolog ar lefel leol. Mae cydweithio cadarn ar lefel ganolog wedi bod yn rhan allweddol o lwyddiant prosesau llywodraethu mentrau eraill sy'n gweithredu ar sail ardal (MGSA)[29] ac mae hyn yn un o gryfderau cynllun Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r model CCA – sydd wedi'i fabwysiadu gan awdurdodau lleol yn bennaf, a chan rai mudiadau yn y Trydydd Sector – yn gwneud y Clystyrau'n fwy atebol drwy ddarparu'r arbenigedd ariannol a rheoli angenrheidiol sy'n sail i'w ffordd o weithredu. Fodd bynnag, er bod y model yn cael ei ystyried yn ddull gweithredu effeithiol i'w fabwysiadu, byddai modd gwella ymhellach y ffordd mae'r CCA yn cyflawni'r rôl hon, yn enwedig o ran trafod mwy â Llywodraeth Cymru. Byddai'r tueddiad i neilltuo'r rôl Corff Cyflawni Arweiniol i awdurdodau lleol yn ymddangos yn gwbl briodol, ond bod y cyfleoedd a gynigir drwy'r model hwn (er enghraifft, bod modd

---

[28] Gwerthusiad Cenedlaethol o Cymunedau yn Gyntaf, [http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-families-first/?lang=cy](http://gov.wales/statistics-and-research/national-evaluation-families-first/?lang=cy)

[29] Gweler yr adolygiad o MGSA eraill yn Atodiad 1.

recriwtio/defnyddio staff yn gyflym) hefyd yn cynnig cyfres o heriau (yn yr achos hwn, methu penodi staff allanol i rolau yn y Clystyrau).

3.47 Mae hyblygrwydd yn elfen bwysig mewn MGSA llwyddiannus er mwyn eu galluogi i ymateb i anghenion lleol, a sicrhau bod modd datblygu partneriaethau mwy effeithiol a phrosiectau perthnasol yn ôl yr angen. Mae hyn yn cynnwys hyblygrwydd gyda chyllid (yn hytrach na chyllideb flynyddol sefydlog) er mwyn gallu gwneud mwy o ymyriadau strategol ac arloesi. Er y bwriadwyd i Gynlluniau Cyflawni Cymunedau yn Gyntaf fod yn 'ddogfennau byw' a oedd yn cael eu haddasu wrth i weithgareddau gael eu cynnal ac wrth i ddata interim am berfformiad ddod ar gael, mae'r ffaith mai awdurdodau lleol yw'r Corff Cyflawni Arweiniol yn y rhan fwyaf o'r Clystyrau wedi dod â'r anawsterau sy'n gysylltiedig â gweithio'n unol â phrosesau cymeradwyo llym (ac araf ar brydiau). Er mwyn goresgyn hynny, mae angen i'r CCA sefydlu prosesau cymeradwyo mwy effeithlon a chymryd mwy o gyfrifoldeb dros benderfyniadau'n ymwneud â chyflawni, ac mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd ymateb yn gyflymach pan fydd angen er mwyn gallu ailneilltuo adnoddau yn effeithiol.

3.48 Yn yr ardaloedd lle nad yr awdurdod lleol yw'r CCA, roedd mudiadau'r Trydydd Sector yn teimlo eu bod yn wynebu risg ariannol oherwydd amseriad y llythyrau cynnig terfynol. Roedd yn ymddangos nad oeddent yn gwybod y byddai modd iddynt gael eu talu ymlaen llaw er mwyn cael help gyda chamau cychwynnol y broses o gyflawni'r Rhaglen. Mae'r diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am ddelio â chontractau'r staff a chostau dileu swyddi hefyd yn achosi trafferth i'r mudiadau hyn. Mae angen ystyried ymhellach pwy sy'n atebol am rai o'r materion hyn, yn enwedig o gofio am y gwahaniaethau rhwng CCA sy'n cael eu harwain gan gyngor a'r CCA eraill.

3.49 Mae sgiliau staff Cymunedau yn Gyntaf yn hollbwysig er mwyn cyflawni'r Rhaglen yn llwyddiannus. Mewn nifer o ardaloedd, mae'r ffaith mai'r awdurdod lleol yw'r CCA wedi golygu bod staff y Clystyrau wedi cael eu trosglwyddo o'r awdurdod lleol i dimau Cymunedau yn Gyntaf – naill ai o rolau a oedd yn ymwneud â chyfnod blaenorol Cymunedau yn Gyntaf, neu o feysydd eraill yn yr awdurdod lleol. Mae hyn wedi arwain at gyfleoedd a heriau i'r Rhaglen; ar y naill law roedd y ffaith eu bod yn gyfarwydd â'r prosesau yn golygu bod modd i'r staff ddechrau ar y gwaith ar unwaith, ac ar y llaw arall

mae eu diffyg arbenigedd wrth gynnal y math o weithgareddau sydd bellach eu hangen yn risg i'r Rhaglen.

# 4 Perfformiad y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd yma

4.1 Mae'r bennod hon yn canolbwyntio ar asesu perfformiad y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd yma. Mae'r asesiad hwnnw'n ateb dau gwestiwn hollbwysig. Yn gyntaf, i ba raddau mae'r mewnbynnau sy'n cael eu disgrifio ym model rhesymeg y Rhaglen wedi cael eu cyflawni wrth weithredu'r Rhaglen. Yn ail, i ba raddau mae'r mewnbynnau hyn wedi arwain at gyflawni'r gweithgareddau a ragwelwyd, o ran math a nifer, a sut mae hynny wedi cael ei gyflawni.

4.2 Mae'r bennod hon yn defnyddio amryw o ffynonellau tystiolaeth er mwyn ateb y cwestiynau hyn: data ar berfformiad ariannol, data Ffynnon, dadansoddiad o Gynlluniau Cyflawni'r Clystyrau, ynghyd â'r dystiolaeth ansoddol a meintiol a gasglwyd drwy gydol y gwerthusiad.

**Mewnbynnau'r Rhaglen**

*Gwariant ariannol*

4.3 Cafodd tîm y gwerthusiad ddata ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14[30], a oedd yn cynnwys manylion ynghylch cyllideb gyffredinol pob Clwstwr a'r perfformiad yn erbyn y gyllideb. [31] Nid yw'r data hwn yn dangos faint o'r gyllideb a neilltuwyd fesul prosiect, na sut mae hyn yn amrywio ar draws y Clystyrau. Er hynny, mae'n ddefnyddiol wrth ystyried pa mor realistig oedd Cynlluniau Cyflawni'r Clystyrau, a pha mor effeithiol mae'r Clystyrau wedi defnyddio'r gyllideb a neilltuwyd iddynt.

4.4 Wrth ddadansoddi'r data, gwelwyd eu bod yn rhagweld y byddai cyfanswm gwariant 2013/14 yn 82% o gyfanswm y gyllideb a neilltuwyd. Roedd y perfformiad ariannol yn amrywio'n fawr rhwng y Clystyrau, ac roedd y rhagolwg tanwariant yn amrywio o 1% i 50% (gydag un Clwstwr yn rhagweld na fyddai'n tanwario o gwbl).

4.5 Roedd cyfanswm o 19 Clwstwr, a'r rheini'n cwmpasu 10 ardal awdurdod lleol gwahanol, yn rhagweld y byddent yn tanwario dros 20%. Ceir tystiolaeth o bocedi o danwario, gyda thri o'r pedwar Clwstwr gyda'r rhagolwg tanwario mwyaf (fel cyfran o gyfanswm eu cyllideb ar gyfer 2013/14) yn gweithredu

[30] Roedd hyn yn cynnwys Log Taliadau Clystyrau Cymru Gyfan ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14.
[31] Roedd data ar yr hawliadau eu hunain ar gael ar gyfer 40 Clwstwr, ac roedd data 12 Clwstwr yn seiliedig ar hawliadau rhagolwg.

mewn un Corff Cyflawni Arweiniol, ac roedd pedwar o'r 10 Clwstwr â'r rhagolwg tanwario lleiaf yn dod o Gorff Cyflawni Arweiniol arall.

4.6 Gallai'r rhesymau pam roedd cynifer o Glystyrau yn debygol o fod wedi tanwario ar ddiwedd y flwyddyn ariannol fod yn gysylltiedig â phroblemau a wynebwyd wrth gynllunio'r gweithgareddau ac wrth gynnal y gweithgareddau. Yn wir gyda Rhaglen fel Cymunedau yn Gyntaf – lle mae cyfran fawr o'r gwariant yn mynd ar gostau staff – mae bob amser yn debygol o fod yn tanwario i ryw raddau gan na fydd y Rhaglen yn gweithredu gyda'r holl staff bob amser. Cynigiodd y Clystyrau amryw o resymau pam roeddent yn tanwario ar y Rhaglen, gan gynnwys: oedi cyn recriwtio'r staff; bwriadu cynnal gormod o weithgareddau ar y dechrau o ystyried faint o staff oedd ar gael yn yr ardal; a pheidio â throsglwyddo gwariant yn ddigon effeithiol rhwng gweithgareddau neu elfennau'r Rhaglen i fanteisio i'r eithaf ar y gwariant.

4.7 Cafodd tanwario ei drafod gyda chynrychiolwyr y CCA a'r Rheolwyr Clystyrau yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos, pan oedd hynny'n briodol. Roedd y rhesymau dros danwario yn amrywio ar draws y Clystyrau. Mewn rhai achosion, roedd cyfnodau o oedi cyn dechrau ar y gwaith cyflawni – gan gynnwys recriwtio staff, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny – wedi arwain at danwario. Mae canfyddiadau'r arolwg ar-lein yn cefnogi hynny – dywedodd un o bob chwech (16%) o'r Clystyrau eu bod yn dal heb recriwtio eu holl staff ym mis Mehefin 2014. Roedd recriwtio staff hefyd yn un o'r tair prif her a nodwyd ar gyfer holl elfennau Cymunedau yn Gyntaf (un o bob pump ar gyfer pob un).

4.8 Fodd bynnag, mewn achosion eraill roedd y tanwario'n gysylltiedig â'r broses o newid o drefn flaenorol Cymunedau yn Gyntaf, a gyfrannodd at gamgymeriadau wrth gynllunio gweithgareddau. Er enghraifft, roedd un Clwstwr wedi bwriadu cyflawni gwaith sesiynol ar raddfa fawr gyda thîm Clwstwr canolog wedi'i symleiddio, fel y dangosir yn yr astudiaeth achos dros y dudalen. Roedd hyn yn anodd ei drefnu'n ymarferol, ac arweiniodd at gyllideb a oedd yn gwyro tuag at gostau'r prosiect ac oddi wrth gostau staff parhaol. Yn yr achos hwn – ac mewn achosion eraill – dywedwyd bod diffyg hyblygrwydd i newid dyraniadau'r gyllideb ar ôl i'r Cynlluniau Cyflawni gael eu cyflwyno a'u cymeradwyo yn golygu nad oedd modd iddynt wario'r gyllideb oedd ar ôl. Mae'r heriau sy'n gysylltiedig â sicrhau hyblygrwydd a defnyddio'r Cynlluniau Cyflawni fel 'dogfen fyw' eisoes wedi cael eu trafod.

**Heriau o ran strwythur y tîm – enghreifftiau o astudiaeth achos**

Mae'r CCA wedi mynd ati mewn ffyrdd gwahanol i benodi staff i'r timau sy'n rheoli Cymunedau yn Gyntaf ar lefel Clwstwr. Roedd un Clwstwr wedi ceisio symleiddio hyn drwy rannu'r broses gyflawni yn ddwy elfen fel hyn:

<table>
<tr><th colspan="2">Rheolwr Clwstwr</th></tr>
<tr><th>Gweithiwr Cyflawni Arweiniol (Dysgu a Ffyniannus)</th><th>Gweithiwr Cyflawni Arweiniol (Iechyd a Phobl Ifanc)</th></tr>
<tr><th>Gweithiwr Prosiect #1</th><th>Gweithiwr Prosiect #4</th></tr>
<tr><th>Gweithiwr Prosiect #2</th><th rowspan="2">Gweithiwr Prosiect #5</th></tr>
<tr><th>Gweithiwr Prosiect #3</th></tr>
<tr><th colspan="2">Gweinyddwr</th></tr>
</table>

Achosodd y strwythur hwn yr heriau canlynol i'r Clwstwr:

- Byddai'r broses gyflawni yn canolbwyntio ar weithwyr sesiynol, ond roedd hynny'n rhy anodd i'w drefnu'n ymarferol;
- Felly bu'n rhaid i staff y Clwstwr ysgwyddo mwy o'r gwaith cyflawni; ac
- Roedd yn rhy anodd ymdopi â'r gofynion monitro ac adrodd ar ben y tasgau cyflawni.

Cyfrannodd yr heriau hyn at danwariant ym mlwyddyn ariannol 2013/14. Yn sgil yr heriau a wynebwyd, mae'r Clwstwr wedi cynnig ehangu'r tîm yn y Cynllun Cyflawni diweddaraf er mwyn dychwelyd at strwythur rheoli sy'n seiliedig ar dair elfen wreiddiol Cymunedau yn Gyntaf, gyda dau weithiwr cefnogi prosiect ychwanegol.

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi rhoi'r pŵer i'r CCA fod yn fwy hyblyg wrth ailneilltuo cyllidebau yn y Clystyrau. Os bydd y CCA yn gweithredu ar y pŵer hwn yn effeithiol, dylai hyn helpu i fynd i'r afael â'r problemau tanwario.

## Gweithgareddau'r Rhaglen

*Data Ffynnon ar weithgareddau a gynhaliwyd yn 2013/14*

4.9 Mae'r dystiolaeth feintiol o'r gweithgareddau sydd wedi cael eu cynnal, a faint o fuddiolwyr sydd wedi cael eu cyrraedd, yn dod o'r data a gafwyd gan Lywodraeth Cymru o system adrodd Ffynnon. Mae'r data hwn yn dangos bod cyfanswm o 1,064 o weithgareddau wedi cael eu cynnal ym mlwyddyn ariannol 2013/14[32] gan y 52 o Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf ar draws tair elfen y Rhaglen (Ffyniannus, Dysgu ac Iachach). Mae Tabl 4.1 yn dangos sut mae'r gweithgareddau hyn wedi'u dosbarthu ar draws yr elfennau, ynghyd â data ynghylch faint oedd yn cymryd rhan yn y gwahanol weithgareddau. Mae'r data'n dangos bod cyfanswm o 127,467 o bobl[33] wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf yn 2013/14, gyda phob gweithgaredd unigol yn denu 120 o bobl ar gyfartaledd. Mae'r tabl hefyd yn dangos targedau cyffredinol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gyfan, a osodwyd gan y Cynllun Gweithredu.[34]

**Tabl 4.1 Allbynnau 2013/14 fesul elfen**

| Elfen Cymunedau yn Gyntaf | Cyfanswm nifer y gweithgareddau, ac fel canran o'r cyfanswm | Cyfanswm nifer y bobl sydd wedi cymryd rhan, ac fel canran o'r cyfanswm | Nifer targed y bobl sydd wedi cymryd rhan yn unol â'r Cynllun Gweithredu |
|---|---|---|---|
| Ffyniannus | 353 (33%) | 41,626 (33%) | 45,000 (44%) |
| Dysgu | 349 (33%) | 38,734 (30%) | 30,000 (30%) |
| Iachach | 362 (34%) | 47,107 (37%) | 26,250 (26%) |
| **Cyfanswm** | **1,064** | **127,4667** | **101,250** |

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Ipsos MORI o ddata Ffynnon ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/14*

4.10 Mae data Ffynnon yn dangos nifer y bobl sydd wedi cymryd rhan, wrth gyflawni pob un o'r 102 o fesurau perfformiad ar draws elfennau thematig

[32] Cafodd tîm y gwerthusiad ddata o'r system ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2013/14. Roedd y data hwn yn rhoi dadansoddiad o'r prosiectau fesul elfen a Chlwstwr, cyfanswm y bobl sydd wedi cymryd rhan ym mhob gweithgaredd, a'r hyn a gyflawnwyd ar gyfer pob elfen Mesur Perfformiad Cymunedau yn Gyntaf fesul gweithgaredd.


[33] D.S. Nid yw data Ffynnon yn cofnodi nifer yr unigolion a gynrychiolir, ac felly nid oes modd cyfrifo nifer yr unigolion **gwahanol** sydd wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf, ac felly bydd rhai pobl wedi cael eu cyfrif ddwywaith. Er enghraifft, byddai un person sydd wedi cymryd rhan mewn tri gweithgaredd gwahanol mewn prosiect wedi cael ei gyfrif fel tri buddiolwr.

[34] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/socialjustice/130703takeforpovactplancy.pdf darllenwyd ar-lein 21ain Tachwedd 2014.

Cymunedau yn Gyntaf. Fel mae Ffigur 4.1 isod yn dangos, roedd 17 o weithgareddau ar gyfartaledd yn targedu holl ganlyniadau'r elfen Ffyniannus, ac roedd 24 o weithgareddau ar gyfartaledd yn targedu canlyniadau'r elfennau Dysgu ac Iachach. Mae ffocws ehangach y gweithgareddau a gynhelir o dan yr elfen Ffyniannus i'w ddisgwyl, gan fod mwy o ganlyniadau i'w cyflawni yn yr elfen hon.

4.11

Ffigur 4.1: Gweithgareddau sy'n targedu canlyniadau unigol




*Cynlluniau Cyflawni Clystyrau ar gyfer 2014/15*

4.12 Ar sail y dadansoddiad o'r Cynlluniau Cyflawni[35] oedd ar gael ar gyfer yr holl Glystyrau, mae'n amlwg bod pob Clwstwr wedi bod yn cynnal gweithgareddau ar gyfer y tair elfen hyn (Ffigur 4.2) – er enghraifft, nid oes tystiolaeth bod unrhyw Glystyrau wedi canolbwyntio ar un neu ddwy elfen yn unig o'r tair elfen.


4.13 Mae'n ymddangos bod gan y Rhaglen yr hyblygrwydd sydd ei angen i'r Clystyrau allu dod o hyd i arbedion wrth gyflawni o fewn ffiniau'r elfennau hyn, er enghraifft drwy gyfuno'r gwaith cyflawni ar draws yr elfennau (ond mae hynny'n arwain at anawsterau wrth gofnodi canlyniadau). Mae'n bwysig nodi nad yw pob gweithgaredd wedi cael ei gynllunio er mwyn cyflawni nodau ac

[35] Roedd Cynlluniau Cyflawni ar gyfer blwyddyn ariannol 2014/15 ar gael.

amcanion Cymunedau yn Gyntaf yn unig, a bod rhai gweithgareddau sy'n bodoli'n barod wedi cael eu plygu er mwyn cyflawni o fewn ffiniau Cymunedau yn Gyntaf.

4.14 Mae dadansoddiad o Gynlluniau Cyflawni'r Clystyrau sydd ar gael ar gyfer 2014/15[36] yn dangos bod y Clystyrau'n bwriadu cynnal 1,004 o weithgareddau yn 2014/15. Fel mae Ffigur 4.2 isod yn dangos, cafodd mwy o weithgareddau eu cynnal o dan yr elfennau Ffyniannus a Dysgu, a'r elfen Iachach oedd yr elfen leiaf. Byddai hynny i'w ddisgwyl ar sail pryderon Llywodraeth Cymru y byddai'n anoddach denu partneriaid cyflawni lleol ar gyfer yr elfen hon. Felly mae ehangder y gweithgareddau a nodwyd yn y Cynlluniau Cyflawni yn adlewyrchu allbynnau bwriedig y Rhaglen, fel y nodir yn y model rhesymeg.

Ffigur 4.2: Gweithgareddau bwriedig Cymunedau yn Gyntaf ar gyfer 2014/15 fesul elfen





4.15 Dangosodd y Cynlluniau Cyflawni y byddai amrywiaeth eang o weithgareddau yn cael eu cynnal, o dan dair elfen graidd Cymunedau yn Gyntaf. Ar gyfartaledd, roedd y Clystyrau'n bwriadu cynnal 22 o weithgareddau unigol yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Fodd bynnag, roedd hyn yn amrywio'n

[36] D.S. Cafodd Cynlluniau Cyflawni 2014/15 eu dadansoddi fel y cynlluniau diweddaraf oedd ar gael. Nid oedd fersiynau terfynol pob Clwstwr ar gael i dîm y gwerthusiad, ac mewn rhai achosion doedd y wybodaeth am weithgareddau ddim ar gael neu ddim yn gyson. Mewn un achos, nid oedd unrhyw Gynllun Cyflawni ar gael.

sylweddol ar draws y Clystyrau, fel y dangosir yn Ffigur 4.3 isod. Roedd un Clwstwr yn bwriadu cynnal 42 o weithgareddau yn 2014/15, a'r nifer leiaf o weithgareddau y bwriadwyd eu cynnal oedd 12.[37]

Ffigur 4.3: Nifer y gweithgareddau fesul Clwstwr




4.16 Mae nifer y gweithgareddau i'w cynnal yn amrywio, ac mae hynny i'w ddisgwyl. Mae'n bosibl bod hynny'n deillio o wahaniaethau o ran maint y boblogaeth,[38] pa mor wledig yw ardal y Clwstwr, neu hanes o gyflawni portffolios mawr ar gyfer prosiectau.

4.17 Roedd yr adolygiad o Gynlluniau Cyflawni hefyd yn rhoi tystiolaeth o'r ystod sylweddol o weithgareddau roedd y Clystyrau'n bwriadu eu cynnal, a'r ystod o fuddiolwyr oedd yn cael eu targedu. Roedd yr amrywiaeth hon o brosiectau arfaethedig yn her i Lywodraeth Cymru wrth adolygu'r Cynlluniau Cyflawni a rhoi adborth arnynt, ac yn her o ran cyflawni, fel y trafodir yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

---

[37] Gan fod proses gyflawni 2014/15 yn dal i fynd rhagddi, nid oedd yn bosibl dadansoddi data perfformiad i ganfod i ba raddau roedd nifer y gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal mewn rhai Clystyrau yn cael unrhyw effaith negyddol ar y broses gyflawni.
[38] Mae poblogaeth Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn amrywio o 8,900 i 30,700, ac mae'r Clystyrau'n cynnwys rhwng 5 ac 19 o Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is http://gov.wales/docs/statistics/2014/140225-communities-first-2012-baseline-cy.pdf, darllenwyd ar-lein 20fed Tachwedd 2014.

**Dulliau o gynllunio gweithgareddau**

4.18 Hyd yma, mae'r adran hon wedi canolbwyntio ar amlinellu'r dystiolaeth ynghylch pa weithgareddau sydd wedi cael eu cynnal gan y Clystyrau fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ers iddi gael ei hail-lansio. Nawr mae angen ystyried y dulliau o gynllunio'r gweithgareddau hyn, a'u cyflawni yn dilyn hynny, cyn bod modd asesu pa mor effeithiol yw'r Rhaglen yn y bennod nesaf.

4.19 Mae'r Clystyrau wedi defnyddio amrywiaeth o ddulliau i ailgynllunio'r gweithgareddau a fydd yn cael eu cynnal yn y Clystyrau. Mae'r dulliau yn amrywio o'r dull brig i lawr, lle mae gweithgareddau'n cael eu cynllunio ar y dechrau gan y CCA a thimau'r Clystyrau, i ddulliau mwy lleol o lawer, lle mae aelodau'r gymuned eu hunain yn cael eu cynnwys yn y gwaith o flaenoriaethu canlyniadau ardaloedd lleol a'r gwaith o gynllunio gweithgareddau. Mae'r dulliau eraill yn cynnwys ymgysylltu â mudiadau lleol yn y Trydydd Sector i fanteisio ar eu harbenigedd wrth gynnal gweithgareddau mewn cyd-destun lleol. Mae'n anochel bod y gweithgareddau hyn yn arwain at ddatblygu gwahanol fathau o weithgareddau. Wrth ystyried natur y gweithgareddau sy'n cael eu cynllunio, bydd yn bwysig cydnabod effaith y dull cyflawni ar hynny.

4.20 Wrth ystyried sbectrwm y dulliau cynllunio posibl, mae'n ymddangos bod Cymunedau yn Gyntaf – ar sail tystiolaeth y gwerthusiad – yn y canol rhwng y ddau, ac mae'n siŵr nad yw mor agos at ddull gweithredu cydweithredol, sy'n cynnwys preswylwyr lleol, ag y rhagwelwyd.

**Dulliau o gynnal gweithgareddau**

4.21 Mae'r CCA a'r Clystyrau wedi mynd ati i gynnal y gweithgareddau yn eu Cynllun Cyflawni mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae'r dulliau hyn wedi amrywio o Glystyrau sydd wedi rhoi'r gwaith o gynnal gweithgareddau allan ar gontract i ystod o bartneriaid cyflawni lleol, i Glystyrau lle mae'r staff yn cynnal y rhan fwyaf o'r gweithgareddau eu hunain. Er bod gan bob dull ei gyfleoedd a'i heriau, mae cwestiynau wedi cael eu codi ynghylch yr ail ddull – fel gan y Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol isod a gyfwelwyd, a oedd yn teimlo bod staff Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn cael y gwaith o gynnal gweithgareddau sydd y tu hwnt i'w harbenigedd.

*Mae gweithwyr datblygu wedi dod yn weithwyr achos bron. Mae rhai o'r prosiectau sy'n cael eu cynnal, fel cyrsiau magu plant, yn debycach i'r hyn y byddai gweithwyr Iechyd proffesiynol yn eu cynnal.*

**Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol**

4.22 Yn yr achosion lle teimlir hynny, mae'n gallu achosi problemau i'r staff, i'r buddiolwyr ac i raglenni eraill Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, mae morâl staff yn gallu dioddef oherwydd bod y tasgau mor anodd neu fod disgwyliadau'r buddiolwyr yn afrealistig (e.e. ystyried staff Cymunedau yn Gyntaf yn ddirprwy i feddyg teulu). Hefyd, mae'n gallu peryglu'r berthynas â thimau a rhaglenni eraill os yw'n ymddangos bod gormod o orgyffwrdd rhwng Cymunedau yn Gyntaf â'u maes gweithredu.

*Mae'n ymddangos bod y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf eisiau bod yn bob dim i bawb. Mae ei dull gweithredu yn rhy eang, ac felly dydy'r model ddim yn gynaliadwy.*

**Rheolwr Gweithredol un o bartneriaid Cymunedau yn Gyntaf**

4.23 Yn ôl pob golwg, mae'r broblem hon ar ei gwaethaf yn elfen Iachach y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Roedd cyfweliadau astudiaethau achos yn awgrymu nad yw rôl fwriedig staff y Rhaglen – ar sail cynllun Llywodraeth Cymru ar gyfer y Rhaglen a'r dull cyflawni a ddisgwyliwyd – yn cyfateb i ddehongliad rhai timau Cymunedau yn Gyntaf, yn ogystal â thimau rhaglenni eraill a chyrff partner, o gylch gwaith y rôl hon. Er bod Llywodraeth Cymru wedi gosod canlyniadau iechyd ar gyfer y Rhaglen, ni fwriedir i staff Cymunedau yn Gyntaf ysgwyddo rôl gweithwyr iechyd proffesiynol wrth gyflawni canlyniadau clinigol. Er bod rhai Clystyrau yn cydweithio'n effeithiol â gweithwyr iechyd proffesiynol eraill i gyflawni rhannau o'r elfen Iachach sydd y tu hwnt i arbenigedd tîm y Clwstwr, efallai bod angen mwy o gymorth ar Glystyrau eraill i'w helpu i ddiffinio'r llinell rhwng staff y Rhaglen a gweithwyr iechyd proffesiynol (neu weithwyr eraill), a sut a phryd i gyfeirio'n effeithiol at y gweithwyr hynny.

*Cynnal gweithgareddau o fewn elfennau Cymunedau yn Gyntaf*

4.24 Mewn rhai Clystyrau roedd nifer o'r gweithgareddau a oedd yn cael eu cynnal ar waith yn barod cyn i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf gael ei hailstrwythuro ac mae hyn, ynghyd â dilyniant o ran y staff, wedi helpu i sicrhau bod modd i'r Clwstwr ddechrau ar y gwaith yn syth. Nid yw'r dilyniant hwn o ran gweithgareddau – sydd, yn ei hanfod, yn golygu bod gweithgareddau sy'n bodoli'n barod yn cael eu haddasu i gyflawni canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf – o reidrwydd yn tanseilio nodau Cymunedau yn Gyntaf, a gellir ei ystyried yn rhywbeth cadarnhaol sy'n cynnig gweithgareddau sy'n bodoli'n barod i garfan ehangach o fuddiolwyr. Fodd bynnag, mae hyn yn ddibynnol ar ddewis gweithgareddau dilyniant oherwydd y byddai cynllunio gweithgareddau newydd yn arwain at ddyblygu gwaith, yn hytrach nag y byddai cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn ffordd ychwanegol o ariannu prosiectau sy'n bodoli'n barod. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod hynny'n digwydd mewn rhai achosion.

4.25 Ar ddechrau'r gwerthusiad hwn, un risg bwysig a nodwyd gan dîm polisi Llywodraeth Cymru oedd gallu'r Clystyrau i sefydlu'r cysylltiadau da sydd eu hangen â gweithwyr iechyd proffesiynol i gynllunio a chynnal gweithgareddau o fewn yr elfen Iachach. Er bod y gwerthusiad wedi nodi heriau mae timau'r Clystyrau yn eu hwynebu ar lawr gwlad yn hyn o beth, nid yw'r elfen Iechyd wedi dioddef o ran nifer y gweithgareddau sy'n cael eu cynnal (fel y dangoswyd yn gynharach yn Nhabl 4.1). Fodd bynnag, at ei gilydd gwelwyd mai'r elfen Iechyd yw'r un anoddaf i'w chyflawni gan fod teimlad bod hynny'n gofyn am wybodaeth arbenigol (er enghraifft, ar gyfer iechyd meddwl), ymgysylltu llawer â phartneriaid allanol, a chanlyniadau y mae'n gallu bod yn anodd adrodd arnynt a'u monitro (er enghraifft, "gallu ymdopi'n well" o ran iechyd meddwl). Fodd bynnag, ceir rhywfaint o heriau wrth gyflawni tair elfen y Rhaglen, ac mae enghreifftiau o'r rhain wedi'u nodi isod.

- **Dysgu** – mae'n gallu bod yn anodd gweithio gydag ysgolion i ddatblygu a chynnal gweithgareddau. Mae'r amserlenni ar gyfer gwneud cais am gyllid rhwng rhaglenni (e.e. y Grant Amddifadedd Disgyblion) a'i ddefnyddio yn gallu bod yn anghyson, fel y dywedir yn y dyfyniad isod.

*Dydy'r* [prosesau gwneud cais am gyllid] *ddim yn cyd-fynd ag ysgolion o gwbl, mae hynny'n niwsans. Wedi dweud hynny, rydyn ni bob amser yn gweithio mewn ysgolion o fis Ebrill i fis Ebrill, ac yn amlwg mae'r ysgol yn rhedeg rhwng mis Medi a mis Gorffennaf. Fodd bynnag, fe wnaethon ni ddal y cyllid yn ôl. Er bod y cyllid yn mynd o fis Ebrill i fis Ebrill, mae'n rhaid i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei wario erbyn mis Ebrill, felly fe ddaeth ein cyfraniad ni ar ôl hynny* [i ddal ati i gyflogi staff]. *...roedd hynny'n gofyn am dipyn o waith trefnu, ond fe wnaethon ni lwyddo.*

**Partner Cyflawni Cymunedau yn Gyntaf (Ysgol)**

- **Ffyniannus** – Mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn gallu cael trafferth gwahaniaethu rhwng ei maes gweithredu ei hun a maes gweithredu rhaglenni eraill, fel Teuluoedd yn Gyntaf, a chyrff eraill, fel y Ganolfan Byd Gwaith.
- **Iachach** – Yn sgil natur arbenigol a dechnegol y canlyniadau iechyd mae pobl yn meddwl bod yr elfen yn ceisio eu cyflawni, mae'r elfen hon ymhellach y tu hwnt i faes arbenigedd timau cyflawni Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Clystyrau'n wynebu amryw o heriau, gan gynnwys dod o hyd i'r staff cyflawni priodol, cael cefnogaeth y sector iechyd lleol a chynnwys y sector hwnnw, ynghyd â mesur canlyniadau'n effeithiol. Mae'r astudiaeth achos isod yn dangos y ddau ddull cyflawni gwahanol a ddefnyddiwyd yn hyn o beth, ac mae'n debyg bod dull Clwstwr B yn gweithio'n effeithiol.

**Dulliau o gyflawni'r elfen iachach – enghreifftiau o astudiaeth achos**

Cydnabyddir bod cynnal gweithgareddau o dan yr elfen iechyd yn rhywbeth newydd i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Gan ddefnyddio astudiaethau achos ar lefel Clwstwr, mae'r ddwy enghraifft isod yn dangos y gwahanol ddulliau sydd wedi cael eu defnyddio ar gyfer yr her hon.

**Clwstwr A**

Mae'r Clwstwr hwn wedi canolbwyntio ar gyflawni'r elfen ffyniannus ar draul yr elfen iachach. Mae'r Clwstwr wedi cael trafferth dod o hyd i'r bwlch lle gall Cymunedau yn Gyntaf weithredu, er mwyn cynyddu gwerth y gwaith y mae'r sector iechyd eisoes yn ei wneud yn yr ardal. Felly mae wedi cyflogi staff nad ydynt yn arbenigwyr iechyd ond sy'n swyddogion mwy cyffredinol ac sydd â gwybodaeth am iechyd y cyhoedd ac yn ceisio rhoi sylw i amrywiaeth o bynciau.

**Clwstwr B**

Mae dull arall ar waith yn yr enghraifft hon, gan fod y Clwstwr yn ystyried iechyd yn thema drawsbynciol sy'n bwysig i bob blaenoriaeth arall, ac nid yw wedi canolbwyntio ar gynnal gweithgareddau iechyd unigol. I gyflawni hyn, mae'r Clwstwr wedi penderfynu cydweithio â gweithwyr iechyd proffesiynol fel partneriaid, ar sail eu profiad ehangach o ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol. Dyma rai enghreifftiau o hynny:

- Cysylltu â Meddygon Teulu a Bydwragedd lleol i gyfeirio cleifion at weithgareddau addas gan Cymunedau yn Gyntaf.
- Cydweithio â Bydwraig leol sydd wedi ymddeol. Mae hi'n gwirfoddoli gyda'r Clwstwr yn llawn amser, ac yn cynnal cyrsiau cyn geni ac ar ôl geni.

*Sut mae elfennau Daearyddol yn effeithio ar y broses gyflawni*

4.26 Y tu hwnt i'r heriau hyn, mae elfennau daearyddol Clwstwr yn aml yn her fawr wrth gynnal gweithgareddau. Roedd cyfnod diweddaraf Cymunedau yn Gyntaf, a ddechreuodd ym mis Ebrill 2012, yn cynnwys ad-drefnu'r Rhaglen. Yn sgil hynny, mae bellach yn canolbwyntio ar 52 Clwstwr a phob un yn cynnwys ardaloedd mwy, yn hytrach na chael dros 150 o ardaloedd neu bartneriaethau lleol Cymunedau yn Gyntaf. Y rheswm daearyddol a oedd wrth wraidd ailgynllunio'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf oedd y byddai'r Clystyrau

newydd – ymysg pethau eraill – yn sicrhau màs critigol mwy ynghyd â mwy o adnoddau gan eu bod yn cwmpasu ardaloedd daearyddol mwy.

4.27 At ei gilydd, mae'n ymddangos bod yr agwedd hon ar y cynllun newydd yn cyflawni ei nod. Er hynny, mae rhywfaint o broblemau a thensiynau daearyddol o hyd sy'n effeithio ar y gwaith o reoli a chyflawni'r Rhaglen, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig gyda Chlystyrau sydd wedi'u hynysu neu sydd ar wasgar. Yn yr ardaloedd hyn mae costau cyflawni yn gallu bod yn uwch, mae'r staff yn gorfod delio ag ardal ehangach ac mae'r preswylwyr yn wynebu rhwystrau o ran trafnidiaeth a chostau wrth deithio i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Mewn rhai ardaloedd, mae hefyd yn her annog y preswylwyr i deithio y tu hwnt i'w cymuned leol eu hunain i gyrraedd gwasanaethau sy'n cael eu cynnig mewn rhan arall o'r Clwstwr. Mae'r astudiaeth achos isod yn defnyddio tystiolaeth gan ddau Glwstwr i bwysleisio sut mae elfennau daearyddol cymhleth yn effeithio ar y broses o gyflawni'r Rhaglen.

**Heriau daearyddol sy'n wynebu'r broses gyflawni – enghraifft o astudiaeth achos**

Mae Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf newydd, a gafodd ei greu yn 2012, yn cynnwys 9 pentref sydd ar wasgar a heb unrhyw wasanaethau na chyrff sydd eisoes yn gweithredu ar draws y Clwstwr. Dyma'r goblygiadau:


- Bydd yn cymryd mwy o amser i ddechrau ar weithgareddau tra mae prosesau trefniadaethol yn cael eu rhoi ar waith
- Mae cyllid yn gorfod mynd yn bell yn y Clwstwr oherwydd:
    - Gwariant ar drafnidiaeth rhwng pentrefi i'r staff/gwirfoddolwyr
    - Gwasanaethau yn cael eu dyblygu mewn gwahanol bentrefi er mwyn sicrhau darpariaeth leol i ddefnyddwyr

Mae ail Glwstwr, a gafodd hefyd ei greu o'r newydd yn 2012, yn cynnwys dros bum o ardaloedd blaenorol Cymunedau yn Gyntaf mewn lleoliad gwledig. Mae elfennau daearyddol y Clwstwr yn achosi'r heriau canlynol wrth gyflawni'r Rhaglen yn lleol:

- Mae rhai preswylwyr yn ei chael yn anodd cymryd rhan mewn gweithgareddau oherwydd:
    - Natur ynysig rhai o'r pentrefi; ac
    - Opsiynau cyfyngedig a drud o ran trafnidiaeth gyhoeddus.
- Mae'r ymdeimlad cryf o blwyfoldeb yn y Clwstwr wedi achosi heriau o ran gwaith Cynnwys y Gymuned. I oresgyn hynny, mae'r Clwstwr wedi gorfod gweithredu o dair swyddfa.

4.28 Mae Ffigur 4.4 isod yn dangos pa mor bell yw'r ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOAs) oddi wrth ei gilydd mewn un Clwstwr. Mae'r math hwn o broblem ddaearyddol yn cyfrannu at yr heriau wrth gyflawni a nodir uchod.

Ffigur 4.4: Enghraifft o wasgariad daearyddol rhai Clystyrau




*Ffynhonnell: Map Clwstwr Pentrefi Trefol Wrecsam. Adroddiad Gwaelodlin 2012 Llywodraeth Cymru*

4.29 Y tu hwnt i hynny, nid oedd modd mynd ati mewn ffordd systematig i ddadansoddi elfen ddaearyddol y gweithgareddau a'r buddiolwyr gafodd gymorth ar lefel unigol er mwyn ystyried yn fanylach natur y cysylltiadau rhwng nodweddion Clystyrau eraill, fel y natur wledig/trefol, neu pa mor agos/ar wasgar yw'r LSOAs.

**Crynodeb o gynnydd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf hyd yma**

4.30 Er nad oedd y Clystyrau'n gallu defnyddio'r holl fewnbwn ariannol a roddwyd i'r Rhaglen yn 2013/14, nid yw hyn wedi cael effaith negyddol ar allu Clystyrau i gynnal gweithgareddau ac i gyrraedd buddiolwyr targed yn ystod y flwyddyn hon. Mae'r gwahaniaeth rhwng Clystyrau o ran nifer[39] y gweithgareddau sydd wedi cael eu cynnal yn 2013/14, ac y bwriedir eu cynnal yn 2014/15, yn codi cwestiynau ynghylch i ba raddau mae'r gweithgareddau hyn i gyd yn brosiectau newydd a gynlluniwyd yn benodol i gyflawni Fframwaith Canlyniadau diwygiedig Cymunedau yn Gyntaf. Mae Llywodraeth Cymru yn herio'r CCA pan mae angen gyda Chynlluniau Cyflawni'r Clystyrau er mwyn mynd i'r afael â'r broblem bosibl hon.

4.31 Mae amrywiaeth o ddulliau o gynllunio gweithgareddau ar lefel Clwstwr wedi cael eu hegluro yn y bennod hon, a hyd yma mae'n ymddangos nad yw aelodau'r gymuned na mudiadau lleol yn y Trydydd Sector wedi cael eu cynnwys i'r un graddau ag yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i ragweld.

4.32 Mae staff y Clystyrau, yn enwedig y rheini a fu'n gweithio o dan strwythur blaenorol Cymunedau yn Gyntaf, wedi gorfod addasu i gynnal gweithgareddau â phwyslais mwy penodol o lawer, yn enwedig yn yr elfen Iachach. Fel y rhagwelwyd, yr elfen hon yw'r un anoddaf i'w chyflawni, ac mae'r Clystyrau sydd wedi llwyddo i oresgyn hyn wedi gwneud hynny drwy ymgysylltu'n llwyddiannus â phartneriaid cyflawni sydd â'r arbenigedd a'r sgiliau perthnasol.

4.33 Ar y cyfan, mae ail-lunio ffiniau daearyddol Cymunedau yn Gyntaf wedi cyflawni'r nod o sicrhau bod adnoddau'n mynd i'r man iawn. Er hynny, mae elfennau daearyddol amrywiol Clystyrau yn achosi heriau wrth gynnal gweithgareddau, fel yr eglurir yn y bennod hon. Mewn ardaloedd mwy gwledig yn arbennig, mae angen cael cydbwysedd rhwng sicrhau bod màs critigol Clystyrau yn ddigon mawr o ran poblogaeth, ac nad ydynt o dan anfantais oherwydd cymhlethdodau daearyddol eu hardal.

[39] Diffinnir 'nifer' fel nifer y gweithgareddau yng Nghynllun Cyflawni 2014/15 neu yn nata Ffynnon 2013/14 a roddwyd i dîm y gwerthusiad, h.y., mae gweithdy cyflogadwyedd yn cael ei ddiffinio fel un gweithgaredd, er y byddai'n gallu cael ei gynnal eto neu'n wythnosol.

## 5 Effeithiolrwydd y Broses Gyflawni

5.1 Er bod y dystiolaeth ynghylch graddfa a natur y gweithgareddau sydd wedi cael eu cynnal, ac sy'n cael eu cynnal, wedi'i chyflwyno yn y bennod flaenorol, mae'r bennod hon yn ystyried i ba raddau mae'r prosesau cynllunio a chyflawni a roddwyd ar waith hyd yma wedi bod yn effeithiol.

5.2 Wrth wneud hynny mae'r bennod hon yn defnyddio tystiolaeth o'r arolwg ar-lein a'r gwaith ansoddol a wnaed er mwyn ystyried y cwestiynau canlynol:

- Sut mae gwaith partneriaeth, gwaith Cynnwys y Gymuned a gwaith ar draws Clystyrau, ynghyd â dysgu ar y cyd, wedi helpu'r broses gyflawni?
- Faint o gynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd sydd wedi cael eu cynnwys yn y broses o gyflawni Cymunedau yn Gyntaf?
- Sut mae'r broses o gyflawni Cymunedau yn Gyntaf wedi bod yn cydymffurfio â Strategaeth y Gymraeg?

**Prosesau cynllunio gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf**

5.3 Mae'r dull mwyaf effeithiol o gynllunio gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf yn gyfuniad o'r dulliau a eglurwyd ym Mhennod 4 – cyfuno elfen gadarn o'r brig i lawr er mwyn rhoi pwyslais strategol i Glystyrau ar gysylltu gweithgareddau â chanlyniadau, a sicrhau cyfraniad lleol er mwyn gwneud yn siŵr bod y gweithgareddau'n addas i'r gymuned leol, a manteisio i'r eithaf ar y cysylltiadau a'r sgiliau sy'n bodoli'n barod ar yr un pryd.

5.4 Er mwyn mynd ati'n effeithiol i gynllunio gweithgareddau sy'n sicrhau'r canlyniadau sydd eu hangen ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf, dylai'r CCA a'r Clystyrau fod wedi ymgysylltu'n effeithiol â mudiadau yn y Trydydd Sector a phartneriaid lleol eraill i sicrhau y byddai modd eu cynnwys yn y gwaith o gynllunio gweithgareddau. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y Rhaglen wedi llwyddo i gyflawni hyn yn gyffredinol, drwy enghreifftiau fel yr un a nodir dros y dudalen.

**Gweithio gydag ysgolion i gynllunio gweithgareddau – enghraifft o astudiaeth achos**

Mae gan un Clwstwr berthynas waith gadarn iawn â'r brif Ysgol Uwchradd sy'n gwasanaethu teuluoedd sy'n byw yn y Clwstwr. Dyma brif nodweddion llwyddiannus y berthynas hon:

- Yn sgil symleiddio'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, dim ond un cyswllt y mae'n rhaid i'r Pennaeth gydweithio ag ef, ac mae hynny wedi arwain at berthynas waith fwy cynhyrchiol;
- Cafodd Pennaeth yr ysgol wahoddiad i gyfarfod cyd-gynhyrchu (a oedd hefyd yn cynnwys Bwrdd y Clwstwr) er mwyn iddo gyfrannu at y gwaith cynllunio ar gyfer 2015/16;
- Mae aelodau o staff Cymunedau yn Gyntaf yn Llywodraethwyr ar Fwrdd yr Ysgol, ac mae hynny'n help i rannu gwybodaeth ddwyffordd; ac
- Ar sail hyn, mae'r Ysgol a'r Clwstwr wedi gallu cydweithio'n llwyddiannus i wneud cais am gyllid o dan y Grant Amddifadedd Disgyblion, a chynnal prosiect llythrennedd a rhifedd llwyddiannus iawn.

5.5 Fodd bynnag, dywedodd rhai Rheolwyr Clwstwr eu bod wedi cael trafferth ymgysylltu â rhai mudiadau lleol yn y Trydydd Sector nad oeddent yn dymuno, neu nad oeddent yn gallu, sicrhau bod eu gweithgareddau yn cyd-fynd â chanlyniadau diwygiedig Cymunedau yn Gyntaf.

5.6 Mae hefyd yn bwysig bod gweithgareddau'n cael eu cynllunio gyda phwyslais pendant ar y canlyniadau perthnasol. Yn ôl tystiolaeth o'r arolwg ar-lein, mae'r Clystyrau yn credu bod cynnwys Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf newydd yn gatalydd i gyflawni hynny. Dywedodd y mwyafrif o'r rhai a atebodd (84%) bod Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn help i gysylltu gweithgareddau â chanlyniadau. Roeddent hefyd yn cytuno mai un o fanteision Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yw ei fod yn helpu i gynnal pwyslais ar ganlyniadau (87%). Hefyd, mae'r ffaith bod canlyniadau'n cael eu targedu gan nifer o weithgareddau fel arfer, fel y gwelwyd yn Ffigur 4.1 yn gynharach yn y bennod flaenorol, yn dangos bod y Clystyrau wedi gwneud yn siŵr bod eu prosiectau'n dilyn y fframwaith canlyniadau yn ôl y bwriad.

5.7 Yn ôl y Clystyrau a fu'n rhan o'r gwaith ansoddol, roedd y dangosyddion MALIC a ddarparwyd yn ddefnyddiol wrth iddynt gynllunio eu gweithgareddau. Ar ben hynny, dywedodd 9 o'r 11 o gynrychiolwyr CCA yn yr arolwg ar-lein fod


dangosyddion poblogaeth Clystyrau yn *ddefnyddiol iawn* neu'n *eithaf defnyddiol* ar gyfer y Cynlluniau Cyflawni.

### Gwaith Partneriaeth a Phlygu Rhaglenni

5.8 Cafodd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei hailgynllunio gyda'r bwriad o gysoni'r Rhaglen â gwasanaethau eraill, yn lleol ac yn genedlaethol, a mentrau trechu tlodi eraill Llywodraeth Cymru. Y disgwyl oedd y byddai Cymunedau yn Gyntaf yn gallu manteisio ar adnoddau a gwybodaeth y rhaglenni a'r gwasanaethau eraill hyn i gynyddu gwerth Cymunedau yn Gyntaf a'r rhaglenni eraill, fel Teuluoedd yn Gyntaf.

5.9 Mae adolygiad o Gynlluniau Cyflawni Clystyrau yn dangos eu cynigion ar gyfer lefel sylweddol o waith plygu rhaglenni, yn bennaf gyda Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Twf Swyddi Cymru. Roedd yr arolwg ar-lein yn cadarnhau hynny, a hefyd yn dangos bod y mwyafrif o Glystyrau wedi dweud eu bod yn gweithio gyda rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru wrth gynnal gweithgareddau. Mae Ffigur 5.1 isod yn dangos hyd a lled y gwaith partneriaeth, ac mae rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru fel Twf Swyddi Cymru, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn amlwg iawn.

Ffigur 5.1: Gwaith partneriaeth yn ôl yr arolwg ar-lein




Ffynhonnell: Yr holl ymatebion i'r holiadur ar-lein ar gyfer cynrychiolwyr CCA a Rheolwyr Clystyrau (45), Dyddiadau gwaith maes: 5ed Mehefin – 11eg Gorffennaf 2014.

Ffynhonnell: Ipsos MORI

5.10 Y tu hwnt i hyn, mae'r cyfweliadau ansoddol a'r gwaith astudiaeth achos wedi pwysleisio bod timau'r Clystyrau yn gweithio gydag amrywiaeth eang o bartneriaid lleol a chenedlaethol wrth gyflawni'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a bod y partneriaid hyn hefyd yn hanfodol wrth gynnal gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r enghraifft isod yn dangos sut gall partneriaid gael effaith gadarnhaol ar y broses gyflawni.

**Cyfraniad partneriaid at y broses o gyflawni'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf – enghraifft o astudiaeth achos**

Roedd un Rheolwr Clwstwr yn gadarnhaol iawn am allu Cymunedau yn Gyntaf i weithio mewn partneriaeth, a'r profiad o wneud hyn yn y Clwstwr.

Mae'r Clwstwr wedi ymgysylltu ag amrywiaeth eang o bartneriaid cenedlaethol a lleol, fel:

- WEA Cymru
- Cyngor ar Bopeth Cymru
- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Coleg Cambria
- Bwrdd iechyd lleol
- Ysgolion lleol

Mae'r partneriaid hyn i gyd wedi cael eu henwi a'u dewis fel partneriaid sy'n gwneud cyfraniad hanfodol at y broses o gyflawni'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn y Clwstwr. Mae'r partneriaid yn cynnig arbenigedd a gwybodaeth i'w hychwanegu at dîm y Clwstwr, er enghraifft mae'n debyg bod WEA Cymru wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol yn sgil y cyrsiau dysgu maent wedi'u darparu.

5.11 Gall partneriaid gynyddu gwerth Cymunedau yn Gyntaf drwy gynnwys staff medrus sydd eisoes yn gweithio yn y cymunedau lleol ac sydd – oherwydd y rhwydweithiau sy'n bodoli'n barod, yn enwedig gyda grwpiau anodd eu cyrraedd – yn ennyn ffydd pobl yn y cymunedau lleol. Mae'r diwygiadau i'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi helpu i godi proffil strategol y Rhaglen, ac mae Clystyrau yn gweld bod partneriaid (fel ysgolion sy'n ymwneud â'r Grant Amddifadedd Disgyblion) yn fwy parod i weithio gyda hwy nag yn y gorffennol. Mewn rhai achosion, mae rhaglenni eraill bellach yn cysylltu â'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf er mwyn bod yn bartner, yn hytrach na bod rhaid i'r Clystyrau fynd i chwilio am bartneriaid cyflawni eu hunain.

5.12 Fodd bynnag, mae llawer o'r cysylltiadau hyn yn dyddio'n ôl i'r cyfnod cyn ad-drefnu Cymunedau yn Gyntaf. Er bod nifer o enghreifftiau o weithgareddau'n cael eu teilwra'n benodol i gyflawni'r canlyniadau presennol, roedd rhai o'r gweithgareddau'n cael eu cynnal yn barod fel rhan o'r cyfnod blaenorol. Mae'n amlwg bod rhai partneriaid yn gweld Cymunedau yn Gyntaf fel ffynhonnell gyllid ychwanegol, sy'n eu galluogi i barhau i gynnal eu gweithgareddau presennol.

*Dim ond ffynhonnell gyllid arall* [yw Cymunedau yn Gyntaf]. *Rydyn ni'n gwneud fel y mynnwn, ac wedyn yn gweld ydy Cymunedau yn Gyntaf yn cyd-fynd â hynny.*

**Partner Cyflawni Cymunedau yn Gyntaf**

5.13 Fel yr eglurir uchod, dyma raglenni eraill Llywodraeth Cymru y mae Cymunedau yn Gyntaf yn cydweithio â hwy fwyaf: Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Twf Swyddi Cymru a'r Grant Amddifadedd Disgyblion. Dywedwyd mai un o'r buddiannau o weithio gyda Cymunedau yn Gyntaf yw'r gallu i ehangu cwmpas y gweithgareddau, gan fod gan y rhaglenni gynulleidfaoedd targed gwahanol. O safbwynt Cymunedau yn Gyntaf, dywedwyd ei bod yn hawdd gweithio gyda Teuluoedd yn Gyntaf oherwydd cylch gwaith eang y Rhaglen ac nad oedd llawer o gyfyngiadau daearyddol. Mae'r dulliau o gydweithio â rhaglenni yn amrywio ar draws ardaloedd y Clystyrau, ac mae'r astudiaethau achos yn awgrymu bod i ba raddau mae rhaglenni yn cydweithio â Cymunedau yn Gyntaf yn deillio'n aml o'r cysylltiadau personol a'r hanes sydd rhwng aelodau'r staff sy'n gyfrifol am y rhaglenni yn lleol.

5.14 Fodd bynnag, dywedodd cynrychiolwyr rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru a oedd yn rhan o'r gwerthusiad bod gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf yn arwain at heriau hefyd. Mae un enghraifft o hynny yn ymwneud â Dechrau'n Deg. Dywedwyd mewn un ardal Corff Cyflawni Arweiniol bod cystadleuaeth bron, o ran Cymunedau yn Gyntaf, ynghylch pa raglen fyddai'n cynnal gweithgareddau pan roedd y grwpiau targed yn gorgyffwrdd. Arweiniodd hyn at bryderon ynghylch sut mae hynny'n effeithio ar y gwaith mae Dechrau'n Deg wedi bod yn ei wneud yn yr ardal ers ei lansio.

*Mae gennych dimau sy'n mynd ati i ddatblygu gwasanaethau sydd eisoes ar waith, neu sydd ddim yn dilyn cyfeiriad strategol y gwaith hwnnw, neu mae'n bosib nad oes ganddyn nhw'r bobl broffesiynol briodol i arwain hynny......felly mae hynny'n creu sefyllfa lle mae teuluoedd yn cael negeseuon cymysg iawn gan wahanol raglenni ynghylch beth yw'r arfer gorau a beth ddylen nhw fod yn ei wneud.*

**Rheolwr Gweithredol, Rhaglen sy'n Bartner i Cymunedau yn Gyntaf**

**Cynnwys y Gymuned**

5.15 Ym model rhesymeg y Rhaglen, nodwyd bod cynnwys y gymuned wrth gynllunio, cyflawni a monitro Cymunedau yn Gyntaf yn weithgaredd craidd ar gyfer y Rhaglen, gan mai'r bobl leol sydd yn y sefyllfa orau i ddeall beth sydd ei angen arnynt i wella eu sefyllfaoedd.

5.16 Er bod pob Clwstwr wedi llunio Cynllun Cynnwys y Gymuned, maent wedi dehongli'r syniad o Gynnwys y Gymuned mewn sawl ffordd; o gynnwys y gymuned yn y gwaith o gynllunio a chynnal gweithgareddau, i gynnwys aelodau'r gymuned wrth oruchwylio Bwrdd Clwstwr (mae hyn yn cael ei drafod yn fanylach isod).

5.17 Gellir ystyried Cynnwys y Gymuned fel elfen sydd, yn fwy na dim, yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni tri phrif swyddogaeth Cymunedau yn Gyntaf: cynllunio gweithgareddau; cynnal gweithgareddau; a monitro a goruchwylio'r broses gyflawni yn lleol yn barhaus. Mae'r Clystyrau wedi mabwysiadu amrywiaeth o ddulliau ar gyfer yr holl agweddau hyn ar gynnwys y gymuned. At ei gilydd, cymysg yw'r dystiolaeth ynghylch a yw aelodau'r gymuned wedi ymgysylltu'n effeithiol â holl gamau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar lefel leol.

5.18 Mae Clystyrau wedi ceisio ymgysylltu â'u cymunedau mewn ffyrdd sy'n addas i'r amgylchiadau lleol. Mae hyn yn gallu golygu addasu sut maent yn delio â heriau, fel elfennau daearyddol mewn Clystyrau gwledig sydd ar wasgar.

5.19 Mae nifer o Glystyrau yn defnyddio Byrddau Clwstwr fel ffordd o ymgysylltu â phreswylwyr lleol, er nad ydynt yn un o ofynion y Rhaglen mwyach. O blith y 45 o Reolwyr Clwstwr a holwyd, dywedodd 31 ohonynt eu bod yn defnyddio Bwrdd Clwstwr fel ffordd o sicrhau eu bod yn cynnwys y gymuned. Mae'r Byrddau hyn yn tueddu i gynnwys cynrychiolwyr lleol sydd wedi cael eu

hethol, cynghorwyr lleol, darparwyr ac arbenigwyr datblygu cymunedol. Fodd bynnag, mae'r gwerthusiad hwn yn awgrymu bod perygl nad yw'r Byrddau hyn yn llawer mwy nag ymarfer i dicio blwch os nad yw'r preswylwyr yn cael eu cynnwys yn iawn ac yn gallu ymgysylltu â'r Rhaglen. Wrth gyhoeddi canllawiau ar gyfer cynnwys y gymuned, roedd Llywodraeth Cymru yn awyddus i osgoi sefyllfa lle mae Byrddau Clwstwr yn cynnwys gormod o gynrychiolwyr etholedig, fel y trafodir yn yr enghraifft isod. Felly er mwyn iddynt fod yn effeithiol, dylai'r Byrddau Clwstwr a'u haelodau gael rôl a chylch gwaith sydd wedi'u ddiffinio'n glir.

**Profiad preswylydd lleol o Fwrdd Clwstwr – enghraifft o astudiaeth achos**

Mae Joan yn eistedd ar y Bwrdd Clwstwr lleol, sy'n cyfarfod bob mis. Mae hi'n disgwyl eistedd ar y Bwrdd am 3-4 blynedd, ac mae'n deall mai cynrychioli barn y gymuned leol yw ei rôl hi.

Yn rhinwedd y rôl hon, mae Joan wedi cael gwahoddiad i wneud sylwadau ar y Cynllun Cyflawni. Fodd bynnag, mae hi'n teimlo bod naws a chynnwys y cyfarfodydd yn rhy ffurfiol ac yn anodd ei ddilyn iddi hi allu cyfrannu.

Dywed Joan bod y Bwrdd yn canolbwyntio gormod ar *"Fusnes y Cyngor"* erbyn hyn, a bod *"gormod o wleidyddion ar y Bwrdd bellach"*. Er enghraifft, mae'r cyfarfodydd diweddar wedi cael eu llywio gan drafodaethau am toriadau i gyllid y Cyngor, yn hytrach na thrafod prosiectau Cymunedau yn Gyntaf a'r gymuned leol.

Mae Joan hefyd yn dweud bod y ffaith bod y cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda'r nos yn golygu nad yw rhai trigolion yn gallu mynd iddynt oherwydd materion yn ymwneud â gofal plant.

5.20 Mae'r Clystyrau hefyd wedi llwyddo i ddangos enghreifftiau gwirioneddol o arferion da o ran cynnwys y gymuned, megis:

- Cynnal cyfarfodydd cyhoeddus mawr er mwyn cyfrannu at gynllun gweithgareddau'r Clystyrau, a all fod yn effeithiol o ran sbarduno newidiadau mewn cynlluniau ar gyfer llunio a chyflwyno mewn Clystyrau.

*Gwelsom lawer o'r hyn y byddwn i'n ei alw'n gwsmeriaid, pobl go iawn o'r gymuned sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Roeddent yn rhan o'r broses honno. Fe wnaethant gyfrannu'n helaeth at y broses honno. Fe wnaethant gyflwyno eu syniadau. Fe wnaethom newid pethau gan eu bod nhw'n dweud pethau fel "A*

*dweud y gwir, rydw i'n defnyddio'r gwasanaeth ond ni fyddwn i'n ei ddefnyddio fel yna".*

**Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol**

- Mae Clystyrau eraill wedi llwyddo i gynnwys preswylwyr lleol drwy weithredu fel gwirfoddolwyr wrth gynnal gweithgareddau, gan eu hadnabod oherwydd iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau Cymunedau'n Gyntaf. Gall hyn sicrhau manteision i'r Rhaglen ac i'r unigolyn, gan helpu i'w harwain at ganlyniadau gwell, fel y dangosir yn yr astudiaeth achos isod.

**Annog y gymuned i gymryd rhan drwy wirfoddoli - enghraifft o astudiaeth achos**

Mae gan un Clwstwr draddodiad cryf o annog pobl leol i helpu i gynnal gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf drwy rôl wirfoddoli. Gwelwyd nifer o enghreifftiau da o sut mae hyn wedi bod o fudd i'r Rhaglen ac i'r unigolyn:

- Roedd un rhiant wedi cael gwahoddiad i wirfoddoli mewn cynllun chwarae. Disgrifiodd y rhiant yr ymdeimlad o gyfrifoldeb a'r balchder a roddodd hyn iddi, a'r cyfraniad y mae'r gwaith wedi'i wneud i'w helpu i oresgyn ei phroblem flaenorol gyda chamddefnyddio alcohol.
- Estynnwyd gwahoddiad yn ddiweddarach i ddefnyddiwr gwasanaeth a oedd yn manteisio ar y cynllun er mwyn cael gofal plant i wirfoddoli er mwyn helpu i gynnal gweithgaredd Cymunedau yn Gyntaf. Yn y pen draw, fe arweiniodd y rôl hon hi at radd prifysgol mewn gwaith chwarae a swydd gyflogedig fel Rheolwr Parc Chwarae. Mae hi bellach yn gweithio'n agos gyda Rheolwr y Clwstwr ac yn helpu i lunio'r cynlluniau cyflwyno, i fonitro canlyniadau ac i gyflwyno adroddiadau i'r CCA. Mae ei llwyddiant hefyd wedi annog pobl eraill yn y gymuned i ymgymryd â rolau gwirfoddoli.

- Serch hynny, dangosodd yr arolwg ar-lein yr amrywiaeth o ran i ba raddau y mae'r Clystyrau wedi llwyddo i sicrhau cefnogaeth gan wirfoddolwyr. Nododd 10 o 34 o'r Clystyrau a ymatebodd mai mynediad cyfyngedig i gefnogaeth wirfoddol oedd ganddynt (hyd at 9 diwrnod y mis), tra roedd 11 o'r Clystyrau yn llwyddo i elwa ar dros 25 diwrnod o amser gwirfoddolwyr bob mis.

**Cynnwys cynulleidfaoedd anodd eu cyrraedd**

5.21 Pan gafodd Cymunedau yn Gyntaf ei ailgyfeirio yn 2012, un o nodau'r Rhaglen oedd targedu gweithgareddau ar gyfer y grwpiau mwyaf agored i niwed, sy'n aml y grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd. I'r perwyl hwn, dylai'r Clystyrau wedi ystyried yn ddwys ddulliau ar gyfer ymgysylltu â'r bobl fwyaf anodd eu cyrraedd wrth baratoi eu Cynlluniau Cyflawni a'u Cynlluniau Cynnwys y Gymuned.[40]

5.22 Mae targedu ac ymgysylltu'n llwyddiannus â grwpiau anodd eu cyrraedd yn her sylweddol i dimau'r Clystyrau. Dim ond un ymatebydd o bob pump (21%) a lenwodd yr arolwg ar-lein wnaeth nodi eu bod yn ymgysylltu'n helaeth ag aelodau mwyaf anodd eu cyrraedd y gymuned. Roedd y Clystyrau a nododd eu bod yn llwyddo i gyflawni hyn yn defnyddio technegau arferion gorau megis:[41]

- gweithio'n agos gyda mudiadau partner lleol, yn aml o'r Sector Gwirfoddol a'r Trydydd Sector (neu ysgolion), i fanteisio ar y ffordd maent wedi ymgorffori yn y gymuned; a
- chynnal presenoldeb cryf a chyson yn y gymuned. Gellir defnyddio hyn fel abwyd i ddenu grwpiau anodd eu cyrraedd cyn eu cael i gymryd rhan mewn gweithgareddau mwy penodol e.e. curo drysau neu ddigwyddiadau cymunedol. Yn wir, yn yr arolwg ar-lein nododd yr ymatebwyr sesiynau allgymorth, sesiynau blasu, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau cymunedol fel y prif ddulliau o ymgysylltu (Tabl 5.1 isod).

---

[40] Canllawiau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf 2013 (Atodiadau), http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidance13cy.pdf darllenwyd ar-lein ar 21ain Tachwedd 2014.

[41] Nid oedd data ar gael am y buddiolwyr a lwyddwyd eu cyrraedd, y tu hwnt i'r rhifau crai, felly nid yw wedi bod yn bosibl llunio asesiad meintiol yn nodi i ba raddau y llwyddwyd i ymgysylltu â'r grwpiau anodd eu cyrraedd/mwyaf agored i niwed.

Tabl 5.1: Y prif ddulliau o ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd

| **Dull ymgysylltu** | **Y ganran a nododd y dulliau canlynol fel y rhai mwyaf effeithiol** |
|---|---|
| Allgymorth | 100% |
| Sesiynau blasu | 96% |
| Digwyddiadau cymunedol | 87% |
| Cyfryngau cymdeithasol | 87% |

*Ffynhonnell: Arolwg Ipsos MORI/Wavehill o 45 o Reolwyr Clwstwr a chynrychiolwyr o'r CCA*

5.23 Wrth dargedu grwpiau anodd eu cyrraedd, mae timau'r Clystyrau wedi ystyried p'un ai a ydynt yn marchnata'r Rhaglen i'r ardal gyfan, neu a ydynt yn canolbwyntio ar godi eu proffil ymysg eu prif gynulleidfaoedd targed. Ceir manteision i bob dull: gall strategaeth farchnata eang helpu i ymgysylltu â phobl nad ydynt yn ymateb i ddulliau penodol sy'n eu targedu; a gall canolbwyntio ar godi proffil ymysg cynulleidfaoedd targed penodol helpu i frwydro yn erbyn unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â chymryd rhan mewn gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf. Mae nodau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn canolbwyntio'n benodol ar gynnwys strategaeth gyfathrebu ar lefel Clwstwr a *"ddylai sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol a'r preswylwyr lleol yn cael gwybod am waith y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn yr ardal. Dylai hefyd sicrhau, gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau, fod yr hyn a gyflawnwyd gan y Clwstwr yn cael cyhoeddusrwydd priodol."*[42] Ar y sail hon, mae'n ymddangos mai strategaeth farchnata eang fyddai'r ffordd fwyaf briodol o gyflawni nodau'r Rhaglen. Petai timau'r Clystyrau yn defnyddio dull mwy cynhwysfawr o broffilio cymunedau, y tu hwnt i ddadansoddi'r data poblogaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, byddai hyn hefyd yn helpu i gyfrannu at y gwaith o ddatblygu strategaethau marchnata. Yn ystod y broses

[42] Canllawiau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf 2013, http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidance13cy.pdf, darllenwyd ar-lein ar 21ain Tachwedd 2014.

werthuso, nodwyd amrywiaeth o strategaethau marchnata, o rai cyffredinol i rai penodol iawn, a cheir enghreifftiau o'r rhain isod.

**Strategaethau marchnata ar gyfer y grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd - enghreifftiau o astudiaethau achos**

- **Enghraifft 1:** Cynnal digwyddiadau i'r gymuned gyfan er mwyn codi ymwybyddiaeth o Gymunedau yn Gyntaf. Pan fyddai pobl yn eu mynychu, byddent yn targedu'r grwpiau roeddent yn teimlo bod angen cefnogaeth Cymunedau yn Gyntaf arnynt.
- **Enghraifft 2:** Targedu ardaloedd yn hytrach na grwpiau o bobl. Cyfuno rhaglenni yn yr ardaloedd hyn (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf), er mwyn targedu'r bobl sydd fwyaf mewn angen
- **Enghraifft 3:** Defnyddio ysgolion fel ffordd o dargedu teuluoedd drwy ymgysylltu â'r plant i ddechrau - naill ai rhieni mewn ardal ddaearyddol benodol neu rieni unigol y gwyddys eu bod wedi'u hymddieithrio.
- **Enghraifft 4:** Codi ymwybyddiaeth a chynyddu niferoedd ar gyfer y prosiect pontio ysgolion cynradd ac uwchradd drwy ymweld â'r teuluoedd perthnasol yn eu cartrefi.


5.24 Mewn rhai ardaloedd mae'r preswylwyr mwyaf anodd eu cyrraedd yn cynnwys y rheini nad ydynt yn meddu ar sgiliau iaith Gymraeg na Saesneg. Mewn rhai ardaloedd, er enghraifft, mae cymunedau mawr o bobl o Wlad Pwyl, Portiwgal neu Asia. Mae'r Clystyrau wedi ceisio mynd i'r afael â'r anghenion ieithyddol hyn mewn ffordd bragmataidd, os oes modd.

**Gweithio ar draws Clystyrau a dysgu ar y cyd**

5.25 Ac ystyried yr heriau sy'n wynebu Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf o ran cynllunio a chynnal gweithgareddau yn lleol ers y broses ailstrwythuro, fel y trafodwyd yn y bennod hon a'r bennod flaenorol, mae hwyluso'r broses o weithio a dysgu ar y cyd ar draws Clystyrau ar hyd a lled Cymru yn rhan bwysig o ddatblygiad parhaus y Rhaglen. Yn wir, roedd hyn yn un o brif elfennau'r Mentrau sy'n Gweithredu ar Sail Ardal (MGSA) a adolygwyd ar ddechrau'r gwerthusiad hwn (Atodiad 1). Gall dysgu ar y cyd ddigwydd mewn sawl ffordd. Gall ddigwydd drwy weithio ar draws Clystyrau ar lefel leol, neu drwy sesiynau dysgu ffurfiol wedi'u trefnu gan Lywodraeth Cymru ar lefel ranbarthol neu genedlaethol.

5.26 Mae gweithio ar draws Clystyrau yn fwy cyffredin mewn ardaloedd CCA, ond ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd o weithio ar draws ardaloedd CCA. Mae Ffigur 5.2 isod yn tynnu sylw at y prif ffyrdd lle nodwyd bod cydweithio ar draws Clystyrau wedi digwydd. Nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr eu bod yn gweithio gyda Chlystyrau eraill yn eu hardal CCA er mwyn *cynllunio ar y cyd* a *rhannu adnoddau*.

Ffigur 5.2: Cofnod o gydweithio ar draws Clystyrau




5.27 Mae'r broses ymgysylltu hon yn canolbwyntio'n bennaf ar gydweithio er mwyn rhannu syniadau, profiadau, gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau. Er enghraifft, mae un Clwstwr yn helpu un arall o Gorff Cyflawni gwahanol i efelychu ei fodel ar gyfer cynnal digwyddiad ymgysylltu llwyddiannus ym maes iechyd. Caiff hyn ei gyflawni drwy gynnal cyfarfodydd rhwng yr arweinwyr Iechyd priodol. Fodd bynnag, unwaith eto, mae llawer o'r gwaith hwn yn dibynnu ar berthynas bersonol unigol ac nid yw'n cynrychioli diwylliant cyffredin yr holl dimau dan sylw. Mae rhai Clystyrau mewn ardaloedd CCA yn rhannu staff, ac mae hyn yn creu cyfrwng mwy effeithiol i rannu syniadau ac arferion gorau. Mewn ychydig o achosion, roedd y Clystyrau wedi dechrau, neu'n gobeithio dechrau, rhannu adnoddau drwy gynnal gweithgareddau ar y cyd ar draws ffiniau'r Clystyrau, fel y nodir yn yr enghraifft isod. Byddai hyn yn fanteisiol iawn mewn Clystyrau mwy gwledig a chanddynt lai o boblogaeth, lle

nad yw bob amser yn bosibl cynnal gweithgareddau i gynulleidfaoedd unigryw.

*Rwyf hefyd newydd anfon fy nghynllun cyflenwi drafft at [enw'r Clwstwr] gan ein bod yn ffinio gyda nhw ac rwy'n gobeithio y bydd modd i ni gydweithio ar rai prosiectau.*

**Rheolwr Clwstwr**

5.28 Yn ogystal â hyn, mae rhai prosesau a strwythurau ar waith ar gyfer hwyluso'r broses o weithio ar draws Clystyrau ac ar draws ardaloedd CCA, ond mae modd eu gwella ymhellach. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cyfarfodydd rhanbarthol, a'r bwriad oedd y byddent yn fforymau ar gyfer rhannu gwybodaeth ac arferion gorau yn effeithiol rhwng Clystyrau. Er mai bwriad Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod y Clystyrau yn teimlo mai nhw sy'n llywio'r cyfarfodydd hyn, nid yw'r Rheolwyr Clwstwr yn teimlo bod hynny wedi gweithio eto ac ar hyn o bryd, maent yn teimlo bod y cyfarfodydd yn gyfle i Lywodraeth Cymru ddarparu cyfarwyddiadau a diweddariadau o'r brig i lawr.

**Cydymffurfio â Strategaeth y Gymraeg**

5.29 Nod Llywodraeth Cymru, drwy Strategaeth y Gymraeg,[43] yw annog hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a 'chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg ym mywyd bob dydd'. Mae Strategaeth y Gymraeg yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau 'safle'r Gymraeg o fewn y gymuned' yn benodol.[44] Fel y nodir yn y canllawiau a ddarparwyd i'r Clystyrau, er nad yw Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn o ofynion penodol o ran defnyddio'r Gymraeg, mae wedi pennu camau strategol a gweithredol y mae disgwyl i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf eu dilyn, fel yr amlinellir isod:

[43] Strategaeth y Gymraeg, http://wales.gov.uk/topics/welshlanguage/policy/living/?skip=1&lang=cy
[44] Canllawiau Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf 2013, Atodiadau, http://wales.gov.uk/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidanceappendicies13cy.pdf

**Camau strategol,** i gyfrannu at y nod o gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned, gan gynnwys:

- datblygu cynigion cadarnhaol i ddangos y gallant gyfrannu at gryfhau sefyllfa'r Gymraeg yn y gymuned.
- ystyried sut y gallant hyrwyddo'r Gymraeg yn eu Cynlluniau Cynnwys y Gymuned;
- ymgysylltu â'u Menter Iaith leol i gael cyngor a chymorth ynglŷn â sut orau i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg a, lle bo'n briodol, sut i weithredu'n ddwyieithog;
- cynnal digwyddiadau neu weithgareddau wedi'u teilwra ar gyfer yr ardal leol drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gynnal digwyddiad yn Saesneg neu mewn iaith arall a fydd yn galluogi gwell gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Gymraeg a'r diwylliant y mae'n ei gynrychioli;
- gwella dealltwriaeth o anghenion ieithyddol a diwylliannol (y gorffennol a'r presennol) ardaloedd Clwstwr unigol drwy ymgysylltu â'u Menter Iaith leol yn gynnar i gael cyngor a chymorth o ran y ffordd orau o ddatblygu defnydd o'r Gymraeg drwy roi cynllun gweithredu iaith ar waith; a
- meithrin cysylltiadau gyda chlybiau cymdeithasol a sefydliadau Cymraeg er mwyn helpu i roi cynllun gweithredu iaith ar waith.

Mae'r **camau gweithredol,** o ran delwedd gyhoeddus y Clystyrau a'r ffordd y maent yn cyfathrebu â'r cyhoedd yn cynnwys y canlynol:

- sicrhau bod yr holl hysbysiadau, hysbysebion a deunyddiau hyrwyddo cyhoeddus, o ran swyddi a digwyddiadau, yn Gymraeg ac yn Saesneg;
- sicrhau bod yr holl eiriau mewn logos a "stribedi sloganau" a ddefnyddir gan Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân;
- sicrhau bod teitl dwyieithog i holl ddeunyddiau cyfathrebu'r Clystyrau, ac arddangos y teitl hwnnw ar y deunyddiau hynny;
- ystyried a ddylai'r gallu i ddeall, siarad a/neu ddarllen ac ysgrifennu'n Gymraeg fod yn ofynnol ar gyfer rhai swyddi a hysbysebir - yn enwedig pan fydd angen i ddeiliad y swydd ddelio â nifer fawr o siaradwyr Cymraeg;

- ystyried cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd Clwstwr yn ogystal â chyfarfodydd cyhoeddus er mwyn sicrhau cyfle cyfartal i siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn y gymuned i gyfrannu at fusnes y Clystyrau. Gellir caniatáu eithriadau pan mae'n gyfarfod sydd wedi hen ennill ei blwyf a bod pawb sy'n bresennol yn siarad dim ond un iaith, a bod honno yr un iaith, neu nad oes neb yn awyddus i gael papurau yn y ddwy iaith;

5.30 Wrth drafod Strategaeth y Gymraeg, nododd y Clystyrau fod llawer o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o amcanion Llywodraeth Cymru o ran y Gymraeg, a'i bod yn glir sut mae'r strategaeth yn berthnasol i Raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'n debyg bod y ffaith bod cyfraniad sylweddol yr awdurdod lleol o ran cynnal a rheoli Cymunedau yn Gyntaf yn helpu i sicrhau hyn. Fel partneriaid Llywodraeth Cymru, byddai disgwyl i awdurdodau lleol fod yn gyfarwydd â Strategaeth y Gymraeg, yn ogystal â bod â phrofiad o gyfrannu at '*Raglen Lywodraethu 2011-16*'.

5.31 Roedd yr enghreifftiau o gyfraniad Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf at ddatblygu'r Gymraeg yn canolbwyntio ar ddarparu deunyddiau wedi'u hargraffu'n ddwyieithog (e.e. dalenni hyrwyddo a thaflenni gwybodaeth) a recriwtio staff dwyieithog i'r tîm canolog er mwyn ymateb i ymholiadau yn Gymraeg. Fodd bynnag, roedd enghreifftiau o ddarparu gweithgareddau a gwasanaethau dwyieithog yn llawer llai cyffredin. Mae'r dystiolaeth hefyd yn awgrymu mewn llawer o achosion mai dim ond ar gais roedd gwasanaethau iaith Gymraeg, er enghraifft llinellau ffôn, ar gael yn aml, yn hytrach na'u bod yn darparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog. Mae'r enghreifftiau hyn yn berthnasol yn bennaf i bennod Camau Gweithredol Canllawiau Cymunedau yn Gyntaf, yn hytrach na'r Camau Strategol.

*Pan fyddwn ni'n llunio taflen yna bydd ar gael yn ddwyieithog, ac mae elfennau dwyieithog ar ein gwefan, ond nid ydyn ni'n gwbl ddwyieithog. Dim ond ar gais y gallwn ni ddarparu gwasanaethau Cymraeg gan nad oes galw amdanyn nhw, er nad ydyn ni'n monitro hyn.*

**Rheolwr Clwstwr**

*Nid ydyn ni'n cyfrannu llawer at y Strategaeth [y Gymraeg]. Nid yw wedi'i nodi fel elfen bwysig, nac fel elfen angenrheidiol, ar unrhyw lefel. Mae'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn ein hardal ni yn isel, ac nid yw wedi'i nodi fel angen sylweddol.*

**Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol**

5.32 Mae'n bwysig nodi bod hyn yn debygol o amrywio'n sylweddol yn ddaearyddol, gan fod cyfran llawer uwch o siaradwyr Cymraeg mewn rhai ardaloedd o Gymru nag eraill. Roedd y cyfyngiadau hyn i ddarpariaeth yr iaith Gymraeg yn gysylltiedig ag anawsterau o ran dod o hyd i staff/partneriaid cyflenwi dwyieithog a goblygiadau ariannol darparu gwasanaeth dwyieithog. Defnyddiwyd y pryderon hyn i gyfiawnhau agwedd fwy ragweithiol o ran y Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd lle roedd y Gymraeg yn cael ei hystyried yn anghyfarwydd ymysg y gymuned leol. Roedd yr asesiad o anghenion lleol o ran iaith yn seiliedig ar wybodaeth leol a defnydd achlysurol o ddata'r cyfrifiad. Serch hynny, nid oedd llawer o dystiolaeth bod unrhyw asesiad ffurfiol wedi'i gyflawni ar ddefnydd cyffredinol o'r Gymraeg mewn Clwstwr, y tu hwnt i'r hyn oedd ar gael drwy ddata'r Cyfrifiad.

### Crynodeb o effeithiolrwydd y broses gyflawni

5.33 Yn gyffredinol, roedd adborth gan dimau'r Clystyrau a chynrychiolwyr o'r CCA yn awgrymu bod cynnydd da yn cael ei wneud yn erbyn y Cynlluniau Cyflenwi a'r Cynlluniau Cynnwys yn y Gymuned, gyda llawer o enghreifftiau o weithgareddau yn ymddangos eu bod yn perfformio'n arbennig o dda. Mae'r fframweithiau y mae'n rhaid i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf weithio yn unol â nhw, o ran cynllunio'r gweithgareddau ar gyfer eu cynnal, wedi bod yn effeithiol iawn i raddau helaeth o ran hwyluso'r broses o gynllunio'r gweithgareddau wedi'u targedu. Mae dangosyddion fel Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) wedi bod yn ddefnyddiol i helpu i ganfod blaenoriaethau lleol a llywio'r gwaith o gynllunio'r gweithgareddau. Fodd bynnag, mae nifer o heriau hefyd wedi'u nodi ym mhob cam o'r broses, fel beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â phreswylwyr lleol yn y broses gynllunio, ac nid yw'r Clystyrau wedi dod o hyd i ffyrdd o'u goresgyn i gyd eto.

5.34 Mae enghreifftiau go iawn o arferion da wedi'u nodi drwyddi draw, fel yr amlinellir yn yr adran hon, ac mae'n bwysig iawn y caiff prosesau dysgu ar y cyd eu hwyluso ymhellach y tu hwnt i ffiniau'r CCA a'r Clystyrau er mwyn sicrhau y caiff yr arferion hyn eu hymgorffori'n gyffredinol.

5.35 Mewn llawer o achosion mae'r Clystyrau yn awyddus i weithio gyda rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru, megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Tra mae'r cydweithio hwn yn cynnig cyfleoedd i dargedu'r rheini mewn angen drwy amryw o ddulliau, pan mae'r gynulleidfa darged neu'r canlyniadau yr anelir atynt yn gorgyffwrdd, mae rhai o staff y rhaglen yn awyddus i gael rhagor o gyngor ynghylch y ffordd fwyaf effeithiol o gydweithio. Bydd rhagor o eglurder gan Lywodraeth Cymru am gylch gwaith bob rhaglen yn helpu i feithrin dulliau agosach, mwy effeithiol o gyflawni gwasanaethau ar y cyd ac yn helpu i sicrhau arbedion effeithlonrwydd posibl.

5.36 Petai'r Clystyrau yn ymgymryd â phrosesau proffilio manylach er mwyn helpu i ganfod y bobl fwyaf anghenus ac anodd eu cyrraedd yn eu hardaloedd, byddai hynny'n helpu i sicrhau eu bod yn gwybod pa weithgareddau y dylid eu targedu ar gyfer y grwpiau hyn. Mae'n debyg yr eir i'r afael â hyn yn rownd nesaf proses ddatblygu'r Cynllun Cyflawni, a fydd yn gallu defnyddio data diweddaraf MALlC.

5.37 Byddai annog Clystyrau i gynnal asesiadau mwy ffurfiol o anghenion y Gymraeg yn helpu i sicrhau bod y Rhaglen yn ymgorffori'r Gymraeg yn fwy rhagweithiol, gan helpu Cymunedau yn Gyntaf i ddarparu cyfraniad mwy cynhwysfawr at gamau Strategol a Gweithredol y Rhaglen yng nghyswllt y Gymraeg.

# 6 Prosesau Monitro ac Adrodd

6.1 Mae'r bennod hon yn asesu pa mor effeithiol y mae'r dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau (ASG) y mae Cymunedau yn Gyntaf yn ei ddefnyddio yn cyfrannu at nodau ac amcanion y Rhaglen ac yn nodi meysydd ar gyfer eu gwella wrth fonitro ac adrodd ar ganlyniadau'r Rhaglen. Mae'r dystiolaeth wedi'i llunio o ymweliadau astudiaeth achos Clwstwr a fu'n ymgysylltu ag amrywiaeth o dimau sydd ynghlwm wrth fonitro ac adrodd yn ogystal ag adolygiadau o ddogfennau cysylltiedig.

## Prosesau monitro

6.2 Mae Canlyniadau Fframwaith Cymunedau yn Gyntaf yn nodi dros 100 o ddangosyddion perfformiad y mae'n rhaid i Glystyrau fonitro perfformiad eu gweithgareddau yn unol â nhw. Rhoddir manylion y dangosyddion perfformiad hyn o dan y tri Chanlyniad ac maent wedi'u trefnu yn ôl 17 o flaenoriaethau sydd wedi'u gwasgaru ar draws y tri phrif ganlyniad (creu cymunedau ffyniannus, cymunedau iachach a chymunedau dysgu).

6.3 Yn unol â'r pwyslais cynyddol ar ymyriadau polisi yn seiliedig ar dystiolaeth, mae Cymunedau yn Gyntaf yn defnyddio'r adnodd ASG fel adnodd rheoli perfformiad er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y Fframwaith Canlyniadau.

6.4 Mae'r adnodd ASG a Fframwaith Canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf wedi cael derbyniad da ar y cyfan gan staff rheoli'r Clystyrau a'r CCA. Maent yn nodi eu bod yn deall yn well gyfeiriad strategol cyffredinol y Rhaglen a gofynion y gweithgareddau a gynhelir yn eu hardaloedd lleol. Mae'r pwyslais ar ganlyniadau hefyd wedi cael derbyniad da gan randdeiliaid allanol Cymunedau yn Gyntaf gan fod hyn yn helpu i egluro cylch gwaith y Rhaglen ac yn helpu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â rhaglenni a pholisïau eraill. Serch hynny, mae'r gofynion monitro yn cynrychioli newid sylweddol mewn diwylliant i lawer o bobl sy'n ymwneud â'r Rhaglen - yn enwedig partneriaid cyflenwi'r Trydydd Sector, ond hefyd staff timau'r Clystyrau sydd efallai o gefndir datblygu cymunedol ar lawr gwlad, neu sydd wedi cael eu trosglwyddo o dimau eraill ac nad oes ganddynt brofiad o fonitro ac adrodd.

6.5 Er mwyn asesu cyflawniadau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn erbyn ei thargedau, mae'r Theori Newid yn tybio y bydd prosesau rheoli perfformiad cryf ar waith er mwyn gallu mesur llwyddiant a phriodoli hynny i'r Rhaglen. Mae hyn yn cynnwys y dybiaeth y caiff yr adnodd ASG ei ddefnyddio'n effeithiol ac y caiff asesiadau ansoddol hefyd eu defnyddio i gyd-fynd â'r data monitro a gofnodir.

6.6 Mae'n rhaid i dimau Cymunedau yn Gyntaf lwytho eu mesurau perfformiad i fyny ar Aspireview, system meddalwedd sy'n cael ei rheoli'n ganolog (y cyfeiriwyd ati fel Ffynnon cyn hyn). Drwy lwytho'r perfformiad i fyny ochr yn ochr â'r canlyniadau a nodir (y mesurau perfformiad), mae'r system wedi'i chynllunio i alluogi Clystyrau, CCA a Llywodraeth Cymru i farnu perfformiad eu gweithgareddau a'u cynnydd yn erbyn y targedau a bennwyd yn eu Cynllun Cyflawni. Mae gan Aspireview gerdyn sgorio hefyd, sy'n rhoi ciplun o asesiad ar berfformiad yn erbyn pob mesur a nodwyd, defnyddio system codau lliw CAG (coch, ambr, gwyrdd) yn dibynnu ar ba mor agos yw'r cyflawniadau at y targedau.

**Dulliau dangos tystiolaeth o ganlyniadau**

6.7 Mae amrywiol ddulliau ar gyfer dangos tystiolaeth o ganlyniadau ar draws Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Caniatawyd llawer iawn o hyblygrwydd o ran y dulliau monitro a fabwysiadwyd gan dimau'r Clystyrau er mwyn casglu'r wybodaeth a ddefnyddir i ddarparu diweddariadau ar gynnydd eu perfformiad yn erbyn y dangosyddion canlyniadau. Er bod Llywodraeth Cymru wedi pennu mesurau perfformiad clir ar gyfer y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, mae timau'r Clystyrau a'r CCA wedi cael rhwydd hynt i raddau helaeth (er eu bod wedi cael cyngor o'r tu allan gan WCVA neu gyrff tebyg weithiau) i benderfynu eu hunain pryd, sut a chan bwy y maent am gasglu gwybodaeth monitro.

6.8 Er bod rhai o'r Clystyrau wedi llunio holiaduron pwrpasol ar gyfer buddiolwyr er mwyn casglu gwybodaeth ganddynt am yr effeithiau, mae eraill yn defnyddio data gweinyddol (megis cofnodion am bobl sy'n derbyn budd-daliadau) ac mae eraill yn ystyried arsylwadau'r staff cyflawni a grwpiau rhanddeiliaid eraill megis athrawon neu weithwyr iechyd. Mewn rhai enghreifftiau (fel y dangosir yn yr astudiaeth achos isod) defnyddir cyfuniad o bob un o'r dulliau hyn. Mae'n debyg bod hyn yn adlewyrchu rhai o'r arferion

gorau ac ystyried y broses driongli a ganiateir er mwyn creu darlun cadarn o gynnydd gweithgaredd.

**Enghraifft o broses fonitro a ddilynir gyda chynllun chwarae i blant**

Dyma'r tri phrif ganlyniad a gafodd eu monitro:

- mwy o weithgarwch corfforol;
- gwella lles meddyliol; a
- lleihau dieithrio cymdeithasol.

Y broses fonitro:

- **Cofrestru'r** plant er mwyn cofnodi pa mor aml maent yn mynychu.
- **Llenwi holiadur gyda'r plant**: gofynnir 18 cwestiwn bob chwarter e.e. faint o bobl maent yn eu hadnabod yn y grŵp (caiff y dangosydd hwn ei gasglu ar ddechrau ac ar ddiwedd y Rhaglen), a ydynt yn teimlo'n hapus / o dan bwysau, beth fyddent wedi bod yn ei wneud pe na baent wedi bod yn y grŵp chwarae ac ati.
- **Llenwi holiadur gyda'r rhieni**: holi am effaith y gweithgaredd ar y teulu cyfan, a gweld a ydynt yn ategu'r adborth y mae'r plant wedi'i roi.
- **Ymgynghori ag athrawon ac ymwelwyr iechyd:** caiff safbwyntiau eu casglu i ategu elfennau eraill o'r dystiolaeth.
- **Amser myfyrio i staff**: bydd staff yn llenwi dyddiaduron er mwyn olrhain newidiadau yn lles y plant drwy gofnodi arsylwadau o'r newidiadau maent wedi'u gweld.
- **Triongli**: caiff yr holl dystiolaeth ei dwyn ynghyd er mwyn creu darlun cadarn o'r cynnydd y mae'r gweithgaredd yn ei wneud.

6.9 Mae'n debyg y gwelir problemau o ran pa mor gadarn yw'r wybodaeth y mae'r Clystyrau yn ei chasglu a'i chofnodi. Mae archwiliad o'r ffordd y caiff data monitro ei gasglu yn tynnu sylw at y problemau a nodir isod. Mewn llawer o achosion, byddai modd goresgyn y problemau hyn drwy gyhoeddi canllawiau a chyngor ar y dulliau mwyaf priodol o gynllunio a gweinyddu adnoddau monitro:

- **Gweinyddu holiaduron buddiolwyr**: caiff aelodau o'r timau cyflawni (gan gynnwys preswylwyr lleol sy'n gwirfoddoli mewn rhai achosion) yn aml y dasg

o gynnal holiaduron gyda defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'r holiaduron hyn yn cofnodi pa mor fodlon oeddent gyda'r gefnogaeth a gawsant, y cwrs roeddent yn bresennol arno, a'u safbwyntiau o ran i ba raddau y mae'r gweithgareddau wedi effeithio ar eu hiechyd, eu lles, eu sgiliau neu unrhyw ganlyniadau bwriedig eraill. Gallai'r ffaith mai'r staff cyflawni sy'n gweinyddu'r holiaduron hyn olygu bod y sawl sy'n cymryd rhan yn rhoi atebion mwy cadarnhaol, ac efallai y byddai o fudd i'r staff cyflawni annog, neu ddehongli, ateb cadarnhaol;

- **Amseriad yr holiaduron**: weithiau caiff gwybodaeth llinell isaf ei chasglu cyn i'r gweithgaredd ddechrau, ac yna caiff hon ei chymharu â'r wybodaeth monitro ac effaith sy'n cael ei chasglu dros gyfnod yr ymyriad, ac yn bwysicach fyth, ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Fodd bynnag, mewn achosion eraill, dim ond ar y diwedd y caiff y wybodaeth hon ei chasglu, a gofynnir i ddefnyddwyr y gwasanaeth roi gwybod bryd hynny a ydynt yn teimlo eu bod wedi gwneud cynnydd ac ystyried y canlyniadau bwriedig.
- **Teilwra'r cwestiynau**: er y caiff rhai cwestiynau pwrpasol eu llunio weithiau (er enghraifft, er mwyn eu haddasu i fod yn addas i blant), mae ymweliadau'r astudiaeth achos hefyd yn nodi enghreifftiau o ddarllen mesurau perfformiad yn uchel fel y noda Llywodraeth Cymru yn y Fframwaith Canlyniadau.
- **Natur y cymryd rhan**: Mae llawer o heriau'n wynebu'r Clystyrau wrth lunio prosesau monitro cadarn gan nad yw natur y gweithgareddau a gynhelir yn aml yn gwbl addas ar gyfer gofynion o'r fath. Er enghraifft, mae'r gweithgareddau yn rhai gwirfoddol mwy neu lai bob amser, a gallant fod yn rhai galw heibio/rhoi'r gorau iddi, ac felly mae'n anodd olrhain canlyniadau'r mynychwyr dros amser.
- **Cael gafael ar ddata eilaidd**: mae rhai Clystyrau yn defnyddio data eilaidd a gweinyddol i helpu i fesur canlyniadau. Er bod manteision i hyn o'i gymharu â data a gofnodir gan y buddiolwyr eu hunain, ac ystyried y problemau a amlinellir uchod, mae hefyd yn cyflwyno heriau. Nodir un enghraifft o hyn isod:

**Un o'r heriau wrth gasglu data monitro - enghraifft**


***Monitro canlyniadau cyflogaeth:***

Er mwyn edrych i weld a yw'r rheini sy'n cael cefnogaeth gan Gymunedau yn Gyntaf wedi llwyddo i gael gwaith (h.y. canlyniad llwyddiannus), caiff rhifau Yswiriant Gwladol (YG) y cyfranogwyr eu cymharu â'r rheini sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra. Serch hynny, mae'r cyfranogwyr yn aml yn amheus bod Cymunedau yn Gyntaf yn mynd i effeithio ar eu taliadau budd-dal ac yn rhoi rhifau YG ffug i'r Rhaglen (amcangyfrifir bod 50% ohonynt yn rhai ffug) ac felly mae'n amhosibl gwybod eu canlyniad.

**Casglu manylion buddiolwyr**

6.10 Yn ogystal â chaniatáu hyblygrwydd gyda phrosesau monitro, nid oes llawer o gyfarwyddyd wedi'i roi ynghylch y math o wybodaeth y dylid ei chasglu yng nghyswllt y rheini sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf. O'r herwydd, nid oedd llawer o gysondeb yn yr arolwg ar-lein o ran sut caiff y data ei gasglu ac fe dybir bod yr un fath yn wir am natur y wybodaeth a gesglir. Er enghraifft, dim ond gwybodaeth gefndir am y cyfranogwyr ar fformat copi caled (ar bapur) y mae 40% (18/45) o'r ymatebwyr wedi ei chasglu, a dim ond ar bapur y mae cyfran debyg 39% (17/45) wedi cofnodi natur y gefnogaeth y mae'r unigolion hynny wedi'i chael, (nododd un ymatebydd na wnaeth gofnodi'r wybodaeth hon o gwbl).

Ffigur 6.1: Monitro'r wybodaeth a gesglir gan dimau Cymunedau yn Gyntaf




## Rolau a chyfrifoldebau monitro

6.11 Mae'n amlwg bod y canlyniadau monitro ac adrodd yn bryder cyffredin ymysg Rheolwyr Clwstwr a'u timau, sy'n teimlo dan bwysau i gyrraedd targedau.

*Mae'r staff cyflawni yn poeni am berfformiad oherwydd os ydy'ch sefyllfa yn goch, mae hynny'n edrych yn ofnadwy o wael i'r llywodraeth sydd â'r pŵer i dorri eich cyllid. Ond mewn gwirionedd rydych chi'n gwneud y gwaith y mae angen i chi ei wneud er mwyn creu newid cynaliadwy, hirdymor ym mywyd rhywun.*

**Cynrychiolydd Corff Cyflawni Arweiniol**

6.12 Mae'r Clystyrau wedi defnyddio dulliau gwahanol i gasglu data monitro - sy'n amrywio o gyflogi swyddogion monitro penodol a chanddynt gyfrifoldeb dros gasglu data a'i roi yn Aspireview, i Reolwyr Clwstwr sy'n ymgymryd â'r rôl hon eu hunain neu mewn ardaloedd eraill, staff cyflawni sy'n cofnodi'r holl ganlyniadau ar ôl pob gweithgaredd ar gronfa ddata wedi ei rhannu a'i theilwra ar gyfer y Clwstwr, lle caiff y data perthnasol ei lwytho i fyny i Aspireview. Mae cofnodi gwybodaeth monitro wedi bod yn heriol i Glystyrau sydd heb ddigon o staff, neu rai a oedd wedi bwriadu cynnal llawer o weithgareddau, ac mae'n ymddangos bod hyn wedi bod yn broses ddysgu.

6.13 Cafodd y systemau a ddefnyddir ar gyfer monitro a chofnodi groeso gan rai, yn enwedig cynrychiolwyr o'r CCA a oedd yn gwerthfawrogi'r mynediad hawdd i grynodeb o'r data ynghylch cyflawni a chanlyniadau. Roedd safbwyntiau'r Rheolwyr Clwstwr yn amrywio, ond roeddent yn llai cadarnhaol yn gyffredinol. Yn benodol, roedd pryderon ynghylch:

- Yr amser a gymerir i gasglu data ar y system a'i chofnodi – gan ddwyn amser a phwyslais oddi ar gyflawni;
- Y ffaith nad oes modd olrhain unigolion dros amser – a allai achosi problemau o ran rhannu canlyniadau â rhaglenni eraill fel Teuluoedd yn Gyntaf;

*Mae'r cyfan yn ymwneud â phwy sy'n eistedd mewn sedd a beth maen nhw'n ei wneud bryd hynny, ond beth am yr hyn sy'n digwydd ar ôl hynny?*

**Gwirfoddolwr Cymunedau yn Gyntaf**

- Y ffaith ei bod yn ymddangos nad oes modd cofnodi canlyniadau meddal, megis y cynnydd a wnaed er mwyn cyrraedd y canlyniadau terfynol, er enghraifft, meithrin mwy o hyder neu ryngweithio cymdeithasol (er y ceir ar ddeall ei bod yn bosibl llwytho elfennau ansoddol i fyny yng nghyswllt y rhain);
- Y ffaith nad oes modd cysylltu gweithgareddau â mesurau perfformiad ar draws sawl ardal (ar draws Cymunedau Dysgu a Chymunedau Llewyrchus er enghraifft);
- P'un ai a oedd yn bosibl cyrraedd lefel y canlyniadau roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt ei chyrraedd, a sut y byddai'r Clystyrau yn cael eu beirniadu ar sail eu canlyniadau monitro. Er bod rhai o'r Rheolwyr Clwstwr yn fodlon bod modd cyfiawnhau cofnodi canlyniadau 'ambr' neu 'goch' hyd yn oed ar Aspireview (yn aml oherwydd i lawer o'r bobl a fu'n cymryd rhan yn y gweithgareddau, nid oedd y canlyniad terfynol wedi'i gyflawni eto ond roedd cynnydd sylweddol wedi'i wneud i arwain defnyddiwr y gwasanaeth at y canlyniad hwnnw), roedd eraill yn teimlo bod yn rhaid iddynt gofnodi canlyniadau 'gwyrdd', ac roeddent hyd yn oed yn trafod sut y byddai modd dehongli'r ffigurau monitro er mwyn sicrhau mai dyma fyddai'r canlyniad;

- O ran yr uchod, y ffaith ei bod yn ymddangos nad oes modd darparu naratif er mwyn cyfiawnhau pam mae'r perfformiad yn erbyn y canlyniadau yn 'ambr' neu'n 'goch'; ac
- Mewn rhai achosion, teimlir bod cyrff arbenigol yn fwy addas i gyflawni'r canlyniadau eithaf (h.y. Dim Smygu Cymru yng nghyswllt rhoi'r gorau i ysmygu) tra mai rôl, yn ogystal â gwerth ychwanegol Cymunedau yn Gyntaf, yw ymgysylltu â buddiolwyr posibl y gwasanaeth hwn, eu dysgu er mwyn iddynt fod eisiau cael cefnogaeth a'u cyfeirio os bydd angen cymorth arbenigol arnynt. Ceir ar ddeall bod lefel y cyllid sydd ar gael ar gyfer y Rhaglen yn mynnu bod yn rhaid iddi gyflawni mwy na dim ond gweithredu fel gwasanaeth cyfeirio, ac mae hyn yn creu tensiwn o ran beth y dylai Cymunedau yn Gyntaf geisio ei gyflawni yn y pen draw.

6.14 Yn ogystal â llwytho gweithgaredd i fyny ar Aspireview yn rheolaidd, mae disgwyl i bob un o'r Rheolwyr Clwstwr gyflwyno adroddiad Clwstwr cryno ar ei weithgareddau a'u cynnydd o fewn eu Clwstwr bob chwe mis. Dylai'r adroddiad hwn roi trosolwg o waith y Clwstwr, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch lefelau cyfranogiad y gymuned a gweithio mewn partneriaeth, yn ogystal â throsolwg o unrhyw rwystrau sylweddol neu broblemau y daethpwyd ar eu traws (yn unol â chanllawiau a thempledi Llywodraeth Cymru). Anogir y Clystyrau i gynnwys astudiaethau achos yn yr adroddiad hwn o gyfranogwyr neu brosiectau unigol sy'n cael cefnogaeth drwy'r Clystyrau, er ei bod yn ymddangos nad oedd rhai o dimau'r Clystyrau yn ymwybodol bod hon yn un ffordd y gallent gyflwyno'r allbynnau ansoddol hyn i Lywodraeth Cymru. Mae'n rhaid cyflwyno Adroddiad Blynyddol ychwanegol hefyd gyda gwybodaeth allweddol am waith y Clwstwr nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau eraill. Nid yw'r adroddiadau chwe misol a blynyddol wedi bod ar gael ar gyfer y gwerthusiad hwn felly nid oes modd gwneud unrhyw asesiad pellach ynghylch effeithiolrwydd, neu safon, yr elfen hon o'r broses monitro ac adrodd.

6.15 Mae rôl sylweddol mudiadau partner lleol, gan gynnwys cyrff gwirfoddol a Thrydydd Sector, o ran cynnal gweithgareddau yn golygu bod angen iddynt hwythau gymryd rhan yn y broses monitro ac adrodd. Mae rhai o'r Clystyrau wedi wynebu heriau wrth geisio annog mudiadau partner i feithrin dull monitro cadarn a thrwyadl. Roedd hyn yn sicr yn wir yn achos y mudiadau hynny a

gafodd eu gwneud yn bartneriaid yn y Rhaglen flaenorol, pan nad oedd yn rhaid iddynt gyflawni'r un gofynion.

*Rwy'n treulio mwy o amser yn y swyddfa a llai o amser yn helpu pobl i gyflawni gwasanaethau.* **Partner Cyflawni Cymunedau yn Gyntaf**

6.16 Er y gall systemau monitro gyfyngu ar y gwasanaeth a gaiff ei gyflawni (drwy greu baich gweinyddol ychwanegol), mae'n anodd dilysu p'un ai a yw'r gwaith yn llwyddo i ymgysylltu â'r grwpiau mwyaf anodd eu cyrraedd ym mhob ardal Clwstwr heb ddeall nodweddion allweddol y rhai sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen.

**Crynodeb o brosesau monitro ac adrodd Cymunedau yn Gyntaf**

6.17 Mae cyflwyno'r Fframwaith Canlyniadau yn cynrychioli gwelliant sylweddol ym mhwyslais y Rhaglen o ran y canlyniadau y mae'n ceisio eu cyflawni. Fodd bynnag, nid yw'r dull amrywiol iawn o fonitro canlyniadau sydd wedi dod i'r amlwg ymysg Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn asesiad cyson a chadarn o'r cynnydd sydd wedi'i gyflawni yn y Rhaglen drwyddi draw. Mae hyn yn bygwth tanseilio gwerth y fframwaith canlyniadau.

6.18 Heb os, mae defnyddio'r broses fonitro ochr yn ochr â'r Fframwaith Canlyniadau wedi bod yn un o'r elfennau mwyaf heriol i dimau'r Clystyrau fynd i'r afael â hi yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae hyn yn canolbwyntio ar ddiffyg dealltwriaeth o sut mae monitro gweithgaredd yn effeithiol yn erbyn rhai o'r canlyniadau. Er bod canllawiau ar gael ynghylch beth yw'r canlyniadau targed, nid oes cymorth yn y Rhaglen er mwyn i dimau'r Clystyrau fonitro eu gweithgareddau yn gadarn yn erbyn y canlyniadau hynny.

6.19 Mae defnyddio'r adnodd ASG gyda'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cynyddu'r risgiau sy'n gysylltiedig â diffyg eglurder o ran prosesau monitro. Mae'r pwyslais ar ganlyniadau ynghyd â defnyddio agwedd ASG ar ddangosfwrdd Aspireview yn ei gwneud yn fwy tebygol y dylanwadir ar y ffordd y caiff y gwasanaeth a ddarperir ei dargedu er mwyn sicrhau statws gwyrdd. Gallai hyn arwain at dargedu poblogaeth yr ardaloedd Clwstwr i gyd (ac yn enwedig y cynrychiolwyr hynny sydd fwyaf tebygol o sicrhau

canlyniadau) ar draul y broses o dargedu'r bobl fwyaf anodd eu helpu/cyrraedd yn yr ardaloedd hyn.

6.20 Er mwyn i'r adnodd ASG weithio yn y ffordd fwyaf effeithiol bosibl mae'n ymddangos felly bod angen fframwaith cadarn a soffistigedig ar waith ar gyfer monitro gweithgareddau nes caiff y canlyniadau eu cyflawni. Efallai ei bod yn anochel y bydd rhoi'r fframwaith hwn ar waith yn arwain at fwy o waith gweinyddol; fodd bynnag, byddai hyn yn sicrhau bod y gweithgareddau'n cael eu targedu'n briodol. Mae perygl serch hynny y gallai casglu data am unigolion (oni chaiff y broses ei chynllunio'n ofalus) danseilio proses gyflwyno'r gwasanaeth. Yn sgil hynny, tynnodd rai o gynrychiolwyr y Clystyrau sylw at effaith bosibl gofyn beth y gellid eu hystyried yn gwestiynau busneslyd er mwyn deall yn well proffil y cyfranogwyr yr ymgysylltir â nhw.

6.21 Yng ngoleuni'r pryderon hyn, mae angen i Lywodraeth Cymru nodi'n fwy clir beth yw disgwyliadau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn erbyn y canlyniadau hyn. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi, ac ystyried y pwyslais ar ymgysylltu â'r bobl fwyaf anodd eu cyrraedd, ei bod yn sylweddoli ei bod yn annhebygol y caiff llawer o ganlyniadau caled eu cyflawni. Fodd bynnag, mae'r Rheolwyr Clwstwr yn nodi heriau o ran ceisio rheoli morâl staff pan mae timau cyflawni yn teimlo nad ydynt yn cyflawni'r holl ganlyniadau gofynnol. Mae gwahanol farn ymysg timau'r Clystyrau ynghylch a yw'n ddigon dangos cynnydd tuag at ganlyniadau, ynteu ai dim ond pan fydd y canlyniadau eithaf wedi'u cyflawni y dylid ei ystyried bod y gwaith yn dderbyniol. Byddai eglurder ynghylch hyn yn helpu timau Cymunedau yn Gyntaf i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phartneriaid ac i sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y caiff gweithgareddau eu cynllunio a lefel y canlyniadau a nodir.

# 7 Casgliadau ac Argymhellion

## Prif gasgliadau

7.1 Caiff Cymunedau yn Gyntaf ei hystyried yn Rhaglen werthfawr gan lawer o'r rhanddeiliaid sydd ynghlwm wrth ei chyflawni. Mae'r ymgysylltiad cyfyngedig y mae'r gwerthusiad hwn wedi'i gael â buddiolwyr y cynllun hefyd yn awgrymu bod y rhaglen yn cael croeso gan gymunedau lleol, a cheir llawer o enghreifftiau o newidiadau cadarnhaol i fywydau'r rheini yn ei hardaloedd targed. Serch hynny, roedd cylch gwaith y gwerthusiad hwn yn astudio'r gwaith o gynllunio a gweithredu'r Rhaglen, ac felly ni chynigir unrhyw gasgliad pendant ynghylch i ba raddau y mae Cymunedau yn Gyntaf yn cyflawni ei amcanion. Yn wir, mae'n debyg y byddai'r broses o asesu canlyniadau'r Rhaglen yn cael ei llesteirio gan ddata'r buddiolwyr a'r wybodaeth monitro gadarn sydd ar gael, yn ogystal â chan gynllun ymyriad ar sail ardal er mwyn sicrhau newid mewn unigolion. Trafodir yr heriau hyn, yn ogystal â'r argymhellion ar gyfer cyflwyno gwerthusiad o'r canlyniadau, yn Atodiad 1.

7.2 Mae'r newidiadau a wnaed i gynllun cyfnod diweddaraf y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (yn dechrau ym mis Ebrill 2012) yn golygu ei bod yn fwy tebygol y bydd y Rhaglen yn cyflawni ei nodau, ac yn llwyddo i fonitro'r cynnydd wrth gyflawni'r nodau hyn yn effeithiol. Mae'r heriau a wynebwyd yn ystod cyfnodau blaenorol y Rhaglen wedi cael eu datrys. Mae'r gwerthusiad hwn wedi dangos tystiolaeth o'r canlynol: rheolaeth ganolog fwy cadarn yn sgil sefydlu'r CCA, a'r gofynion a osodwyd o ran cyflwyno gwybodaeth ynghylch monitro; mae'r amrywiaeth eang o dimau a mudiadau sy'n rhan o'r broses gyflawni yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau; ac, yn gyffredinol, mae cydbwysedd effeithiol rhwng dulliau o gydweithio i gyflawni nodau strategol cenedlaethol a hyblygrwydd wrth gyflawni hynny ar lefel leol.

7.3 Ar y cyfan, mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cadw'n agos iawn at y model cyflawni, fel y dangosir ym model rhesymeg y Rhaglen. Gan fwyaf, mae prif ddylanwadwyr y Rhaglen yn gwneud gwaith cadarnhaol i siapio'r broses gyflawni, ac mae'r cyfleoedd yn theori newid y Rhaglen wedi cael eu gwireddu (fel sicrhau bod trechu tlodi yn un o brif flaenoriaethau Llywodraeth Cymru; sefydlu Fframwaith Canlyniadau Cyffredin gyda'r rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg; a manteisio i'r eithaf ar wybodaeth a chysylltiadau

presennol mudiadau lleol). Wrth edrych ar y dystiolaeth sydd ar gael wrth werthuso, mae’r gweithgareddau sy’n cael eu cynllunio a'u cyflawni gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cyd-fynd yn gyffredinol â chynllun bwriadol y Rhaglen. Byddai modd gwella’r elfen hon ymhellach drwy annog y CCA i osod gofynion llymach ar bartneriaid cyflawni yn y gymuned a'r Trydydd Sector i sicrhau bod eu gweithgareddau’n cyd-fynd â’r canlyniadau yr anelir atynt (lle mae hyn yn bosibl yng nghyd-destun ehangach gofynion cyllidwyr allanol). Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â dehongliad rhai bod Cymunedau yn Gyntaf yn "gronfa gyllid" i ehangu gwasanaethau sy'n bodoli'n barod.

7.4 Mae’r gwerthusiad wedi nodi bod heriau sylweddol yn bodoli o hyd o ran cyflawni a monitro’r Rhaglen yn effeithiol. Mae rhai o’r heriau hyn yn cynnwys gwireddu’r heriau a nodwyd yn y Theori Newid (fel camau darbodaeth sy’n cyfyngu gallu awdurdodau lleol i recriwtio staff allanol), mae rhai yn profi ymarferoldeb y rhagdybiaethau a oedd yn sail i'r Rhaglen (fel cynnwys cymunedau lleol yn effeithiol yn y gwaith o gynllunio a chyflawni’r Rhaglen), tra mae eraill yn deillio o’r newid mewn diwylliant a fynnir gan gynllun newydd y Rhaglen. Y rôl bwysicaf i Lywodraeth Cymru wrth symud ymlaen fydd hybu dull mwy cyson o fonitro gweithgareddau – sy'n amrywio'n fawr rhwng y Clystyrau ar hyn o bryd. Mae angen gwneud hynny er mwyn sicrhau bod modd cymharu ansawdd y canlyniadau sy’n cael eu cofnodi ar gyfer gwahanol weithgareddau ac ardaloedd.

7.5 Er bod y Rhaglen yn cael ei rhoi ar waith yn unol â’r bwriad i raddau helaeth, nid yw hynny’n golygu na ddylai’r model cyflawni gael ei archwilio’n feirniadol. Nod y Rhaglen yw gwella nodweddion ardal yn sylweddol drwy geisio dylanwadu ar ganlyniadau unigol mewn ardaloedd lle mae pocedi o broblemau. Fodd bynnag, mae hyn yn seiliedig ar y rhagdybiaeth allweddol y bydd newid canlyniadau unigol yn cael effaith sylweddol ar nodweddion yr ardal. Byddai profi’r ragdybiaeth hon yn nod bwysig i unrhyw waith gwerthuso canlyniadau yn y dyfodol.

**Crynodeb o arferion da wrth weithredu’r Rhaglen**

7.6 Mae'r adran hon yn crynhoi'r amrywiaeth o arferion da yng nghyswllt gweithredu'r Rhaglen y mae'r gwerthusiad hwn wedi eu hamlygu. Daw'r enghreifftiau o sut mae cynllun polisi Llywodraeth Cymru yn cynrychioli

arferion da, a sut mae'r Clystyrau a'r CCA wedi dangos arferion da er mwyn gweithredu a chyflawni Rhaglen gymhleth yn effeithiol.

7.7 Mae **gwaith partneriaeth** yn sicr yn un o gryfderau Cymunedau yn Gyntaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn hybu a hwyluso gwaith partneriaeth, rhwng Cymunedau yn Gyntaf a Rhaglenni eraill Llywodraeth Cymru, megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg, yn ogystal â'r Trydydd Sector mewn ardaloedd lleol. Mae'r camau a gymerir er mwyn annog hyn yn cynnwys gwaith parhaus i ddatblygu'r fframwaith canlyniadau a rennir ymysg Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Y tu hwnt i hynny, mae'r Clystyrau sydd wedi dangos arferion da drwy waith partneriaeth wedi gwneud hynny drwy fanteisio i'r eithaf ar ymddiriedaeth a rhwydweithiau mudiadau partner lleol yn y gymuned i ddod o hyd i arbedion yn y broses gyflawni ac i dargedu grwpiau anodd eu cyrraedd. Mae hefyd yn hollbwysig cydweithio â gwasanaethau statudol, fel rhai ym meysydd iechyd ac addysg, er mwyn sicrhau bod y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei chyflawni'n effeithiol. Canfu'r gwerthusiad hwn nifer o enghreifftiau o ysgolion, yn benodol, yn gweithio'n agos gyda thimau Cymunedau yn Gyntaf. Roedd cysylltiadau â gwasanaethau iechyd i'w gweld hefyd, ond nid oedd y rheini wedi datblygu i'r un graddau â'r rhai yn y sector addysg o bosibl. Mae'r 'seminarau iechyd', sy'n cael eu trefnu gan WCVA ar hyn o bryd, yn debygol o fod yn ffordd effeithiol o helpu i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach. Mae'r seminarau hyn yn fodd i asiantaethau iechyd yn y trydydd sector rannu eu harbenigedd â thimau Cymunedau yn Gyntaf a rhoi gwybod iddynt am y gwasanaethau maent yn eu cynnig. Maent hefyd yn gyfle i rwydweithio.

7.8 Mae'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru, a phartneriaid **darparu hyfforddiant** fel Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), wedi bod o fudd i'r Rhaglen. Mae'r model sydd wedi'i fabwysiadu i ddarparu cefnogaeth drwy weithdai yn ogystal â sesiynau un-i-un ac ymgynghoriadau dilynol yn effeithiol, a chafwyd adborth cadarnhaol gan y Clystyrau a'r Cyrff Cyflawni Arweiniol ar effaith yr hyfforddiant hwn. Mae'r hyfforddiant parod sydd ar gael wedi cael effaith gadarnhaol ar allu'r Clystyrau i gynllunio eu gweithgareddau'n effeithiol, ac felly gweithredu'r Rhaglen.

7.9 Mae'r gwerthusiad hefyd wedi dangos enghreifftiau o arferion da o ran **dysgu ar y cyd** rhwng Clystyrau. Mae'r enghreifftiau penodol o rannu ar draws ffiniau'r CCA yn galonogol hyd yn oed os nad ydynt yn digwydd yn gyffredinol.

7.10 Mae’r **fframwaith canlyniadau** a bennir ar gyfer y Rhaglen gan Lywodraeth Cymru hefyd yn enghraifft bwysig o arferion da yn sgil ailgynllunio’r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Er bod y Rhaglen ei hun yn gymhleth (sy’n golygu bod nifer y canlyniadau a ddewiswyd i adlewyrchu'r cymhlethdod hwn yn fwy na fyddai'n ddelfrydol), mae cael set o ganlyniadau cyffredinol wedi cyfrannu at wella dealltwriaeth o'r Rhaglen yn allanol, ac wedi helpu i gynllunio a chyflawni gweithgareddau mwy penodol ar gyfer y Rhaglen.

7.11 Er bod **monitro** yn sicr yn her i Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf, mae llawer ohonynt yn dangos arferion da wrth gasglu tystiolaeth o welliant o ran canlyniadau meddal, yn bennaf drwy ddefnyddio astudiaethau achos. Serch hynny, nid yw'r rhain yn cael eu rhannu'n effeithiol â Llywodraeth Cymru gan nad yw timau'r Clystyrau yn eu diweddaru ar y system Aspireview. Er bod Llywodraeth Cymru wedi nodi y dylid cynnwys astudiaethau achos mewn deunyddiau eraill hefyd, megis yr adroddiadau chwe misol ar lefel Clwstwr, mae'n ymddangos nad yw'r Clystyrau yn glir pa ddulliau y gellir eu defnyddio i gyfleu'r wybodaeth werthfawr hon. Efallai fod angen cyflwyno rhagor o negeseuon er mwyn annog hyn.

**Crynodeb o'r meysydd i’w gwella wrth weithredu'r Rhaglen**

7.12 Yn ogystal â'r enghreifftiau o arfer da a amlinellir uchod, drwy ddefnyddio'r gwerthusiad mae wedi bod yn bosibl canfod elfennau allweddol y broses o roi Cymunedau yn Gyntaf ar waith pan mae lle, ac angen gwella, fel yr amlinellir isod.

7.13 Mae'n rhaid i'r CCA gyflawni holl gylch gwaith eu rôl; sef gweithredu fel y corff sy'n atebol i Lywodraeth Cymru o ran sicrhau bod Clystyrau yn defnyddio'r cyllid sydd wedi'i ddyrannu iddynt i gyflawni canlyniadau bwriedig y Rhaglen. Ar hyn o bryd, nid oes cysylltiad rhwng nod a realiti rôl y CCA. Drwy sicrhau bod y CCA yn cyflawni eu rolau yn llawn, byddai'r Rhaglen yn gweld y manteision canlynol:

- Byddai sicrhau bod y CCA yn delio â holl ymholiadau timau'r Clystyrau yn y lle cyntaf, cyn cysylltu â Llywodraeth Cymru, yn cyflymu'r broses sydd ar

waith ar hyn o bryd, gan mai dim ond gyda 19 o CCA y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru gyfathrebu â nhw, yn hytrach na 52 o Glystyrau ar wahân.

- Mae'r Clystyrau wedi wynebu heriau wrth geisio gwario eu dyraniad cyllideb i gyd. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi annog y CCA i ddefnyddio dull mwy hyblyg ar gyfer newid sut maent yn gwario eu harian rhwng gweithgareddau penodol a thimau staff, ar sail tystiolaeth barhaus o'r hyn sy'n gweithio orau ar lawr gwlad a lle mae'r angen mwyaf am adnoddau. Byddai gweithredu'r dull hwn yn helpu i gyflawni un o nodau Llywodraeth Cymru, sef y dylai Cynlluniau Cyflawni gael eu hadolygu a'u gwella'n barhaus.[45]

7.14 Y catalydd a fyddai'n galluogi'r CCA i gyflawni'r rôl hon fyddai arweiniad pendant gan Lywodraeth Cymru i sicrhau eu bod yn glir ynghylch cylch gwaith eu rôl ac i ba raddau y mae ganddynt reolaeth dros benderfyniadau ynghylch cyllidebau hyblyg, ynghyd â defnyddio adnoddau'n effeithiol o fewn y CCA, yn enwedig y rheini sy'n gyfrifol am sawl Clwstwr.

7.15 Mae sgiliau'r staff sy'n gyfrifol am y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar lefel Clwstwr yn hanfodol er mwyn sicrhau bod y Rhaglen yn cael ei gweithredu'n effeithiol. Yn dilyn hynny, mae cyfateb setiau sgiliau staff a gofynion swyddi er mwyn sicrhau bod timau'n profi ac yn canolbwyntio digon ar y math o brosesau monitro ac adrodd sy'n angenrheidiol ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn hollbwysig ac mae lle i'w gwella. Fodd bynnag, rhaid cydnabod y pwysau allanol ar y Rhaglen sy'n ei gwneud yn anodd defnyddio adnoddau o fewn Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf, er enghraifft, mae cyd-destun allanol rhewi'r broses recriwtio yn golygu bod yn rhaid llenwi swyddi staff yn fewnol cyn rhoi cynnig ar recriwtio'n allanol. Gallai hyfforddiant sy'n benodol i'r swydd, ynghyd â phrosesau llymach ar gyfer rheoli perfformiad, helpu i gael y gorau o'r staff presennol gyda'r rôl sydd bellach yn ddisgwyliedig ohonynt.

7.16 Mae'r CCA a thimau'r Clystyrau yn dibynnu llawer ar ganllawiau Llywodraeth Cymru, y rhai ffurfiol ynghylch creu Cynlluniau Cyflawni a Chynlluniau Cynnwys y Gymuned, yn ogystal â'r rhai parhaus drwy gydol y broses weithredu a chyflawni. Felly mae'n hollbwysig bod y canllawiau hyn yn rhai o

[45] Canllawiau Rhaglen 2013 Cymunedau yn Gyntaf (darllenwyd 17 Tachwedd 2014) http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/130905cfprogrammeguidance13cy.pdf

safon a'u bod yn hawdd eu deall er mwyn gallu rhoi'r Rhaglen ar waith yn llwyddiannus. Mae’r gwerthusiad hwn yn tynnu sylw at bryderon defnyddwyr ynghylch y canllawiau a gyhoeddwyd yn wreiddiol. Er bod gwelliannau wedi cael eu gwneud, mae'n hollbwysig bod y canllawiau'n cael eu hadolygu a'u gwella'n gyson. Mae gan y CCA a thimau’r Clystyrau gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod y rheini sydd fwyaf addas i arwain y prosesau hyn yn y dyfodol, yn enwedig y rheini sy'n gyfarwydd â gofynion Llywodraeth Cymru yn sgil y rownd gyntaf o ddrafftio’r Cynllun Cyflawni, yn cael eu cynnwys eto yn ôl yr angen, neu'n cael rôl fentora, er mwyn sicrhau proses fwy effeithiol.

7.17 Un her bwysig a pharhaus i'r Rhaglen yw cael data monitro perfformiad sy’n gadarn ac yn gyson. Er bod llunio fframwaith canlyniadau wedi helpu i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni er mwyn gweithio at sicrhau'r canlyniadau hyn, mae llawer gormod o amrywiaeth yn lleol o hyd o ran sut y caiff cynnydd yn erbyn y canlyniadau hyn eu mesur a'u hadrodd. Mae diffyg arweiniad a chefnogaeth ynghylch y ffyrdd mwyaf priodol o fonitro canlyniadau. Er y llwyddwyd i gadw'r nod o ganiatáu rhywfaint o hyblygrwydd lleol, mae hwn yn un o feysydd y Rhaglen lle nad oes gan dimau'r Clystyrau yr arbenigrwydd o reidrwydd i wybod sut mae cynllunio prosesau monitro effeithiol, ac mae'n golygu efallai fod gweithgareddau tebyg sy'n cael eu cyflawni mewn ardaloedd gwahanol yn cael eu monitro mewn ffyrdd gwahanol iawn. Ac ystyried pa mor gymhleth yw mesur rhai o'r canlyniadau yr anelir atynt – naill ai oherwydd natur y canlyniadau, natur y rhai sy'n cymryd rhan, neu'r ffyrdd o fynychu gweithgareddau (e.e., gwirfoddol, cyfnodol ac ati) mae'r canllawiau hyn yn hollbwysig os yw'r Rhaglen am ddeall yn iawn beth y mae'n ei gyflawni.  Heb hyn, mae'n bosibl na fydd modd dangos yn bendant beth yw effaith y Rhaglen, na chymharu ansawdd canlyniadau gwahanol weithgareddau ac ardaloedd.

7.18 Mae'r gwerthusiad hwn hefyd yn awgrymu y gallai Cymunedau yn Gyntaf wneud mwy i fynd i'r afael â dwy o'i hegwyddorion sylfaenol: cynnwys y gymuned; a thargedu'r rheini sydd fwyaf mewn angen o fewn ardaloedd Clystyrau. Er bod y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi cadw’r ethos o annog y gymuned i gyfrannu at y gwaith o gynllunio, cyflawni a monitro’r Rhaglen, nid yw’r Rhaglen yn llwyddo bob amser i gynnwys y gymuned go iawn neu nid yw hynny’n digwydd mewn modd sy’n dwyn budd i’r broses o

weithredu’r Rhaglen na'r broses o gyflawni ei hamcanion. Dylai Cymunedau yn Gyntaf ymdrechu i sicrhau bod strategaethau cynnwys y gymuned:

i. yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i gymryd rhan;
ii. o fudd i breswylwyr lleol; a
iii. hefyd yn cynnig buddiannau wrth gyflawni'r Rhaglen

Gall y ddau amcan diwethaf fod yn anodd eu sicrhau yn ymarferol. Mae angen cyfuno gwybodaeth a phrofiadau o gyflawni hynny, a chyfleu'n fwy effeithiol beth y mae cynnwys y gymuned yn debygol o'i gynnig i'r Rhaglen, a pham mae hynny'n dal i gael ei ystyried yn bwysig er bod mesurau canlyniadau yn gweithio o'r brig i lawr. Yn wir, yn sgil y sylw newydd ar gyflawni a chanlyniadau’r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf – a hynny'n dilyn beirniadaeth o gyfnodau blaenorol am beidio â bod yn ddigon strategol – mae rhai Clystyrau wedi mynd ati i sicrhau bod ganddynt staff i ganolbwyntio ar yr elfennau pwysig hyn o'r Rhaglen. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi pa mor bwysig yw cadw gweithwyr cynnwys y gymuned er mwyn cyflawni tair prif egwyddor y Rhaglen; rheoli da, canlyniadau gwell yn ogystal â chyfraniad cryf gan y gymuned. Mae angen gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru er mwyn atgoffa’r CCA a’r Clystyrau bod cynnwys y gymuned yr un mor bwysig â chyflawni, yn ogystal â helpu’r staff i ddeall beth mae hyn yn ei olygu o ran yr angen i ddarparu data monitro ar fesurau canlyniadau.

7.19 O ran y buddiolwyr y mae'r Rhaglen yn eu targedu, er bod y timau cyflawni yn deall i raddau helaeth y dylai’r gweithgareddau gael eu hanelu at y rhai sydd fwyaf mewn angen, nid yw'n glir i’r Clystyrau bob amser pwy yw’r cynulleidfaoedd hyn. Mae rhai o dimau cyflawni’r Clystyrau hefyd yn cael trafferth deall sut y gallant dargedu'r grwpiau hyn yn effeithiol o fewn cyfyngiadau cyllideb y Rhaglen, adnoddau staff a'r gofyniad i ddarparu data ar ganlyniadau. Mae monitro'n broblem yn y fan hon eto, gan nad yw’r rhai sy’n cymryd rhan yn cael eu monitro ddigon er mwyn deall i ba raddau y mae’r Clystyrau yn cyrraedd y grwpiau targed perthnasol mewn gwirionedd.

**Pwyntiau dysgu allweddol ar gyfer cynllunio a gweithredu rhaglenni yn y dyfodol**

7.20 Argymhellir y dylid efelychu un o agweddau Cymunedau yn Gyntaf, sef y model Cyrff Cyflawni Arweiniol, mewn rhaglenni eraill. Mae gan y model hwn

y potensial i gau'r bwlch rhwng rheolaeth ganolog Llywodraeth Cymru, a gweithredu a gwneud penderfyniadau ar lefel leol, gan gynnal llinellau cyfathrebu effeithiol ac effeithlon. Er mwyn cael y gwerth gorau posibl o fodel o'r fath (ac er mwyn adeiladu ar brofiadau Cymunedau yn Gyntaf), mae'n rhaid rhoi arweiniad pendant i'r CCA o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau disgwyliedig. Dylai hyn gynnwys y canlynol: bod y prif bwynt cyswllt ar gyfer tîm polisi'r llywodraeth ganolog ac yna rhannu gwybodaeth â'r timau lleol; bod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd yr holl ddogfennau sy'n cael eu llunio gan dimau lleol ar gyfer eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru, megis cynlluniau cyflawni, prosesau monitro data ac adrodd ar gynnydd; a hwyluso'r broses o rannu arferion gorau rhwng timau lleol a thu hwnt - i'r CCA eraill.

7.21 Mae angen y canllawiau a gaiff eu darparu ar ddechrau rhaglen fod yn seiliedig ar asesiad clir o'r bylchau gwybodaeth ymysg y timau sy'n gyfrifol am y gwaith o ddrafftio cynigion ar sail y canllawiau hyn. Mae hefyd yn hollbwysig bod gwybodaeth yn cael ei rhannu fesul cam – yn ddelfrydol, byddai dogfennau canllaw yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd â fframweithiau monitro a diffiniadau o ganlyniadau. Byddai hefyd yn fuddiol sicrhau diffiniad clir rhwng canllawiau ar bolisi a strategaeth y rhaglen, a chanllawiau ar y rheolau a'r cyfarwyddiadau amrywiol a allai reoli sut y bwriedir cyflawni'r rhaglen. Byddai sicrhau bod yr holl ddogfennau ategol hyn yn rhan o'r broses ymgynghori yn ystod cyfnod cynllunio'r rhaglen yn helpu i wella ansawdd y cynlluniau cyflawni a gyflwynir, gan leihau'r angen i ailddrafftio a gwella effeithlonrwydd o ran cwblhau'r broses i Lywodraeth Cymru a thimau cyflawni yn yr ardaloedd. Byddai hyn yn ei dro yn sicrhau effeithiau cadarnhaol ehangach drwy alluogi dosbarthu llythyrau cynnig terfynol yn gynt ac ymgymryd i recriwtio staff a chyflawni'r gwaith.

7.22 Dylid datblygu a chyflwyno canllawiau, hyfforddiant a chefnogaeth barhaus er mwyn sicrhau bod staff cyflawni yn meddu ar y sgiliau priodol i bennu a chynnal prosesau monitro effeithiol. Mae hyn yn hollbwysig os ydynt am feddu ar y sgiliau angenrheidiol ar gyfer cofnodi data rheoli perfformiad yn unol â'r adnodd ASG.

7.23 Er bod yr adnodd ASG yn cynnig llawer o fanteision o ran annog pwyslais ar ganlyniadau, yn ogystal â sicrhau y caiff gweithgareddau eu cynllunio gan gadw'r canlyniadau hyn mewn cof, mae angen ystyried yn ofalus sut mae

rhoi'r adnodd ar waith mewn rhaglen er mwyn sicrhau y manteisir i'r eithaf ar ei werth. Mae'n bosibl y bydd y pwyslais ar ganlyniadau yn annog timau cyflawni i dargedu'r bobl hawsaf eu cyrraedd a'u trin mewn cymuned er mwyn sicrhau statws gwyrdd ar ddangosfwrdd CAG. Mae angen ystyried sut i fonitro a chofnodi cynnydd a wnaed tuag at ganlyniadau, ac mae angen cyfleu yn glir i ba raddau mae mesurau'r cynnydd hwn, yn hytrach na'r canlyniadau llwyddiannus terfynol, yn allbynnau derbyniol i'w cofnodi ar gyfer rhaglen.

# 1 ATODIAD 1 - Gwerthusiad Canlyniadau: Cwmpasu

### Cyflwyniad

1.1 Mae'r adran hon yn nodi gwaith cwmpasu cychwynnol y broses o werthuso canlyniadau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Bydd yn ystyried y canlynol:

- yr amrywiaeth o ganlyniadau a allai lywio gwerthusiad o ganlyniadau'r Rhaglen;
- yr uned werthuso orau bosibl ar gyfer gwerthusiad canlyniadau;
- y ffordd orau o ganfod y buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau;
- strategaethau'r gwerthusiad effeithiau (gan gynnwys dewisiadau ar gyfer llunio sefyllfaoedd gwrthffeithiol addas); a
- dewisiadau gwerthuso economaidd.

### Egwyddorion arweiniol

1.2 Y rhagdybiaeth ysgogol oedd y byddai gwerthusiad canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf yn ddelfrydol yn canfod effeithiau achosol net y gweithgareddau a ariennir o ran eu cyfraniad at y tri phrif ganlyniad sydd wedi'u diffinio ar gyfer y Rhaglen - creu Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iachach, a Chymunedau Dysgu. Yn dilyn hynny, disgwylir i'r gwerthusiad canlyniadau ganolbwyntio ar niferoedd, yn ogystal â nodi sefyllfa wrthffeithiol briodol er mwyn canfod canlyniadau cadarn.

1.3 Hefyd, tybir y byddai gwerthusiad canlyniadau yn cynnwys rhyw fath o werthusiad economaidd hefyd, lle byddai buddiannau Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu cysylltu â'i gostau er mwyn gwerthuso a yw'r fenter yn darparu gwerth am arian. Mae dadansoddiad cost-effeithiolrwydd wedi'i ystyried (lle mae'r canlyniadau net a gyflawnir yn gysylltiedig â'r costau dan sylw), yn ogystal â dadansoddiad cost-budd (lle caiff y canlyniadau net a gyflawnir eu trosi'n werth ariannol er mwyn gweld i ba raddau y mae gwerth y buddiannau a gyflawnwyd yn fwy na'r costau a wariwyd ar adnoddau).

**Y fframwaith gwerthuso**

1.4 Y cam cyntaf wrth gynllunio unrhyw werthusiad canlyniadau yw nodi'r gyfres o ganlyniadau ar gyfer eu mesur. Mae'n bwysig, cyn belled ag y bo modd, diffinio'r gyfres hon o ganlyniadau mewn ffordd sy'n adlewyrchu nodau cyffredinol y Rhaglen ac ehangder y prosiectau a ariennir. Yn ail, dylai'r gyfres o ganlyniadau fod yn rhai y gellir eu mesur yn realistig drwy waith ymchwil sylfaenol neu drwy gyfeirio at ffynonellau data gweinyddol neu ystadegau eilaidd.

1.5 Fel y nodir ym Mhennod 2, mae amcanion polisi Cymunedau yn Gyntaf yn ymwneud â thri phrif 'ganlyniad': creu cymunedau Cymunedau Ffyniannus, Cymunedau Iachach a Chymunedau Dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion polisi hyn wedi'u diffinio'n ddigon manwl at ddibenion gwerthusiad canlyniadau (gan nad ydynt yn addas ar gyfer eu pwyso a'u mesur). Wedi dweud hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal proses i ddiffinio 102 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (ar draws 17 o feysydd canlyniadau â blaenoriaeth). Mae'r rhain yn helpu i esbonio'r theori newid sylfaenol a darparu fframwaith meintiol o fesurau y gellid eu defnyddio mewn gwerthusiad canlyniadau. Mae'r dangosyddion hyn yn diffinio'r canlynol:[46]

- **Canlyniadau canolradd:** Mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn nodi'n benodol y 'theori newid' sydd wrth wraidd gwaith Cymunedau yn Gyntaf drwy ddiffinio amrywiaeth o ganlyniadau canolradd cysylltiedig, y mae disgwyl iddynt arwain at y canlyniadau terfynol yr anelir atynt. Er enghraifft, o dan yr is-flaenoriaeth 'lleihau aildroseddu', mae Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'u diffinio ar gyfer ennill cymhwyster allgwricwlar ychwanegol, manteisio ar ddatblygiad personol a chymdeithasol, a chyflawni gweithgaredd cadarnhaol yn rheolaidd. Mae'n bosibl y bydd disgwyl i bob un o'r canlyniadau canolradd hyn arwain at ganlyniad terfynol, sef rhoi'r gorau i droseddu.
- **Canlyniadau terfynol:** Hefyd, mae'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn nodi beth y gellir ei ystyried fel 'canlyniad terfynol' ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd â blaenoriaeth. Er enghraifft, efallai y bydd cwblhau cyrsiau neu

[46] Ipsos MORI yn hytrach na Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bennu'r gwahaniaeth rhwng y canlyniadau canolradd a'r canlyniadau terfynol (ac mae gan yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol yr un statws o ran proses fonitro'r Rhaglen).

gymwysterau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth yn arwain at ragor o ganlyniadau canolradd fel mwy o hyder i chwilio am waith, a fydd wedyn yn arwain at y canlyniad terfynol, sef dod o hyd i waith parhaus (o dan y canlyniad is-flaenoriaeth 'Helpu pobl i ddatblygu sgiliau Cyflogaeth a Gwaith').


1.6 Er bod y fframwaith dangosyddion yn gymharol gynhwysfawr, nid yw'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol bob amser yn casglu'r holl fuddiannau cymdeithasol a allai fod o ddiddordeb. Mae hwn yn fater pwysig i'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol sydd wedi'u diffinio o dan y maes iechyd, lle mae ystod eang o ddangosyddion wedi'u pennu yng nghyswllt y newidiadau a ragwelwyd yn ymddygiad a dewisiadau ffordd o fyw unigolion, heb gasglu'r gwelliannau o ran iechyd neu ddisgwyliad oes. Er enghraifft, wrth gymryd rhan mewn rhaglen rhoi'r gorau i ysmygu a rhoi'r gorau i ysmygu (o dan y maes blaenoriaeth 'lleihau risgiau'). Fodd bynnag, nid yw nifer y bobl sy'n dioddef o gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag ysmygu (fel canser yr ysgyfaint) – y gellid ei ystyried fel budd sy'n dod yn sgil canlyniad terfynol o ran y math hwn o ymddygiad – yn cael ei fonitro drwy'r fframwaith Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

1.7 Ni fyddai'n ymarferol monitro'r mathau hyn o ganlyniadau ac ystyried canlyniadau iechyd (ac nid oes awgrym y dylid ymgorffori Dangosyddion Perfformiad Allweddol fel hyn yn y fframwaith monitro). Fodd bynnag, at ddibenion gwerthuso, byddai angen i'r gwerthusiad canlyniadau ymgorffori mesurau priodol yn y meysydd hyn (lle bo hynny'n ymarferol) er mwyn asesu sut mae'r fenter wedi cyflawni ei hamcanion. Yn dilyn hynny, un o dasgau cyntaf gwerthusiad canlyniadau fyddai ehangu'r fframwaith a nodir yn y Dangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y llwybr achosol rhwng y gweithgareddau a ariennir drwy Gymunedau yn Gyntaf drwy ymarfer mapio rhesymeg eang.

1.8 Mae cysylltiad agos hefyd rhwng y tri phrif nod, y canlyniadau allweddol a'r mesurau perfformiad sy'n rhan ohonynt (a byddai angen cydnabod hyn mewn unrhyw werthusiad o ganlyniadau'r Rhaglen). Er enghraifft, mae'r ymdrechion i wella presenoldeb pobl ifanc mewn ysgolion o dan y canlyniad 'Dysgu' yn debygol o arwain at nifer o ganlyniadau yn y parth 'Ffyniannus', gan ei

gwneud yn fwy tebygol y bydd y bobl ifanc dan sylw yn symud i addysg bellach ac addysg uwch, ac i fyd gwaith yn y pen draw.

Ffigur A1.1: Canfod dangosyddion monitro'r Rhaglen




**Prif faterion gwerthusiad canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf**

1.9 **Data llinell isaf:** Yn ddelfrydol byddai gwerthusiad canlyniadau yn ymgorffori mesurau llinell isaf y gellir eu defnyddio i fesur cynnydd yn eu herbyn (mae hyn yn un o'r gofynion sylfaenol ar gyfer pob cynllun ar wahân i'r cynlluniau gwerthuso gwanaf). Fodd bynnag, gan fod y broses gyflawni eisoes wedi dechrau, mae'n rhy hwyr casglu tystiolaeth bwrpasol gan y bobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen neu breswylwyr Cymunedau yn Gyntaf. O'r herwydd, er mwyn cyflawni unrhyw fath o werthusiad canlyniadau sy'n archwilio effeithiau achosol Cymunedau yn Gyntaf i gyflawni buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau, mae angen i'r gwerthusiad ddibynnu ar ddata eilaidd ar lefel unigol neu lefel ardal, neu dystiolaeth o nodweddion cyfranogwyr sy'n cael ei chasglu drwy fonitro.

1.10 **Data monitro**: Mae timau Clystyrau Cymunedau yn Gyntaf yn llwytho eu data monitro i fyny ar system Ffynnon. Mae'r data monitro yn darparu ffigurau crynswth ar gyfer nifer y bobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (ar lefel leol), a'r nifer y gellir arsylwi canlyniadau yn eu cylch (yn erbyn y 102 o fesurau perfformiad). Bydd y cofnodion monitro hyn yn mesur y canlyniadau *gros* mae'r Rhaglen wedi'u cyflawni (serch hynny, fel yr awgrymir yn rhywle arall, codir cwestiynau ynghylch cysondeb a chywirdeb y data hwn).

1.11 **Data unigol:** Fodd bynnag, nid oes casgliad systematig o fanylion cyswllt ar lefel unigol (er efallai fod y Clystyrau yn cadw cofnodion papur a chofnodion eraill). O'r herwydd, byddai angen i werthusiad canlyniadau gyflawni ymarfer casglu data cynhwysfawr (a chostus) er mwyn galluogi cynnal unrhyw waith ymchwil sylfaenol (neu gysylltu data) er mwyn bod yn rhan o'r prif werthusiad. Neu, gallai Llywodraeth Cymru gymryd camau cywiro er mwyn mynnu bod Cymunedau yn Gyntaf yn cyflwyno'r manylion hyn drwy'r system Ffynnon (nid yw tîm y gwerthusiad wedi cael mynd ar y system fel rhan o'r astudiaeth hon, sy'n ei gwneud yn anodd gwerthuso goblygiadau cam o'r fath o ran adnoddau).

1.12 **Canfod sefyllfaoedd gwrthffeithiol priodol:** Byddai angen i werthusiad canlyniadau cadarn ymgorffori sefyllfa wrthffeithiol o unigolion mewn ardaloedd nad ydynt yn cael cymorth er mwyn canfod effeithiau achosol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Fodd bynnag, mae natur ddethol y broses ddyrannu adnoddau a natur wirfoddol y broses cymryd rhan yn y Rhaglen yn cyflwyno nifer o heriau wrth geisio canfod sefyllfa wrthffeithiol briodol:

- **Gwahaniaethau rhwng ardaloedd:** Mewn egwyddor, roedd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn targedu deg y cant o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA) mwyaf difreintiedig Cymru. Yn ymarferol, roedd nifer fawr o ardaloedd LSOA y tu allan i'r trothwy hwn yn rhan o ardal darged y Rhaglen, er mwyn cadw at ffiniau cymunedau naturiol, i gyd-fynd â ffiniau cyflawni partneriaid allweddol, ac oherwydd materion eraill, fel targedu grwpiau penodol o unigolion neu deuluoedd difreintiedig. Er hynny, mae'n debyg y bydd gwahaniaethau systematig y sylwir arnynt neu beidio rhwng y meysydd yr ymdrinnir â nhw neu beidio a fydd yn cyfateb i'r canlyniadau a welwyd (gyda'r posibilrwydd o effeithiau ar gymhariaethau). Er enghraifft, os yw ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn fwy tebygol o fod

yn ddarostyngedig i broses o ddirywiad economaidd hirdymor nag ardaloedd eraill yng Nghymru (proses wedi'i llywio, er enghraifft, gan allfudo detholiadol gweithwyr medrus i ardaloedd economaidd sy'n ffynnu), yna ni fyddai cymharu'r ddau grŵp o ardaloedd yn ddarlun teg o effeithiau'r Rhaglen o ran ei chyfraniad at ganlyniadau cadarnhaol yn y farchnad lafur.

- **Gwahaniaethau rhwng y bobl sy'n cymryd rhan neu beidio:** Bydd cymryd rhan yn y gweithgareddau a ariennir gan Raglen Cymunedau yn Gyntaf yn wirfoddol i raddau helaeth, ac o'r herwydd, disgwylir y bydd gwahaniaethau systematig rhwng y bobl sy'n cymryd rhan neu beidio. Eto, mae'n bosibl na fyddai cymharu'r gwahaniaethau hyn yn rhoi darlun teg o'r sefyllfa. Er enghraifft, os oes gan y bobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen fwy o gymhelliant i ddod o hyd i waith na'r rheini nad ydynt yn cymryd rhan, yna mae'n debyg y bydd y cymariaethau rhwng y ddau grŵp hyn yn awgrymu bod y gweithgareddau a ariennir gan Gymunedau yn Gyntaf yn fwy effeithiol nag ydynt go iawn o ran y canlyniadau cyflogaeth a welwyd.

1.13 **Gorgyffwrdd â Rhaglen flaenorol Cymunedau yn Gyntaf:** Mae ffiniau Rhaglen flaenorol Cymunedau yn Gyntaf yn gorgyffwrdd ffiniau'r Rhaglen bresennol (roedd tua 75 y cant o'r ardaloedd LSOA a oedd yn cael cyllid gan Gymunedau yn Gyntaf yn fuddiolwyr y Rhaglen flaenorol). Gallai hyn achosi anawsterau o ran canfod effeithiau'r Rhaglen bresennol os yw effeithiau'r gweithgareddau yn rhai tymor byr yn hytrach na rhai parhaol. Er enghraifft, os oedd ardal benodol yn cael budd o weithgareddau cefnogi cyflogaeth lleol drwy nawdd gan Gymunedau yn Gyntaf cyn ac ar ôl y Rhaglen bresennol, yna mae'n bosibl na fyddai gwerthusiad yn gweld unrhyw newid o ran llifoedd lleol i gyflogaeth, hyd yn oed os oedd y Rhaglen yn effeithiol yn cyflawni ei hamcanion yn y farchnad lafur.

1.14 **Rôl mentrau ehangach:** Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu llawer o fentrau a chanddynt y potensial i gyfrannu'r un canlyniadau â'r rhai a dargedir gan Gymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, mae gan Twf Swyddi Cymru darged penodol ar gyfer canfod swyddi i breswylwyr Cymunedau yn Gyntaf mewn swyddi gwag dros dro y mae'r Rhaglen yn eu creu. Yn yr un modd, mae Dechrau'n Deg yn rhaglen ofodol sy'n targedu teuluoedd a chanddynt blant rhwng 0 a 4 oed, ac mae ganddi'r potensial i sicrhau amrywiaeth eang o

effeithiau yn y farchnad lafur. Gan fod ffiniau'r rhaglenni hyn yn gorgyffwrdd i ryw raddau â meysydd Cymunedau yn Gyntaf, mae'n debyg y bydd rhai cyfranogwyr ac unrhyw grwpiau a ddewisir fel rhai gwrthffeithiol yn cael budd o'r mentrau ehangach hyn. Byddai angen i werthusiad canlyniadau reoli rôl y rhaglenni hyn yn ddigonol er mwyn gwahanu effeithiau Cymunedau yn Gyntaf rhag y rhaglenni eraill hyn. Bydd angen mapio mentrau perthnasol posibl, yn ogystal ag archwilio pa mor realistig yw eu gwahanu.

1.15 **Effeithiau dilynol ar y farchnad ffactorau:** Mae'r pwyslais ar y gweithgareddau niferus a ariennir drwy Gymunedau yn Gyntaf i gefnogi unigolion i fynd i fyd gwaith yn golygu y gallai hyn effeithio ar y farchnad ffactorau. Yn benodol, os yw'r unigolion hynny sy'n cael hyfforddiant neu fathau eraill o gyngor ar gyflogaeth yn llwyddo i gael gwaith ar draul ceiswyr gwaith eraill (naill ai o fewn ardaloedd LSOA Cymunedau yn Gyntaf neu y tu allan i'r ardaloedd hynny). Bydd angen archwilio'r effeithiau hyn er mwyn deall effeithiau net y Rhaglen ond fel arfer dyma'r effeithiau mwyaf heriol i'w mesur yn bendant.

1.16 **Effeithiau pellach**: Yn olaf, yn ddelfrydol byddai'r posibilrwydd o weld effeithiau pellach o ran buddiannau y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (a Chymru) hefyd yn cael eu cynnwys yn y gwerthusiad canlyniadau. Mae'n bosibl y bydd gwelliannau o ran cyflogadwyedd unigolion sy'n cael cymorth gan y Rhaglen yn symud swyddi o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i ardaloedd allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth gwell (yn enwedig os nad yw'r cynnydd mewn swyddi sy'n cael ei ysgogi gan y Rhaglen yn cyd-fynd â chynnydd cyfochrog mewn galw am waith lleol). Er y gallai hyn gael effaith gadarnhaol ar lefel Cymru gyfan, byddai angen ei hystyried fel effaith bellach mewn unrhyw ddadansoddiadau a fyddai'n canolbwyntio ar ardaloedd targed Cymunedau yn Gyntaf. Yn ogystal â hyn, ni ellir anwybyddu'r posibilrwydd y bydd effeithiau pellach ar weddill y DU.

### Uned ddadansoddi

1.17 Un o'r dewisiadau allweddol y mae'n rhaid ei wneud wrth gynllunio gwerthusiad canlyniadau yw dewis uned ddadansoddi briodol i'w defnyddio i roi trefn ar y strategaeth werthuso. Fel yr awgrymir uchod, mae dau ddewis ar gael: gallai'r gwerthusiad geisio deall effeithiau Cymunedau yn Gyntaf ar

gyfranogwyr unigol y gweithgareddau a ariennir, neu geisio deall yr effeithiau ar y cyd ar breswylwyr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

1.18 Argymhellir defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ddeall yr effeithiau ar lefel ardal am y rhesymau canlynol:

- **Anawsterau wrth gasglu tystiolaeth o fuddiannau:** Bydd peidio â defnyddio cofnodion systematig a chanolog o'r unigolion sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen yn creu heriau mawr wrth gasglu tystiolaeth o fuddiannau drwy ymchwil sylfaenol neu drwy fanteisio ar y data gweinyddol sydd ar gael ar lefel unigol. Byddai angen defnyddio enwau, cyfeiriadau a manylion cyswllt cyfranogwyr er mwyn gweithredu unrhyw raglen ymchwil drwy arolygon neu gysylltu'r cofnodion hyn â setiau data gweinyddol ehangach (megis Astudiaeth Hydredol yr Adran Gwaith a Phensiynau sy'n darparu cofnodion hydredol am y rheini sy'n dibynnu ar fudd-daliadau, cyflogaeth ac incwm ar lefel unigol).
- **Amseru:** Byddai strategaeth yn seiliedig ar waith ymchwil sylfaenol hefyd yn gyfyngedig o ran amser. Gan fod y broses o gyflwyno'r Rhaglen eisoes wedi dechrau, mae'n rhy hwyr casglu arsylwadau llinell isaf erbyn hyn. O'r herwydd, hyd yn oed petai'n bosibl cymryd camau cywiro yng nghyswllt casglu manylion cyswllt cyfranogwyr yn systematig, byddai'n rhaid i'r arolygon ail-lunio hen gofnodion y buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau (a'r newidynnau rheoli) er mwyn ail-lunio llinell isaf y gwerthusiad (neu ganolbwyntio ar gasglu safbwyntiau y mae'r unigolion wedi'u nodi am effeithiau'r Rhaglen – y ffordd wanaf o gynllunio gwerthusiad).
- **Dangos tuedd wrth ddethol:** Yn ogystal â'r anawsterau ymarferol wrth gasglu'r dystiolaeth angenrheidiol ar gyfer gweithredu gwerthusiad canlyniadau; mae canolbwyntio ar ddata lefel ardal yn symleiddio'r heriau dadansoddol sy'n gysylltiedig â mynd i'r afael â'r materion ynghylch dangos tuedd wrth ddethol fel y nodir uchod. Yn benodol, bydd canolbwyntio ar ganlyniadau ar lefel ardal yn cynnwys pobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen neu beidio wrth drin y grwpiau dan sylw sy'n cael eu targedu (dadansoddiad 'bwriad i drin'). Bydd hyn yn osgoi'r angen i fynd i'r afael â'r

problemau anodd eu trin[47] o fod yn atebol am wahaniaethau rhwng y bobl sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen neu beidio a allai greu darlun camarweiniol o'r canlyniadau (gan gyfyngu ar yr her i fod yn atebol am y gwahaniaethau o ran nodweddion ar lefel ardal).

- **Effeithiau dilynol ar y farchnad ffactorau:** Ni fydd y rhagamcanion o effeithiau'r driniaeth ar lefel ardal yn cynnwys unrhyw effaith ddilynol ar y marchnadoedd ffactorau o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Serch hynny, byddai dal angen i'r gwerthusiad ystyried unrhyw effeithiau lle mae'r rheini sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen yn cael gwaith ar draul ceiswyr gwaith eraill sy'n cystadlu am swyddi y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf.

- **Effeithiau pellach:** Yn ogystal, ni fydd y rhagamcanion o effeithiau'r driniaeth yn cynnwys unrhyw effeithiau pellach lle bydd y rheini sy'n cymryd rhan yn y Rhaglen yn gadael ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf o ganlyniad uniongyrchol i'r gefnogaeth a gawsant.

**Mesur canlyniadau a newidynnau rheoli**

1.19 Mae canolbwyntio ar drefnu'r gwerthusiad canlyniadau ar lefel ardal yn awgrymu y dibynnir ar ddefnyddio'r setiau data sydd ar gael i'r cyhoedd er mwyn darparu arsylwadau ar y buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau (yn ogystal â darparu unrhyw newidynnau i reoli unrhyw wahaniaethau a welir rhwng y driniaeth a'r meysydd cymharu). Er mwyn ei ddefnyddio mewn gwerthusiad canlyniadau, mae'n rhaid i'r data hwn fod ar gael ar lefel LSOA yn flynyddol (a chyn dechrau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn 2012/13).

1.20 Mae adolygiad cychwynnol o'r setiau data sydd ar gael ar gyfer y 100+ o ganlyniadau a nodir ar gyfer y Rhaglen wedi'i gyflawni. Mae'r adolygiad hwn wedi canfod rhai ffynonellau data posibl (fel y dangosir yn Nhabl A1.1) ond un o'r prif dasgau ar ddechrau gwerthusiad canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf fydd cwblhau'r ymarfer mapio hwn. Gellir mesur y rhan fwyaf o'r buddiannau craidd sy'n dod yn sgil canlyniadau gan ddefnyddio setiau data gweinyddol

[47] Er ei bod yn bosibl ystyried y nodweddion y sylwyd arnynt, mae'n debyg y byddai gwahaniaethau sylweddol rhwng y ddau grŵp – gwahaniaethau y sylwyd arnynt neu beidio, megis cymhelliant a gallu – a fyddai'n anodd iawn eu cymhwyso. Byddai'r broblem hon yn waeth oherwydd yr amrywiol ddulliau cyflenwi a gaiff eu mabwysiadu ar lefel leol sy'n rhwystro defnyddio agweddau ar gynllun y Rhaglen wrth greu sefyllfa wrthffeithiol briodol.

neu setiau data'r arolwg, er y bydd yn rhaid sicrhau cytundebau rhannu data gyda'r perchnogion data perthnasol mewn rhai achosion.

Tabl A1.1 Mapio Cychwynnol Canlyniadau Ffynonellau Data (lefel LSOA)

| Canlyniad | Is-flaenoriaeth | Set ddata | Mesurau |
|---|---|---|---|
| **Ffyniannus** | Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith | Astudiaeth Hydradol yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP a CThEM) | - Dibyniaeth ar fudd-daliadau<br>- Incwm (Talu wrth Ennill (PAYE))<br>- Cyflogaeth (P46) |
| | Lleihau diweithdra ac ymddieithrio ymysg pobl ifanc | Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion (NPD) | - Cyrhaeddiad addysgol<br>- Mynd ymlaen i AB |
| | | Cofnod Dysgwr Cymru Personol (ILRW) | - Mynd ymlaen i AB |
| | Hyrwyddo Cynhwysiant Digidol | ILRW ac NPD | - Ennill cymwysterau cydnabyddedig ym maes TG |
| | Cynhwysiant Ariannol | *Heb ganfod data* | |
| | Cefnogi'r gwaith o Adeiladu Cyfalaf Cymdeithasol Mentergarwch a Bancio Amser | Cronfa Ddata Strwythur Busnes (BSD) | - Busnesau newydd sydd wedi cofrestru ar gyfer TAW / PAYE (ffordd amherffaith o fesur entrepreneuriaeth gymdeithasol) |
| | Lleihau'r risg o aildroseddu ymysg pobl ifanc | Cyfrifiadur Cenedlaethol yr Heddlu (PNC) | - Nifer y troseddau fesul 1,000 o breswylwyr |
| **Dysgu** | Hyrwyddo dysgu fel teulu yn y blynyddoedd cynnar | *Heb ganfod data* | |
| | Cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol | NPD | - Presenoldeb yn yr ysgol<br>- Cyrhaeddiad |
| | Cefnogi teuluoedd i ymwneud ag addysg eu plant | ILRW | - Ennill cymwysterau (bydd yn anodd cadw rhieni ar wahân yn y set ddata hon) |
| | Dysgu gydol oes mewn cymunedau | ILRW | - Ennill cymwysterau ar lefelau uwch (sylwch nad yw'r data ynghylch cyrhaeddiad blaenorol bob amser yn bendant yn yr ILR)<br>- Mynd ymlaen i AB (fel uchod) |
| | | Cofnod Myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau | - Cyn-breswylwyr yn mynd ymlaen i AU |

| Canlyniad | Is-flaenoriaeth | Set ddata | Mesurau |
|---|---|---|---|
| | | Addysg Uwch (HESA) | |
| | Sgiliau Sylfaenol Gwell i Oedolion | ILRW | - Oedolion sy'n cwblhau cymwysterau llythrennedd neu rifedd sy'n cael eu cydnabod gan CDQW (sylwch nad yw hyn yn mesur nifer yr unigolion sy'n meddu ar y cymwysterau hyn) |
| **Iachach** | Cefnogi rhaglen Dechrau'n Deg yn y Blynyddoedd Cynnar (0-7 oed) | *Heb ganfod data* | |
| | Hyrwyddo lles corfforol (7 oed a hŷn) | Arolwg Chwaraeon Cymru | - Cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol (nid yw'n glir a yw hyn yn bendant ar lefel LSOA) |
| | | Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion yng Nghymru (PEDW) | - Derbyniadau i'r ysbyty am gyflyrau iechyd sy'n gysylltiedig ag anweithgarwch (e.e. problemau cardiofasgwlaidd) |
| | Hyrwyddo lles meddyliol | *Heb ganfod data* | |
| | Annog bwyta'n iach | *Heb ganfod data* | |
| | Lleihau risgiau | PEDW | - Derbyniadau ar gyfer ysmygu, alcohol, cyffuriau a chyflyrau iechyd ynghylch iechyd rhywiol |
| | Cefnogi pobl | *Heb ganfod data* | |

1.21 O ran mesurau perfformiad y gellir eu mesur gan ddefnyddio ffynonellau gweinyddol eilaidd, y brif her yw cael gafael ar y data hwn ar lefel ddaearyddol mor isel â phosibl. Er mwyn mesur canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf mae angen i'r data hwn fod yn berthnasol i lefel LSOA. Fodd bynnag, nid oes llawer o'r ffynonellau ar gael ar y raddfa ofodol hon. Er enghraifft, mae'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn ymdrin â meysydd defnyddiol fel cyflogaeth, diweithdra, cymwysterau ac ati, ond yr awdurdodau lleol sydd ar y

lefel ddaearyddol isaf (ac mae meintiau'r samplau sydd ar gael yn herio pa mor bendant yw'r data hyd yn oed ar y lefel hon).

1.22 Yn ddelfrydol, byddai'r gwerthusiad effeithiau yn rheoli'r gwahaniaethau a welir rhwng ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd sy'n gweithredu fel rhai gwrthffeithiol (ar wahân i'r dull Cynllun Anghysonderau Atchweliad a ddisgrifir isod), a allai hefyd chwarae rôl bwysig o ran pennu buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau. Fodd bynnag, bydd yn anodd canfod newidynnau rheoli priodol ar gyfer dadansoddiadau atchweliad gan na ddylent fod yn gysylltiedig â gweithgareddau a chanlyniadau'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Er enghraifft, er y gall gofynion cyflogaeth ddylanwadu ar bennu rhagolygon cyflogaeth preswylwyr, efallai y bydd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn cael effaith anuniongyrchol ar ofynion cyflogaeth a buddsoddiad mewnol drwy wella lefelau sgiliau'r preswylwyr (ac o'r herwydd, fe allai cynnwys twf cyflogaeth fel newidyn rheoli lunio darlun camarweiniol o'r canlyniadau).

1.23 Yn dilyn hynny, dim ond ar sail cyn triniaeth y dylid cynnwys y dulliau rheoli (e.e. twf cyflogaeth cyn 2012/13) neu pan mae modd bod yn hyderus iawn y gellir eu hystyried yn rhai alldarddol. Er enghraifft, nid yw'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn debygol o ddylanwadu ar dopograffeg ffisegol, ond gallai ddylanwadu ar fuddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau drwy gyfyngu ar ddatblygiadau yn yr ardaloedd hynny yr ystyrir yn rhai anodd eu cyrraedd o ran tirwedd (e.e. tirwedd serth sy'n anaddas ar gyfer adeiladu ffatrïoedd mawr). Yn yr un modd, mae hygyrchedd o ran trafnidiaeth yn debygol o ddylanwadu ar strategaethau chwilio am swyddi preswylwyr mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf (er ei bod yn annhebygol y bydd gweithgareddau Cymunedau yn Gyntaf yn arwain at newidiadau yn y rhwydwaith rheilffyrdd a ffyrdd a allai wella hygyrchedd).

**Dewisiadau'r gwerthusiad effeithiau**

1.24 Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r dewisiadau posibl ar gyfer y gwerthusiad effaith (o'r rhai lleiaf cadarn i'r rhai mwyaf cadarn).

1.25 **Cyn ac ar ôl:** Mae strategaeth 'cyn ac ar ôl' yn canolbwyntio ar bennu mesurau o'r buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau cyn ac ar ôl ymyriad (heb sefyllfa wrthffeithiol). Mae pa mor ymarferol yw strategaeth werthuso o'r fath yn dibynnu ar i ba raddau y mae'n bosibl arsylwi'r buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau cyn ac ar ôl ymyriad. Fel y dangosir uchod, ystyrir unrhyw strategaeth o'r fath yn un ymarferol gan ddefnyddio data eilaidd ar gyfer yr is-set o fuddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau ar lefel ardal (er y byddai'n anodd iawn i unrhyw fethodoleg gwerthuso a drefnir yn sgil arsylwadau ar lefel unigol sicrhau hyn). Nid yw'r fethodoleg gwerthuso hon yn cynnwys unrhyw fath o sefyllfa wrthffeithiol, ac o'r herwydd nid yw'n cynnig llawer o ffydd y gellir priodoli'r newidiadau a welir mewn ymyriad buddiannau, oni bai y gellir bod yn eithaf sicr bod nifer o ffactorau allanol yn debygol o ddylanwadu ar y canlyniadau. Nid yw rhagdybiaeth o'r fath yn debygol o fod yn rhywbeth i Gymunedau yn Gyntaf ei ystyried, a chofio pwysigrwydd tebygol yr amgylchiadau economaidd ehangach a chynlluniau polisi eraill Llywodraeth Cymru o ran cyfrannu at y newidiadau a welir. Yn dilyn hynny, ni chaiff y strategaeth hon ei hargymell ar gyfer y prif werthusiad canlyniadau.

1.26 **Ardaloedd cymharu cyfatebol:** Gallai sefyllfa wrthffeithiol ddeillio o ddewis sampl o ardaloedd LSOA nad ydynt wedi cael nawdd gan Gymunedau yn Gyntaf a chymharu canlyniadau ar draws y ddau grŵp. Fel y nodwyd uchod, ac ystyried y ffordd y mae nawdd Cymunedau yn Gyntaf wedi'i dargedu, mae'n debyg y bydd gwahaniaethau systematig rhwng yr ardaloedd sy'n cael nawdd neu beidio a fydd yn effeithio ar y canlyniadau. Byddai modd lleihau effaith y materion hyn drwy ddewis yr ardaloedd LSOA a gymharwyd ac sy'n rhannu nodweddion tebyg (cyn triniaeth) y sylwir arnynt (megis lefelau amddifadedd) â'r rheini a ariennir gan Gymunedau yn Gyntaf (er enghraifft, gan ddefnyddio strategaeth Cyfateb Sgoriau Tueddiadau).

1.27 Byddai dull o'r fath yn achosi problemau am ddau reswm. I ddechrau, dim ond y ffactorau hynny sy'n ysgogi detholiad ar gyfer y Rhaglen y mae strategaeth gyfateb o'r fath yn mynd i'r afael â nhw (h.y. lefelau amddifadedd) y gellir eu harsylwi. Efallai y bydd nifer sylweddol o ffactorau na welir sy'n achosi amddifadedd hefyd yn gysylltiedig â lefelau amddifadedd, a gallai hynny effeithio ar y canlyniadau. Er enghraifft, efallai y bydd topograffeg ffisegol rhai ardaloedd yn rhwystro i ba raddau y gallant addasu i newidiadau hirdymor yn

y strwythur diwydiannol (megis dirywiad y diwydiant glo a'r diwydiant gweithgynhyrchu). Oni ellir gweld a mesur y nodweddion ffisegol hyn, yna gallai'r rhagamcanion o'r effeithiau ddangos tuedd.

1.28 Os bydd data hydredol ar gael, efallai y gwnaiff helpu i gywiro rhai o'r anawsterau hyn. Er enghraifft, efallai na fydd topograffeg ffisegol ardal yn newid dros amser, a bod ei ddylanwad dros fuddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau yn aros yn gyson dros amser. Yn dilyn hynny, byddai mabwysiadu technegau data panel priodol (gwahaniaeth mewn gwahaniaethau neu effeithiau sefydlog) yn helpu i leihau pryderon o'r fath.


1.29 Fodd bynnag, disgwylir y bydd mwy o anawsterau o ganlyniad i'r ffordd caiff y Rhaglen ei thargedu. Mewn egwyddor, cafodd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ei thargedu at y 10 y cant o ardaloedd LSOA mwyaf difreintiedig, ond yn ymarferol roedd nifer sylweddol o ardaloedd LSOA a chanddynt lefelau amddifadedd is (fel y mesurir yn y MALlC) wedi'u cynnwys o fewn ffiniau'r Rhaglen. Bydd yr algorithm Cyfateb Sgoriau Tueddiadau yn anwybyddu unrhyw driniaeth neu gymhariaeth ag ardaloedd LSOA pan na fydd modd canfod ardaloedd sy'n cyfateb yn dda. Mae'n debyg y bydd y rhan hon o'r 'gefnogaeth gyffredin' yn cael ei llywio gan yr ardaloedd LSOA hynny y tu allan i'r 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig: h.y. ni fydd dim un ardal LSOA o fewn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn cyfateb yn ddigonol gan eu bod i gyd o fewn ffiniau'r Rhaglen. Yn dilyn hynny, dim ond rhagamcanu effeithiau achosol y Rhaglen ymysg yr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf hynny nad oedd yn rhan o'r grŵp targed craidd ar gyfer y polisi y byddai modd i strategaeth y gwerthusiad effeithiau ei wneud (ac felly dim ond cipolwg cyfyngedig ar i ba raddau y mae'r cynllun wedi bodloni ei amcanion polisi cyffredinol y byddai hyn yn ei roi).

1.30 **Diffyg dilyniant gofodol:** Mae ffin weinyddol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yn creu diffyg dilyniant o ran pa mor gymwys yw cymdogaethau i gael cymorth. Gellir ystyried y ffiniau hyn yn rhai mympwyol o ran y buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau (ni chaiff ffiniau'r ardaloedd LSOA eu pennu gan ystyried nodweddion cymdeithasol-economaidd y preswylwyr dan sylw). O'r herwydd, mae ardaloedd LSOA sy'n agos - neu o fewn pellter penodol i ardaloedd LSOA Cymunedau yn Gyntaf yn debygol o rannu nodweddion cymdeithasol-economaidd a welir ac na welir, a byddant yn agored i effeithiau

economaidd tebyg. Un strategaeth werthuso bosibl fyddai sefydlu grŵp gwrthffeithiol o ardaloedd LSOA sy'n agos yn ddaearyddol at Glystyrau Cymunedau yn Gyntaf (er enghraifft, y rheini o fewn 3km).

1.31 Gellid rhagdybio bod yr ardaloedd hyn yn ddigon tebyg o ran eu nodweddion sylfaenol i ardaloedd LSOA Cymunedau yn Gyntaf (er enghraifft, awgrymir yn yr astudiaethau achos y gall ffiniau o'r fath hollti stadau tai sy'n rhannu'r un nodweddion amddifadedd), yn ogystal â rhannu effeithiau economaidd allanol tebyg. Serch hynny, byddai modd cwestiynu dilysrwydd strategaeth o'r fath mewn rhai achosion gan fod y dystiolaeth a gasglwyd mewn astudiaeth achos wedi awgrymu bod gweithwyr Cymunedau yn Gyntaf wedi caniatáu i'r gefnogaeth y maent yn ei darparu gael effeithiau pellach y tu allan i'r ardaloedd LSOA a dargedir mewn achosion o'r fath. Mewn achosion eraill, mae mympwyoldeb ffiniau LSOA wedi creu problemau wrth gyflawni'r Rhaglen (gan roi ambell i reswm dros gefnogi defnyddio'r egwyddorion methodolegol sylfaenol). Yn yr enghraifft isod, fel y dangosir yn Ffigur A1.2 isod, mae'r Clwstwr Rhondda Fach Uchaf yn cynnwys chwe ardal LOSA, ond nid yw'r LSOA sy'n cynnwys canol y dref yn yr ardal wedi'i phennu fel ardal Cymunedau yn Gyntaf.

Ffigur A1.2: Map Clwstwr Rhondda Fach Uchaf





*Ffynhonnell: Stats Cymru, [https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First/Cluster-Maps](https://statscymru.cymru.gov.uk/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Communities-First/Cluster-Maps), darllenwyd 24ain Tachwedd 2014.*

1.32 **Cynllun Anghysonderau Atchweliad:** Mae gan gynllun y Rhaglen, lle targedwyd adnoddau (mewn egwyddor) at y 10 y cant o ardaloedd LSOA mwyaf difreintiedig wedi cael arian gan Gymunedau yn Gyntaf, y potensial i weithredu dull Cynllun Anghysonderau Atchweliad, lle byddai'r rheini sydd ychydig is na'r trothwy ariannu yn cael eu cymharu â'r rheini ychydig dros y trothwy hwnnw. Y rhagdybiaeth sy'n sylfaen i'r dull hwn yw er y bydd yr

ardaloedd hynny sy'n cael cyllid gan Gymunedau yn Gyntaf yn wahanol yn systematig i'r rheini sy'n cael cyllid yn gyffredinol, bydd gwahaniaethau ar hap rhwng y lefel amddifadedd a welir bob ochr i'r trothwy hwn. Mae'r dulliau hyn yn gadarn iawn (o'u cymharu â dulliau RCT), ond nid ydynt yn dangos canfyddiadau cyffredinol (dim ond yr effeithiau bob ochr i'r trothwy y maent yn eu mesur).

1.33 Fodd bynnag, yn ymarferol, mae nifer fawr o ardaloedd LSOA y tu allan i'r 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig wedi cael cyllid drwy Gymunedau yn Gyntaf. Nid yw hyn o reidrwydd yn achosi problemau os oes naid amharhaol yn y tebygolrwydd y bydd ardal yn cael cyllid yn unol â'r trothwy (ac os felly, byddai defnyddio dull RDD niwlog yn briodol). Serch hynny, mae astudiaeth o gyfran yr ardaloedd LSOA sy'n cael cyllid gan Gymunedau yn Gyntaf ym mhob dengradd o'r MALlC yn awgrymu nad oes diffyg dilyniant (mae'n ymddangos bod y tebygolrwydd o gynnal aseiniad i'r driniaeth yn cynyddu'n barhaus gydag amddifadedd). Yn dilyn hynny, mae'n annhebygol y bydd defnyddio dull RDD niwlog yn ddewis ymarferol.

Ffigur A1.3: Ardaloedd LSOA Cymunedau yn Gyntaf fesul dengraddau MALlC




1.34 **Hap-dreialon wedi'u rheoli:** Hap-dreial wedi'i reoli (RCT) yw'r strategaeth werthuso fwyaf cadarn, ond byddai angen neilltuo statws triniaeth ar hap er mwyn ei defnyddio. Nid yw'r adnoddau wedi'u dyrannu ar hap wrth gynllunio'r

Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ac nid oes modd defnyddio'r mathau hyn o ddulliau yma.

**Rheoli rhaglenni ehangach**

1.35 Bydd angen i'r gwerthusiad hefyd ystyried ymyriadau cenedlaethol a gofodol penodol eraill y gallant gyfrannu at sicrhau buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau. Gyda data ar lefel ardal, byddai angen i'r atchweliadau gynnwys set o newidynnau rheoli sy'n diffinio i ba raddau y mae ardal LSOA benodol wedi cael budd o raglenni eraill (y gellid ei ddiffinio fel y cyllid cyffredinol dan sylw, fel ffordd o ddisgrifio'r cymorth dwys), gan gwmpasu:

- Dechrau'n Deg
- Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid

1.36 Fodd bynnag, mae llawer o gynlluniau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru yn genedlaethol ychydig yn wahanol ar lefel leol ac mae hyn hefyd yn debygol ddylanwadu ar y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhain yn cynnwys Teuluoedd yn Gyntaf, y Grant Amddifadedd Disgyblion, a Twf Swyddi Cymru. Mae'n bosibl y bydd angen ystyried y rhain mewn ffyrdd gwahanol:

- Mae'r **Grant Amddifadedd Disgyblion** (PDG) yn grant a gaiff ei ddyrannu fesul disgybl ar sail nifer y dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig ac mae ganddo'r potensial i ddylanwadu ar gyrhaeddiad addysgol a chanlyniadau eraill cysylltiedig. Caiff y grant ei ddarparu fesul ysgol, a bydd pob un ohonynt yn debygol o gynnwys cymysgedd o ardaloedd LSOA Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd heb fod yn rhai Cymunedau yn Gyntaf. O'r herwydd, efallai y bydd yn bosibl datblygu newidyn rheoli priodol ar lefel LSOA drwy gymryd yn ganiataol y bydd dyraniad pob ysgol yn cael ei rannu'n gyfartal i'w disgyblion. Mae Cronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion yn darparu cod post ar gyfer yr holl ddisgyblion, a gellir ei ddefnyddio i fesur faint o gyllid cyffredinol sydd wedi cyrraedd preswylwyr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Un strategaeth symlach - ond llai manwl - fyddai tybio bod bob ardal LOSA yn cael budd o gyllid y PDG sy'n gysylltiedig â'r ysgol agosaf at darddle'r ardal honno.
- Bydd **Twf Swyddi Cymru** yn helpu i gyfrannu at y canlyniadau cyflogaeth sydd wedi'u targedu gan ymyriadau drwy greu swyddi gwag dros dro (dim

ond i breswylwyr Cymunedau yn Gyntaf y bydd rhai ohonynt ar gael). Mae'n bosibl y bydd y Rhaglen yn gyfrifol am ddiffinio'r newidyn rheoli ar gyfer nifer y swyddi gwag sydd ar gael drwy Twf Swyddi Cymru (JGW) ac sy'n cael eu hysbysebu yn Ardal Teithio i'r Gwaith bob LSOA (lle bydd ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf hefyd yn cael budd o'r swyddi gwag ychwanegol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y preswylwyr).

- Caiff **Teuluoedd yn Gyntaf** ei ddyrannu ar lefel awdurdod lleol, a'r unig ffordd realistig ar gyfer ystyried yr ymyriad hwn fyddai cymryd yn ganiataol y caiff y cyllid ei rannu'n gyfartal ar draws yr ardaloedd LSOA sy'n cael buddiannau. Ni fyddai'r brasamcan hwn yn berffaith o bell ffordd, gan fod llawer o bartneriaethau Teuluoedd yn Gyntaf wedi defnyddio eu cyllid i dargedu meysydd angen penodol. Er enghraifft, mae rhai Awdurdodau Lleol yn targedu ardaloedd maent yn gwybod eu bod fwyaf tebygol o gynnwys teuluoedd y bydd angen cymorth arnynt, neu grwpiau oed penodol. Mewn un ardal, er enghraifft, dim ond mewn ardaloedd tlawd iawn yr hysbysebwyd proses gyflwyno'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf i ddechrau, er mai'r weledigaeth gyffredinol yn y pen draw yw ehangu'r rhaglen ar gyfer pawb ar ôl rhoi blaenoriaeth i grwpiau penodol i ddechrau.

### Ffactorau allanol ehangach

1.37 Fel y nodir yn yr adrannau uchod, pan mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi arwain at ganlyniadau yn y farchnad lafur (drwy gefnogi unigolion i gyrraedd byd gwaith), mae'n bosibl i hynny arwain at effeithiau dadleoli lle mae'r unigolion sy'n cael gwaith cyflogedig yn cael effaith negyddol ar ragolygon cyflogaeth ceiswyr gwaith cystadleuol. Er mai'r effeithiau hyn fel arfer yw'r rhai mwyaf anodd i'w mesur yn gadarn wrth werthuso, mae nifer o strategaethau wedi'u mabwysiadu mewn gwerthusiadau eraill o raglenni gofodol y gellid eu defnyddio wrth werthuso Cymunedau yn Gyntaf.

1.38 **Crynhoi gofodol:** Byddai modd archwilio effeithiau dadleoli yn y farchnad ffactorau drwy gynyddu'r lefel crynhoi gofodol yn y dadansoddiad (at lefel awdurdod lleol neu ardaloedd teithio i'r gwaith). Er enghraifft, byddai'n bosibl diffinio newidyn triniaeth ar lefel awdurdod lleol fel canran yr ardaloedd LSOA sy'n cael cyllid gan Gymunedau yn Gyntaf. Os gwelir bod effeithiau sylweddol

ar ddiweithdra ar lefel y Clystyrau, ond nid ar lefel yr awdurdodau lleol, efallai y byddai'n rhesymol dod i'r casgliad mai prif effaith y Rhaglen yw cefnogi preswylwyr yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf i gael gwaith ar draul ceiswyr gwaith eraill o fewn ffiniau'r awdurdod lleol. Mae'r strategaeth hon wedi'i defnyddio mewn rhai astudiaethau econometrig (gan gynnwys gwerthusiad hirdymor o'r Rhaglen Cymorth Dewisol Rhanbarthol yng nghyswllt canlyniadau creu swyddi net[48]), ac y gellid efelychu hyn mewn prif astudiaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd pryderon y gallai dull o'r fath arwain at ganlyniadau sy'n dangos tuedd yn yr enghraifft hon: efallai y bydd disgwyl i awdurdodau lleol a chanddynt gyfran uwch o ardaloedd LSOA Cymunedau yn Gyntaf fod y rhai mwyaf tebygol o fod yn ddarostyngedig i broblemau dirywiad economaidd yn yr hirdymor (a'r lleiaf tebygol o weld twf mewn galw am swyddi, a lleihad yn nifer y bobl sy'n ddi-waith yn yr hirdymor a'r tymor byr wrth i'r economi ehangach wella). Mae disgwyl na fydd strategaeth o'r fath yn adlewyrchiad teg o effeithiau Cymunedau yn Gyntaf (gan arwain at gamddehongli pa mor gryf yw'r effeithiau amnewid perthnasol).

1.39 **Cylchoedd rheoli:** Cafodd strategaeth arall ei mabwysiadu mewn gwerthusiad academaidd o'r Cynllun Twf Menter Leol.[49] Roedd yr astudiaeth yn defnyddio dull methodolegol yn seiliedig ar fanteisio ar y diffyg dilyniant gofodol o ganlyniad i'r ffordd y caiff y Rhaglen ei thargedu, ond roedd yn caniatáu'r posibilrwydd y byddai effeithiau diffyg dilyniant mewn ardaloedd LSOA a oedd yn amrywio yn ôl eu pellter oddi wrth yr awdurdodau lleol i gael budd yn sgil y Rhaglen LEGI (h.y. creu 'cylchoedd' rheoli effeithiol o amgylch ffiniau'r Rhaglen). Unwaith eto, byddai modd defnyddio methodoleg debyg wrth werthuso'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Er na fyddai modd i'r canlyniadau ystyried mwy nag effeithiau diffyg dilyniant dros bellter cymharol fach oddi wrth ffiniau'r Rhaglen, byddai'r fethodoleg yn fwy cadarn (oherwydd rhagdybir bod yr ardaloedd hynny sydd o fewn pellter byr i'r ardaloedd LSOA ac yn cael cyllid gan Gymunedau yn Gyntaf yn rhannu nodweddion cymdeithasol-economaidd tebyg).

---

[48] 'The Causal Effects of an Industrial Policy', Papur Trafod Rhif 1113 y Ganolfan Perfformiad Economaidd, Criscuola, Martin, Overman, a Van Reenan, 2012

[49] 'The Effects of Spatially Targeted Enterprise Initiatives,' Einio ac Overman, 2011. Ar gael yn http://dev3.cepr.org/meets/wkcn/2/2434/papers/OvermanFinal.pdf, (darllenwyd Tachwedd 2014)

1.40 **Rhagdybiaeth:** Yn olaf, mae canllawiau Dadansoddiad Cost a Budd yr Adran Gwaith a Phensiynau[50] yn darparu amrywiaeth o ragdybiaethau ar gyfer ystod o effeithiau amnewid tebygol y gellid eu defnyddio mewn prif werthusiad. Fodd bynnag, ni fyddai strategaeth o'r fath yn seiliedig ar dystiolaeth empirig o ran y Rhaglen, ac ni chaiff hyn ei argymell oni bai nad oes llawer o ffydd yn y dulliau eraill.

**Dewis arall i'r gwerthusiad effeithiau**

1.41 Ac ystyried yr anawsterau posibl o ran mabwysiadu cynllun gwerthuso lled-arbrofol, mae strategaeth werthuso arall (er y byddai'n un llai cadarn) yn haeddu ystyriaeth bellach.

1.42 Fel y nodir uchod, mae'r Rhaglen yn casglu tystiolaeth ynghylch 102 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol sy'n disgrifio'r canlyniadau gros a gyflawnwyd gan y Rhaglen. Byddai modd cyfuno'r dystiolaeth hon â thystiolaeth werthuso ehangach o effeithiolrwydd y mathau gwahanol o fentrau a ariennir drwy Gymunedau yn Gyntaf er mwyn darparu rhagamcan yn seiliedig ar dybiaethau o effeithiau posibl y Rhaglen.

1.43 Byddai angen cynnal adolygiad systematig o astudiaethau gwerthuso'r ymyriadau cymharol er mwyn mabwysiadu ystod o werthoedd tebygol ar gyfer elfennau 'difuddiant' (ac yn achos canlyniadau economaidd, dadleoli ac effeithiau cydbwysedd cyffredinol eraill). Gallai ffynonellau defnyddiol o dystiolaeth (ochr yn ochr ag adolygiad systematig o lenyddiaeth y ffynhonnell) ar gyfer rhagdybiaethau o'r fath gynnwys y canlynol:

- Mae canolfannau **'What works?'** wedi'u sefydlu yn Lloegr er mwyn cyfuno'r dystiolaeth gwerthuso sydd ar gael yng nghyswllt pa mor effeithiol yw'r gwahanol fathau o ymyriadau cyhoeddus o ran cyflawni'r canlyniadau a ragwelwyd. Bydd gwaith y cyrff canlynol yn berthnasol iawn: y Gronfa Waddol Addysgol (ymyrryd yn gynnar), Canolfan What Works ar gyfer Twf Economaidd Lleol (yng nghyswllt canlyniadau'r farchnad lafur a ragwelwyd), y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a

[50] 'Improving DWP assessment of the relative costs and benefits of employment programmes,' Papur Gwaith 100, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2011. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214397/WP100.pdf (darllenwyd Tachwedd 2014).

Gofal (canlyniadau iechyd), a'r Ganolfan What Works ar gyfer Lleihau Troseddu (canlyniadau trosedd).

- Mae **dogfennau cyfarwyddyd y Dadansoddiad Cost a Budd** (CBA) a ddatblygwyd gan y Llywodraeth ganolog yn aml wedi ymdrin ag adolygiadau systematig o ymyriadau tebyg. Bydd canllawiau'r Adran Gwaith a Phensiynau yn hynod berthnasol ar gyfer gwella'r ffordd y caiff dulliau CBA eu rhoi ar waith[51] ar gyfer ymyriadau sydd wedi'u bwriadu i helpu unigolion i symud i fyd gwaith. Mae'r canllawiau hyn yn adolygu'r llenyddiaeth academaidd sydd ar gael yng nghyswllt yr amrywiaeth ehangach o ffactorau allanol perthnasol (gan gynnwys effeithiau dadleoli ac amnewid) ac yn cyflwyno argymhellion ar gyfer addasiadau mewn gwerthusiadau lle nad oes modd amcangyfrif effeithiau o'r fath yn uniongyrchol.

1.44 Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy werthusiad o'r broses yn awgrymu nad oes llawer o dystiolaeth o 'gyfateb' cyllid Cymunedau yn Gyntaf â ffynonellau cyllid eraill er mwyn ariannu prosiectau mewn ffordd systematig. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau lle'r oedd cyllid Cymunedau yn Gyntaf yn cael ei gyfuno ag arian y Grant Amddifadedd Disgyblion. Mewn achosion o'r fath, nid yw'n glir i ba raddau y mae'r broses o gofnodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol wedi'i chynllunio i osgoi cyfrif allbynnau ddwywaith o dan raglenni ar wahân. Yn yr un modd, mae gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer helpu pobl ifanc i lenwi swyddi gwag sy'n cael eu hariannu drwy Twf Swyddi Cymru (Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am ysgwyddo'r gost drwy Twf Swyddi Cymru yn hytrach na Chymunedau yn Gyntaf).

1.45 Bydd angen cyflawni ymchwiliad pellach drwy brif astudiaeth er mwyn datrys y problemau hyn, ond pan mae sawl ffynhonnell o gyllid cyhoeddus wedi'u defnyddio i ariannu prosiectau penodol, awgrymir bod yr allbynnau a'r canlyniadau sydd wedi'u cofnodi yn cael eu rhannu â'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar sail cyfran o gostau cyffredinol y prosiect (sy'n cyd-fynd â'r dull cyffredinol o rannu allbynnau rhwng partneriaid y sector cyhoeddus sydd

[51] 'Improving DWP assessment of the relative costs and benefits of employment programmes,' Papur Gwaith 100, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2011. https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/214397/WP100.pdf (darllenwyd Tachwedd 2014).

wedi'u pennu ar gyfer Rhaglenni Cronfa Unigol ERDF ac RDA).[52] Efallai na fydd ymarfer o'r fath yn syml os nad yw'n bosibl cael gwybodaeth am Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar lefel prosiect (nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd gan nad yw tîm y gwerthusiad wedi cael mynd ar y system Ffynnon).

**Dewisiadau gwerthuso economaidd**

1.46 Rhagwelir y gall gwerthusiad economaidd o Gymunedau yn Gyntaf fod yn rhan ddymunol o werthusiad canlyniadau'r Rhaglen. Byddai gwerthusiad economaidd yn ceisio sefydlu i ba raddau y mae modd cyfiawnhau costau'r Rhaglen yn unol â'i manteision. Fel y nodir yn Llyfr Magenta Trysorlys EM, mae dau fath o werthusiad gwerthusiad economaidd sy'n haeddu ystyriaeth:

- **Dadansoddiad cost-effeithiolrwydd** lle mae canlyniadau net yr ymyriadau yn gysylltiedig â'u costau (e.e. cost fesul unigolyn net sy'n cael cefnogaeth i gael gwaith).
- **Dadansoddiad cost a budd** lle caiff canlyniadau net Cymunedau yn Gyntaf symiau ariannol er mwyn llunio cymhareb budd i gost (h.y. £ o fuddiannau am bob £1 a gaiff ei gwario).

1.47 **Costau:** Disgwylir y bydd costau adnoddau net Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu casglu drwy fonitro'r Rhaglen yn ariannol. Er bod y Rhaglen yn 'plygu rhaglenni', lle caiff yr adnoddau sy'n gysylltiedig â mentrau eraill eu dargyfeirio neu y bydd modd dylanwadu arnynt mewn ffordd arall er mwyn mynd i'r afael ag amcanion y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, mae'n debyg y bydd yr adnoddau ehangach hyn wedi cael eu defnyddio ni waeth pa ymyriadau y mae Cymunedau yn Gyntaf yn eu cefnogi. Nid oes disgwyl y bydd Cymunedau yn Gyntaf yn manteisio ar adnoddau preifat.

1.48 **Manteision ac anfanteision:** Byddai angen i CBA werthfawrogi'r manteision a'r anfanteision sydd ynghlwm wrth y canlyniadau canlynol:

- **Gwella cyflogadwyedd a chynhyrchiant:** Mae Cymunedau yn Gyntaf yn debygol o gyflawni effeithiau economaidd drwy ddau brif ddull. Yn gyntaf, mae disgwyl y bydd ymyriadau ar gyfer gwella sgiliau unigolion (gan

[52] 'Technical Note of Combined Indicators for RDA Single Budget and ERDF Programme 2007-13,' OffPAT, 2008. Ar gael yn https://support.erdf.communities.gov.uk/User Manual/Chapter 11 - Combined Indicators Technical Note.doc (darllenwyd Tachwedd 2014)

gynnwys ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i wella lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion ymysg y preswylwyr iau) yn gwella cyflogadwyedd a chynhyrchiant, a fydd yn ei dro yn sicrhau mwy o incwm i'r preswylwyr (heb gynnwys unrhyw effeithiau dadleoli yn y farchnad lafur). Efallai fod disgwyl i ymyriadau sydd wedi'u cynllunio i sicrhau gwaith i unigolion gael effeithiau tebyg.

- Gellir mesur yr incwm ychwanegol hwn yn uniongyrchol drwy ddadansoddi Astudiaeth Hydradol yr Adran Gwaith a Phensiynau (y gellir ei grynhoi ar lefel LSOA). Serch hynny, dim ond yr effeithiau tymor byr ar enillion y byddai hyn yn eu casglu, tra bod disgwyl i ddylanwad Cymunedau yn Gyntaf bara gydol oes yr unigolion o dan sylw. Yn dilyn hynny, efallai y byddai'n well defnyddio cyfuniad o ystadegau ysgolion yn yr Adran Addysg a Chyflogaeth ac ILR Cymru er mwyn amcangyfrif effeithiau Cymunedau yn Gyntaf ar y cymwysterau a enillir gan breswylwyr ac amcangyfrif effeithiau cyflogadwyedd ac incwm ar sail y llenyddiaeth eilaidd, gan archwilio'r cysylltiadau rhwng sgiliau, cyflogadwyedd ac enillion. Er enghraifft, mae'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau wedi datblygu darn mawr o waith yn edrych ar bremiymau'r enillion sy'n gysylltiedig â mathau gwahanol o gymwysterau galwedigaethol.
- Pan mae Cymunedau yn Gyntaf wedi arwain at gynnydd yn nifer yr unigolion sy'n dechrau gweithio, bydd hefyd yn bwysig ystyried y costau economaidd sy'n gysylltiedig â'r canlyniadau hyn (gan gynnwys costau gofal plant a chostau teithio). Mae canllawiau CBA DWP yn cynnig arweiniad ar sut y dylid ymdrin â'r effeithiau hyn (ac maent wedi'u gweithredu'n ymarferol yng ngwerthusiad Cronfa Swyddi'r Dyfodol).[53]
- **Rheoli dyledion yn well:** Mae'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf wedi pennu Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer rheoli dyledion yn well. Efallai fod disgwyl i'r effeithiau hyn fod yn rhai niwtral o ran lles i raddau helaeth ar lefel y DU: er y gallai hyn arwain at daliadau llog llai wrth dalu dyledion buddiolwyr perthnasol y Rhaglen, bydd hyn hefyd yn cael ei weithredu ar draul colled mewn elw i sefydliadau ariannol. O ran Cymru,

[53] 'Impacts and Costs and Benefits of the Future Jobs Fund,' Yr Adran Gwaith a Phensiynau, 2012. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/223120/impacts_costs_benefits_fjf.pdf (darllenwyd Tachwedd 2014).

efallai na fydd yr effeithiau dadleoli hyn mor amlwg (gan fod pencadlys llawer o'r sefydliadau ariannol perthnasol yn Llundain). Serch hynny, gan fod trethdalwyr (ac felly preswylwyr Cymru) yn cynrychioli cyfranddaliwr mawr yn rhai o'r sefydliadau bancio manwerthu mwyaf, yn ogystal â chymhlethdod yr effeithiau perthnasol (er enghraifft, gallai effeithiau dadleoli o'r fath arwain at golli elw – a swyddi – ymysg asiantaethau casglu dyledion yng Nghymru), argymhellir y dylid anwybyddu'r effeithiau hyn mewn unrhyw CBA.

- **Lleihau troseddu:** Bydd gweithgareddau sydd wedi'u cynllunio i leihau troseddu (neu aildroseddu) yn arwain at leihau'r ffactorau allanol negyddol sy'n gysylltiedig â throseddau (sy'n cronni i ddioddefwyr) yn ogystal â'r costau i'r system cyfiawnder troseddol. Gan fod modd mesur yr effeithiau hyn drwy werthusiad canlyniadau, mae modd pennu gwerth ar eu cyfer gan ddefnyddio pecyn cymorth gwerth am arian y Swyddfa Gartref (sy'n darparu fframwaith ar gyfer rhoi gwerth ariannol ar gyfer costau bob mathau o droseddau).[54]
- **Canlyniadau iechyd:** Gallai gwella canlyniadau iechyd arwain at wella lles cymdeithasol y gellir cyfrifo ei werth gan ddefnyddio dau ddull:
    - **Iechyd gwell:** Gallai gwella iechyd preswylwyr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf arwain at wella ansawdd bywyd y preswylwyr hynny. Fel rheol, caiff y gwelliannau hyn eu mesur yn unol â Blwyddyn o Fywyd wedi'i Haddasu yn ôl Ansawdd (QALY) neu Flynyddoedd Oes wedi'u Haddasu yn ôl Anabledd (sy'n cyfateb y buddion o ran iechyd i'r buddion o ran disgwyliad oes, wedi'u haddasu ar gyfer cyflyrau iechyd a allai leihau ansawdd bywyd). Fel arfer gellir tybio bod gwerth un QALY ychwanegol yn £20,000 (sef y rhagdybiaeth y mae NICE wedi'i mabwysiadu yn ei arfarniad o dechnolegau iechyd newydd, er bod gwaith ymchwil i economeg iechyd yn awgrymu mai dyma hefyd yw'r swm y byddai unigolyn nodweddiadol yn barod i'w dalu am fudd o'r fath). Er mwyn rhoi gwerth ariannol i'r canlyniadau iechyd a welir (ac mae angen nodi mai dim ond yn yr hirdymor y mae'r rhain yn debygol o

[54] Darllenwch 'Integrated Offender Management Efficiency Toolkit, Phase 2 Value for Money tool,' y Swyddfa Gartref, 2011. Ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/integrated-offender-management-efficiency-toolkit-phase-2-value-for-money-tool (darllenwyd Tachwedd 2014).

fod yn berthnasol), bydd angen darparu tystiolaeth eilaidd o'r budd QALY sy'n gysylltiedig â'r mathau gwahanol o ganlyniadau iechyd. Mae Matrix Consulting wedi darparu adolygiad systematig o'r dystiolaeth eilaidd hon, y gellid ei defnyddio at y dibenion hyn.[55]

- **Lleihau costau i'r GIG:** Gallai gwella canlyniadau iechyd arwain hefyd at lai o gostau i'r gwasanaethau iechyd, ond mae'r rhain fel arfer yn fwy anodd i ymdrin â nhw mewn dadansoddiad cost a budd (gan mai gohirio'r broses o ddefnyddio gwasanaethau iechyd, yn hytrach nag osgoi'r costau hyn yn llwyr y bydd ffyrdd gwell o fyw). Er y gallai gohirio gwario ar iechyd wella lles (gan ei bod yn debygol y bydd lefel cynhyrchedd yn y GIG yn parhau, gan alluogi trin cyflyrau iechyd yn fwy effeithlon yn y dyfodol), mae'n debyg na fydd modd olrhain y cymhlethdodau sydd ynghlwm wrth ymdrin â materion o'r fath. O'r herwydd, awgrymir y dylid anwybyddu effeithiau o'r fath at ddibenion CBA.

**Casgliadau ac Argymhellion**

1.49 **Canlyniadau:** Dylai'r fframwaith presennol sy'n cynnwys 102 o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol weithredu fel llwyfan ar gyfer diffinio'r prif ganlyniadau y byddai angen eu harchwilio drwy werthusiad canlyniadau. Fodd bynnag, mae angen cyflawni rhagor o waith mewn rhai meysydd (yn arbennig o ran canfod y manteision iechyd a ddisgwylir yn nes ymlaen gyda'r gweithgareddau sy'n cael eu hariannu drwy'r Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf). O'r herwydd, awgrymir mai'r dasg gyntaf ar gyfer gwerthusiad canlyniadau fyddai datblygu modelau rhesymeg manwl yn mapio'r llwybrau achosol a ddisgwylir rhwng y gweithgareddau a ariennir drwy Gymunedau yn Gyntaf, canlyniadau interim neu ganolradd y Rhaglen, a'r canlyniadau terfynol (sy'n cynrychioli'r gwelliannau wrth dargedu lles cymdeithasol drwy'r Rhaglen).

1.50 **Uned ddadansoddi:** Argymhellir y dylai gwerthusiad canlyniadau gael ei lywio gan ddata ar lefel ardal (ar lefel LSOA) yn hytrach na cheisio casglu tystiolaeth gan gyfranogwyr (neu breswylwyr ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf). Byddai'n well defnyddio dull o'r fath am resymau ymarferol (byddai'n

[55] Ewch i http://help.matrixknowledge.com/page/Data-extraction.aspx .

anodd iawn gweithredu arolwg cadarn o gyfranogwyr y Rhaglen), ac am resymau dadansoddol (ni fyddai'n ymarferol mynd i'r afael â materion ynghylch hunanddewis ar gyfer triniaeth mewn ffordd gadarn). Er y gallai fod yn ymarferol cynnal arolwg cyffredinol o'r preswylwyr (mewn ardaloedd triniaeth a rheoli), mae'n debyg y byddai hyn yn gostus ac mae'n rhy hwyr casglu data llinell isaf erbyn hyn.

1.51 **Mesur canlyniadau:** Bydd data ar lefel LSOA ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o'r canlyniadau craidd sy'n cael eu targedu gan y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf (er ei bod yn amlwg y bydd rhai bylchau o ran rhai o'r buddiannau sy'n dod yn sgil canlyniadau canolradd). Serch hynny, efallai y bydd yn anodd cael gafael ar rywfaint o'r data hwn (megis data PNC o ran lleoliad troseddau) ac awgrymir bod Llywodraeth Cymru yn ystyried cytundebau rhannu data priodol gyda pherchnogion y data buddiannau (pan mae angen) cyn comisiynu prif astudiaeth.

1.52 **Strategaeth y gwerthusiad effeithiau:** Mae nodweddion o gynllun Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu ffafrio oherwydd ei botensial i ddatblygu gwerthusiad effeithiau lled-arbrofol cadarn. Yn benodol, dylai'r gwerthusiad geisio mabwysiadu dwy strategaeth i ganfod sefyllfa wrthffeithiol:

- **Diffyg dilyniant gofodol:** Dylai'r gwerthusiad fanteisio ar fympwyoldeb ffiniau'r LSOA (gan ddefnyddio ardaloedd LSOA sy'n agos at ffiniau Cymunedau yn Gyntaf fel ardaloedd cymharu, ar y sail y byddant yn rhannu nodweddion cymdeithasol-economaidd tebyg).
- **Ardaloedd cymharu cyfatebol:** Dylid mabwysiadu ail strategaeth yn seiliedig ar gyfateb ardaloedd LSOA Cymunedau yn Gyntaf ag ardaloedd LSOA nad ydynt yn rhai Cymunedau yn Gyntaf er mwyn croesgyfeirio'r canlyniadau. Ni fydd modd i'r dadansoddiad ystyried yr ardaloedd LSOA hynny o fewn y 10 y cant o ardaloedd mwyaf difreintiedig.

1.53 **Risgiau:** Mae'r ffaith bod y Rhaglen flaenorol yn bodoli ac yn cynnwys nodweddion a dulliau targedu gofodol tebyg i rai Cymunedau yn Gyntaf yn cyflwyno risg bosibl bod prif astudiaeth yn methu canfod effaith sy'n gysylltiedig â chyfnodau blaenorol y Rhaglen hon (gan fod effeithiau'r fenter flaenorol eisoes yn bodoli yn yr ystadegau ar lefel ardal). Byddai modd mynd i'r afael â hyn drwy (1) edrych ar Gymunedau yn Gyntaf yn y rownd gyntaf

(h.y. o 2001 ymlaen) lle mae data ar gael, neu (2) rheoli i ba raddau y cafodd ardaloedd LSOA penodol eu targedu yn y Rhaglen flaenorol drwy ychwanegu dulliau rheoli priodol mewn atchweliadau (ac yn yr achos hwn, byddai effeithiau'r Rhaglen yn cael eu dynodi gan y newidiadau i ffiniau'r Rhaglen).

1.54 **Modelu:** Ac ystyried y risgiau hyn, efallai ei bod hefyd yn werth ystyried strategaeth werthuso wahanol wedi'i llywio gan y Dangosyddion Perfformiad Allweddol y mae'r Clystyrau wedi'u nodi. Byddai hyn yn canolbwyntio ar ddefnyddio tystiolaeth eilaidd o effeithiau ymyriadau y gellir eu cymharu er mwyn llunio rhagdybiaethau ar elfennau difuddiant, dadleoli a ffactorau eraill o ran buddiannau.

1.55 **Gwerthusiad economaidd:** Ar yr amod ei bod yn bosibl rhoi gwerth ariannol ar effeithiau achosol allweddol o fuddiannau, byddai'n bosibl cyflawni CBA o'r Rhaglen drwy fanteisio ar yr amrywiaeth y dystiolaeth eilaidd o werth ariannol y canlyniadau a ragwelir ym maes addysg, hyfforddiant, troseddu, ac iechyd.